

# CABINET

## CYNGOR GWYNEDD

<b>DYDDIAD</b>	Dydd Mawrth, 10fed Mawrth, 2020
<b>AMSER</b>	1.00 y.h.
<b>LLEOLIAD</b>	Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH
<b>PWYNT CYSWLLT</b>	Annes Siôn 01286 679490 cabinet@gwynedd.llyw.cymru

### AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Aelodau</b>	
Dyfrig L. Siencyn	Arweinydd
Dafydd Meurig	Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Gareth Wyn Griffith	Aelod Cabinet Amgylchedd
Nia Wyn Jeffreys	Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Catrin Wager	Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Cemlyn Rees Williams	Aelod Cabinet Addysg

## RHAGLEN

	<b>Eitem</b>	<b>Cyflwynir gan</b>	<b>Swyddog</b>	<b>Tud.</b>
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 CHWFROR			4 - 11
6	CYNLLUN BUDDSODDI I ARBED - NEUADD DWYFOR	Cyng. Gareth Thomas	Roland Evans	12 - 20
7	ADDYSG ÔL-16	Cyng. Cemlyn Williams	Garem Jackson	21 - 64
8	CYNLLUN CYDRADDOLDEB 2020-24	Cyng. Nia Jeffreys	Delyth Gadlys	65 - 105
9	CANOLFAN INTERGREDIG MAESGEIRCHEN	Cyng. Dilwyn Morgan a'r Cyng. Craig ab Iago	Catrin Thomas a Dafydd Gibbard	106 - 109

---

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 18 CHWEFROR 2020

---

### Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas, Cemlyn Williams, Catrin Wager ac Aled Wyn Jones (Aelod Lleol – eitem 6)

### Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Garem Jackson (Pennaeth Addysg) a Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor/Meirion)

Eitem 7: Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) a Bethan Richardson (Swyddog Cefnogi Busnes).

Eitem 8: Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid)

Eitem 9: Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) ac Emma Quaeck (Rheolwr Rhaglen Dementia Go)

Eitem 11: Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) ac Arwel Owen (Pennaeth Cynorthwyol Tai a Llesiant)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod a diolchwyd i staff sydd wedi bod yn gweithio ym mhob tywydd yn ystod y stormydd diweddar. Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu

## 5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 21 A 28 IONAWR

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 21 ar 28 Ionawr 2020 fel rhai cywir.

## 6. YSGOL LLANAELHAEARN

Cyflwynwyd gan Cyng. Cemlyn Williams

### PENDERFYNIAD

Penderfynwyd derbyn y sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol ynghyd a chytuno i:

- i. Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn ar 31 Awst 2020, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Bro Plennydd, Y Ffôr o 1 Medi 2020.
- ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
- iii. Cymeradwyo trefniadau cludiant ar gyfer y cyfnod trawsnewidiol yn unig, pryd bydd cludiant di-dâl i'r disgyblion hynny sydd wedi cofrestru yn Ysgol Llanaelhaearn ar hyn o bryd, i Ysgol Bro Plennydd, Y Ffôr neu Ysgol Chwilog yn benodol, os yn byw dros 2 filltir i'r ysgol a ddewisir, neu yn derbyn cludiant am ddim oherwydd natur y ffordd yn unol â pholisi cludiant cyfredol Cyngor Gwynedd.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ym mis Rhagfyr fod y Cabinet wedi cymeradwyo y cais i ddechrau cyfnod o ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Llanaelhaearn yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Pwysleisiwyd bod niferoedd y disgyblion wedi lleihau i 8 dros y blynyddoedd diwethaf a bod rhagamcanion yn amlygu y bydd tebygolrwydd y bydd y niferoedd yn cwmpo ymhellach dros y 5 mlynedd nesaf a bod hyn yn anorfod yn ffactor blaenllaw.

Nododd y Pennaeth Addysg yn ystod y cyfnod ymgynghori fod 7 ymatebiad wedi ei dderbyn ynghyd ag ymatebiad gan Estyn a trefnwyd sesiynau gyda'r disgyblion. Bu i'r Swyddog Ardal nodi'r sylwadau a godwyd gan y disgyblion a oedd yn pwysleisio eu bod yn tristau fod cau'r ysgol yn opsiwn a'u bod yn awyddus i fynychu Ysgol Chwilog yn hytrach 'nac Ysgol Bro Plennydd o ganlyniad i gysylltiadau ar ysgol yn barod. Ategwyd fod Ysgol y Chwilog ac Ysgol Llanaelhaearn wedi bod yn gweithio yn agos ond fod Ysgol Bro Plennydd wedi ei ddewis fel ysgol amgen gan ei bod yn nes yn ddaeryddol. Ychwanegwyd fod modd i Ysgol Bro Plennydd ymdopi a'r nifer ychwanegol o ddisgyblion ac o ganlyniad i hyn y bydd dalgylch yr ysgol yn cael ei ymestyn. Ymhelaethwyd yn ogystal gan fod y disgyblion yn awyddus i fynd i Ysgol Chwilog y byddai'r Adran yn fodlon talu costau cludiant i ddisgyblion presennol yr ysgol fynychu'r ysgol honno os mai hynny fyddai dymuniad y rhieni a bod modd eu cofrestru yn yr ysgol. Yn hynny o beth tanlinellwyd y byddai hynny yn ddibynnol ar argaeledd lle yn ysgol Chwilog, o gofio mai plant y dalgylch fyddai'n cael blaenoriaeth. Ar sail y sefyllfa fel ag y mae hi ar hyn o bryd, ac oni bai i bethau newid yn sylweddol ym Medi, ni ddylai hynny fod yn broblemus.

Mynegodd yr aelod Lleol ei siom a thristwch o gau'r ysgol. Diolchwyd a mynegodd glod i'r staff am ddarparu addysg i'r disgyblion sydd ar ôl ac i'r Llywodraethwyr am ymgeisio i gael disgyblion yn ôl i'r ysgol. Diolchwyd yn ogystal i'r adran Addysg am roi'r cynnig yno i gael mynd i Ysgol Chwilog yn ogystal.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod yr ystadegau yn yr adroddiad yn amlygu'r heriau sydd yn wynebu'r ysgol. Diolchwyd i'r Adran am eu gwaith ymgysylltu a holwyd os bydd yr Adran yn darparu cludiant i'r ddwy ysgol. Esboniwyd y bydd cludiant ar gael ac felly fod dewis ysgol yn ddibynnol ar ddymuniad rhieni.
- Holwyd o ran amserlen bydd y modd i rieni i gofrestru eu plant yn un o'r ddwy ysgol. Amlygwyd y bydd y disgyblion yn symud yn awtomatig i Ysgol Bro Plennydd ac yna dewis y rhiant fydd ymgeisio i gofrestru yn Ysgol Chwilog.
- Mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig i fynd i ddwy ysgol fel bod y plant yn cael dewis eu hysgol.
- Nodwyd tristwch o gau'r ysgol a diolchwyd i'r Llywodraethwyr yr Ysgol.

## 7. CYNLLUN Y CYNGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

### PENDERFYNIAD

Penderfynwyd cymeradwyo Cynllun Cyngor Gwynedd 2018/23 – Adolygiad 2020/21 i'w gyflwyno i'r Cyngor ar y 5 Mawrth 2020 yn ddarostyngedig i'r canlynol:

- Ychwanegu cymalau yn Adran Dai i nodi beth mae'r Cyngor yn ei wneud ac yn blaenoriaethau am y flwyddyn i ddod o ran y broblem sy'n cael ei greu o ran cyflenwad yn sgil y nifer o dai haf sydd yn y sir.
- Addasiadau i drefn gwybodaeth Adran Addysg yn y Cynllun.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Cynllun y Cyngor wedi ei fabwysiadu yn wreiddiol gan y Cyngor Llawn yn 2018. Ychwanegwyd fod y Cynllun yn cael ei adolygu yn flynyddol. Mynegwyd fod y Cyngor yn ceisio gwneud y Cynllun yn ddealladwy i drigolion ac yn amlinellu prif brosiectau'r Cyngor am y flwyddyn i ddod.

Tynnwyd sylw at ddwy eitem newydd sydd wedi ei hychwanegu yn y Cynllun - Gwaith y Cynllun Newid Hinsawdd a'r Gwasanaeth Tai ac Eiddo. Mynegwyd fod y meysydd hyn yn cyfarch cyfrifoldebau yn y maes newid hinsawdd ac yn arddangos blaenoriaethu sylweddol mae'r Cyngor yn ei wneud yn y Maes Tai.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Croesawyd yr ychwanegiad o adran Tai ac Eiddo a phwysleisiwyd fod y maes yn un heriol gan fod nifer uchel o dai'r sir yn dai haf. Ategwyd fod

angen ychwanegu cymal i'r adran yn nodi eu blaenoriaethau am y flwyddyn sydd i ddod o ran y broblem sy'n cael ei greu o ran cyflenwad yn sgil y nifer o dai haf yn y sir.

- Mynegwyd balchder fod newid hinsawdd i'w gweld yn y Cynllun ac amlygwyd yr heriau sydd gan Ymgynghoriaeth Gwynedd i amddiffyn cymunedau. Pwysleisiwyd fod yr Adran Priffyrdd yn ogystal yn uchafu ailgylchu, lleihau ysbwriel yn mynd i dirlenwi a drwy gynlluniau yn ymgeisio lleihau ar wastraff yn cael ei greu. Ychwanegwyd fod y cyfarfod Grŵp Newid Hinsawdd yn cyffwrdd pob adran ac yn edrych ar ffyrdd i symud ymlaen.
- Trafodwyd gwybodaeth yr Adran Addysg yn yr adroddiad gan nodi os yn edrych arno fel dinesydd nad yw'r wybodaeth yn sôn llawer am waith yr ysgolion eu hunain gan gychwyn gyda'r gwasanaeth gwella ysgolion. Pwysleisiwyd fod angen addasu cynllun yr Adran Addysg i sicrhau eglurdeb.
- Tynnwyd sylw ar Flaenoriaeth 8 - Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu gan holi os yw'r gwaith hwn yn waith dydd i ddydd. Mynegwyd fod cefnogi busnesau yn waith dydd i ddydd ond ei fod wedi ei uchafu oherwydd bod y dyfodol yn ansicr o ganlyniad i Brexit.
- Pwysleisiwyd fod yr adroddiad yn rhoi darlun clir o waith y Cyngor ac yn amlygu cyfeiriad clir.
- Amlygwyd fod y ddogfen yn y pendraw yn cael ei greu ar gyfer y trigolion a thra ei fod yn amlygu'n glir beth yr ydym yn ei wneud i wasanaethu trigolion Gwynedd, nid yw'n amlygu'n glir drwyddo pa mor dda yr ydym yn cyflawni hynny gan fod hynny yn ymddangos yn ein Adroddiad ar Berfformiad. Mynegwyd hefyd bod angen edrych ar eiriad y ddogfen yn y dyfodol i sicrhau Cymraeg clir. Ychwanegwyd fod gobaith y bydd modd cyfuno Cynllun y Cyngor a'r Adroddiad Perfformiad y flwyddyn nesaf fel bod modd sicrhau fod gennym gynllun sy'n nodi beth yr ydym yn ei wneud ar gyfer trigolion Gwynedd a pha mor dda yr ydym yn ei wneud – sef y materion sydd am fod o ddiddordeb i drigolion.
- Croesawyd plethiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y ddogfen
- Diolchwyd i staff y Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor am eu gwaith i greu Cynllun y Cyngor,

## 8. CYLLIDEB 2020/21

Cyflwynwyd gan Cyng. Ioan Thomas

### PENDERFYNIAD

Penderfynwyd i:

a) Argymhell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2020) y dylid:

1. Sefydlu cyllideb o £261,837,750 ar gyfer 2020/21 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £187,579,040 a £74,258,710 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 3.9%.

2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £44,247,260 yn 2020/21 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

b) Cymeradwyo symud ymlaen i weithredu'r rhestr cynlluniau arbedion sy'n Atodiad 3, er mwyn sefydlu'r gyllideb argymhellir i'r Cyngor llawn.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y bydd gyllideb yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn yn dechrau mis Mawrth. Esboniwyd fod y setliad drafft Gwynedd yn un o'r rhai uchaf yng Nghymru ac yn well na' beth oedd wedi ei rhagweld. Er hyn, mynegwyd, nid yw'r setliad drafft yn ddigonol i gyfarch chwyddiant a galw ychwanegol ar wasanaethau. Nodwyd y bydd y setliad yn llawn yn cael ei gyhoeddi gan y Llywodraeth ar 25 Chwefror.

Trafodwyd y gwariant refeniw gan dynnu sylw at Derfynu Grantiau Penodol gan nodi fod y Llywodraeth yn ariannu cynlluniau drwy grantiau ac yna yn nodi na fydd y grantiau yn parhau'r flwyddyn ganlynol ac nid yw'r arian yn trosglwyddo i'r setliad chwaith. O ganlyniad nodwyd fod angen i'r Cyngor ddarparu'r arian. Tynnwyd sylw at y bidiau oedd i'w gweld o dan y pennawd Pwysau ar Wasanaethau gan nodi diolch i'r Prif Weithredwr am ei waith yn mynd drwy'r holl fidiau. Mynegwyd fod y gyllideb yn nodi y bydd addasiadau cytundebau torfol i staff yn cael ei ddiddymu eleni yn gyfan gwbl. Nodwyd fod y Gronfa Bensiwn wedi derbyn dychweliadau gwell na'r disgwyl dros y blynyddoedd diwethaf ac o ganlyniad ni fydd angen i'r Cyngor ychwanegu cymaint mewn i'r gronfa'r flwyddyn nesaf.

Esboniwyd fod cynlluniau arbedion wedi eu trafod yn Pwyllgorau cCaffu dros y misoedd diwethaf a phwysleisiwyd fod nifer ohonynt yn gynhennus. Mynegwyd yn dilyn y trafodaethau hyn fod y nifer o gynlluniau arbedion wedi lleihau. Tynnwyd sylw at y tabl a oedd yn nodi sefydlu'r gyllideb a oedd yn amlygu anghenion gwario'r Cyngor a bod y bwlch ariannol yn cael ei gyfarch drwy godi'r dreth Cyngor 3.9%. Ychwanegwyd gyda'r dyfodol mor aneglur ar hyn o bryd nad oedd angen edrych ymhellach nac eleni ac argymhellwyd i'r adroddiad gael ei thrafod yn y Cyngor Llawn.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid fod cynlluniau i falensau wrth gefn gael eu defnyddio er mwyn rheoli risg pe bai'r setliad is nag yr un sydd wedi ei gyhoeddi. Mynegwyd na fydd angen ei defnyddio'r balansau eleni. Pwysleisiwyd fod y dyfodol a llawer o ansicrwydd ac yr angen am gyllideb gan y Canghellor. Mynegwyd y bydd yr adran yn dod yn ôl i'r Cabinet ym mis Mai neu Mehefin er mwyn trafod cyllideb am 2021/22 a bydd modd defnyddio'r balansau wrth gefn os bydd angen. Er hyn, mynegodd, fod y gyllideb yn gytbwys a bod yr arbedion sydd wedi eu cynnig yn rhai fydd a lleiaf o ardrawiad a'r trigolion.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod y Cyngor wedi bod yn gwarchod yr Adran Addysg dros y blynyddoedd diwethaf gan nodi fod hyn yn parhau ar gyfer eleni yn ogystal.
- Mynegwyd fod y setliad yn well na beth oedd wedi ei ragweld ond pwysleisiwyd ei fod yn well ac nid yn setliad da. Ychwanegwyd fod

arbedion yn parhau i gael ei gwneud ac amlygwyd dros deg mlynedd diwethaf fod y Cyngor wedi gwneud arbedion o £68miliwn. Ymhelaethwyd fod Aelodau Cabinet yn awyddus i fod mewn sefyllfa lle gellir ystyried sut i fuddsoddi mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd ac nid yn edrych ar arbedion yn flynyddol.

- Esboniwyd fod y Cyngor a rheolaeth ariannol dda a thra bod rhai awdurdodau efallai yn agosach at y dibyn yn ariannol, yn groes i'r hyn a awgrymwyd yn y Guardian yn ddiweddar nid dyna yw sefyllfa'r Cyngor. Ychwanegwyd fod y Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud ymchwiliad ar hyn o bryd ar ba mor gynaliadwy yw Llywodraeth Leol yn ariannol.
- Diolchwyd i'r adran am y seminarau ar gyfer aelodau. Ymhelaethwyd ar fid sydd gan yr adran Briffyrdd ar gyfer Mannau Gwefru. Nodwyd fod y cyfnod cyn diwedd y flwyddyn ariannol yn gyfnod ble mae modd ymgeisio am lawer o grantiau gan y Llywodraeth ond fod gan y rhain amserlen dynn iawn. Pwysleisiwyd nad yw'n rhoi cyfle i adrannau i gynllunio eu gwaith yn hir dymor.
- Tynnwyd sylw at y bid ar gyfer pont Bodfael gan nodi fod y bid ar gyfer adeiladau pont newydd ac y bydd hyn yn gwella'r ddarpariaeth i bobl Gwynedd.

## 9. DEMENTIA GO

Cyflwynwyd gan Cyng. Dafydd Meurig

### PENDERFYNIAD

Penderfynwyd cyfrannu £200,000 o'r Gronfa Drawsffurfio i ariannu 2 swydd llawn amser (Ym Mhwllheli a Porthmadog) a dwy swydd 7 awr yr wythnos (Yn Nhywyn a Chaernarfon) i barhau i gynnal Cynllun Gwasanaeth Cefnogi Dementia Go yn y Gymuned hyd Mawrth 2022.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod cynnydd yn y galw am gefnogaeth i rai sy'n dioddef a dementia. Mynegwyd fod yr arian hwn ar gyfer cyfnod dros dro o ddwy flynedd er mwyn ariannu cynllun Dementia Go. Pwysleisiwyd yn dilyn y ddwy flynedd y gobeithir y bydd y gwaith yma yn dod yn waith pob dydd yr adran ond er mwyn sicrhau hyn fod angen gwneud gwaith ymchwil a chasglu tystiolaeth i fesur effaith y Cynllun.

Ychwanegodd Rheolwr Rhaglen Dementia Go fod y cynllun yn un sydd yn cynnal gweithgareddau ar draws Gwynedd gydag oddeutu 110 o bobl yn rhan o'r gweithgareddau yn wythnosol. Amlygwyd fod bod yn actif yn amlwg yn rhan ganolog o'r gwaith i sicrhau balans a chryfder ond fod cefnogaeth hefyd yn rhan allweddol. Mynegwyd fod y gweithgareddau yn gyfle i bobl ddod at ei gilydd mewn lleoliad cyfforddus yn eu cymuned.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Ategwyd balchder o weld y cynllun yn gweithio i gael adroddiad gan y



Gwasanaeth Dadansoddeg ac Ymchwil er mwyn gwerthusiad llawn. Ychwanegwyd fod budd mawr o'r cynllun a bod effaith amlwg i ofalwyr ac unigolion.

- Pwysleisiwyd fod cefnogaeth i'r cynllun a bod aelodau yn hynod ffyddiog y bydd tystiolaeth gadarn yn amlygu ei effaith. Tynnwyd sylw at y meysydd fydd yn gweld effaith yn y dyfodol a oedd yn cynnwys y Maes lechyd ynghyd â gwasanaethau gofal. Holwyd os yw'r Bwrdd lechyd yn barod i gyfrannu, nodwyd eu bod yn gefnogol o'r cynllun. Ychwanegwyd drwy gasglu tystiolaeth y bydd modd pwysleisio'r buddiannau i'r Maes lechyd.

## **10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Cyflwynwyd gan Cyng. Dyfrig Siencyn

### **PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 ac 16 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Gofynnwyd i gadw'r eitem yn eithriedig o dan yr adran isod:

14.10.2 Gwybodaeth Eithriedig – Disgresiwn i Wahardd y Cyhoedd

(a) Ceir gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y busnes sydd i'w drafod, neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei ddatgelu.

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn â materion ariannol cyrff eraill a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cyngor. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau yma mae'r Swyddog Monitro yn fodlon fod y mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

## **11. CYMDEITHAS DAI PWYLEG**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dafydd Meurig

### **PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd i:

1. Gefnogi'r bwriad i ddatblygu cynllun busnes manwl a fyddai'n cynnig opsiynau ar gyfer cynnal y gwasanaethau gofal presennol ar y safle ac

ystyried a yw y cyfleusterau ar y safle yn hyfyw ar gyfer y tymor byr a tymor hwy.

2. Yn amodol ar dderbyn achos busnes hyfyw, cynnig cefnogaeth ariannol er mwyn diogelu'r ddarpariaeth gofal a nyrsio ar y safle, tra'n datblygu cyfleustra / adeilad newydd yn amodol ar sicrhau cyfraniad teg gan y Bwrdd Iechyd.
3. Cymeradwyo cais Clwyd Alyn i weithredu yng Ngwynedd fel Cymdeithasol Dai, fel gall y safle neu elfennau o safle Penrhos drosglwyddo i Gymdeithas Tai Clwyd Alyn.
4. Cefnogi'r egwyddor o fenthyca'n ddarbodus, yn amodol ar gael achos busnes manwl boddhaol.

## **TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.20 y.h.

## **CADEIRYDD**

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>10 Mawrth 2020</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cyngorydd Gareth Thomas</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Roland Evans</b>
<b>Rhif Ffôn Cyswllt:</b>	<b>01286 679 450</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Cynllun Buddsoddi i Arbed Neuadd Dwyfor, Pwllheli</b>

### 1. Y Penderfyniad a geisir:

#### 1.1. Gofynnir i'r Cabinet:

- Gefnogi'r egwyddor o ddatblygu prosiect cyfalaf buddsoddi i arbed gwerth hyd at uchafswm o £779,314 yn Neuadd Dwyfor er mwyn gwella'r ddarpariaeth a'r cyfleusterau, gwella'r cyfleon i godi incwm a sicrhau diogelwch defnyddwyr;
- Cydnabod y risg o golled incwm o ganlyniad i gau'r Neuadd yn ystod y gwaith adeiladu os bwrir ymlaen;
- Cefnogi dyrannu cyfraniad un-tro o gyllideb Trawsnewid y Cyngor ar gyfer y buddsoddiad - sef hyd at **£570,000 (cyfalaf)**;
- Cefnogi ail-broffilio arbedion fel a gytunwyd yn wreiddiol i'r proffil a amlinellir yn nhabl 8.1;
- Cefnogi cyflwyno ceisiadau i gyrff allanol i geisio lleihau cyfraniad y Cyngor ac uchafu gwerth buddsoddiad y Cyngor;
- Cefnogi adnabod a chydweithio gyda partneriaethau a sefydliadau lleol all gefnogi'r Neuadd i gyrraedd y targed arbediad llawn o £100,000 yn y tymor canolig yn dilyn y buddsoddiad - a hynny trwy osod her arnynt leihau'r bwlch ariannol a chynorthwyo'r Cyngor i wneud arbediad parhaol o £100,000 yn y gyllideb erbyn 2025.

### 2. Y rheswm dros yr angen am benderfyniad:

- 2.1.** Yn dilyn penderfyniad y Cyngor ar arbedion 2019 – 2022 rhoddwyd targed o £100,000 o arbediad yn erbyn Gwasanaeth Celfyddydau Perfformio Neuadd Dwyfor. Roedd y targed yma i'w wireddu trwy gynllun Buddsoddi i Arbed fyddai'n gwella'r Neuadd a'r cyfleon codi incwm yno.
- 2.2.** Mae cynlluniau wedi eu datblygu, costau buddsoddi wedi eu hamcangyfrif a cheisiadau grant wedi eu gwneud i Lywodraeth Cymru gwerth £120,000.
- 2.3.** Gofynnir i'r Cabinet roi penderfyniad ar y cynlluniau sydd wedi eu datblygu a'r adnoddau cyllidol allai fod ar gael i fuddsoddi gan y Cyngor.
- 2.4.** Mae angen hefyd amlygu bod yr Adran yn credu bod y targed arbedion yn mynd i fod yn eithriadol o heriol i'w cyrraedd ac mae risg mai dim ond £50,000 ellir ei wireddu yn y ddwy flynedd gyntaf. Y tu hwnt i hynny bydd angen adolygu opsiynau a phartneriaethau yn lleol er mwyn cyrraedd y targed blynyddol o £100,000.

### **3. Cefndir**

- 3.1.** Mae Neuadd Dwyfor yn cartrefu Theatr, Sinema a Llyfrgell ym Mhwillheli a ni welwyd buddsoddiad sylweddol i'r adeilad na'i adnoddau ers 1996. Bellach mae wedi cyrraedd croesffordd o ran ei dyfodol. Mae Adroddiad Cyflwr wedi'i gynnal a nid oes unrhyw faterion o bryder wedi'u hadnabod ac mae'r adeilad mewn cyflwr da ar y cyfan.
- 3.2.** Mae ei dyfodol wedi ei thrafod lawer gwaith yn y gorffennol gydag ymgais i drosglwyddo'r Neuadd yn ystod 2013-14 yn methu a chael ei wireddu – yn bennaf oherwydd y costau uchel o wneud hynny. Amlygwyd y Neuadd hefyd fel opsiwn i'w chau yn dilyn Her Gwynedd, ond ni gefnogwyd hynny ar y pryd a derbyniwyd deiseb gyda dros 7,000 o enwau arni. Yn hytrach, penderfynodd y Cyngor na ddylid torri'r gyllideb ond fod hynny'n amodol ar drafod opsiynau gydag unrhyw fudiad lleol gyda golwg ar iddynt gymryd cyfrifoldeb amdano gyda'r nod o leihau'r costau sy'n syrthio ar drethdalwyr Gwynedd, ac y dylid cynnwys unrhyw arbedion yn yr arbedion effeithlonrwydd.
- 3.3.** Yn dilyn hyn, wrth edrych ar gyfleon adrodd o 2019/20 ymlaen bu i'r Adran adrodd nad oeddent wedi llwyddo i gael corff lleol i'w gymryd drosodd ond bod yna gynllun arall fyddai'n cyflwyno arbedion o £100,000 fyddai angen buddsoddiad er mwyn ei gyflawni. Yn ei gyfarfod yn Mawrth 2019 fe gytunodd y Cyngor i gynnwys y cynllun yma fel un o'r cynlluniau arbedion y dylid eu mabwysiadu er mwyn cyfarch ein bwlch ariannol.
- 3.4.** Darperir rhaglen amrywiol o wasanaethau a gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn y Neuadd ac mae ganddi rôl bwysig yn y gymuned ac yn economi'r ardal. Mae cefnogaeth frwd o'r lleoliad ymysg trigolion lleol a thrigolion Pen Llyn. Mae hefyd yn adnodd o fewn tref Pwllheli sy'n atyniad i nifer uchel o ymwelwyr yn ystod y tymor gwyliau.
- 3.5.** Nid oes cyfleusterau tebyg i'r Neuadd yn Nwyfor na Gogledd Meirionnydd sy'n golygu y byddai angen teithio i Gaernarfon, Bangor neu Landudno pe na byddai'n bodoli ac yn 2018-2019 fe ymwelwyd a'r Neuadd gan dros 52,000 o bobl.
- 3.6.** Cost darparu elfennau Celfyddydau Perfformio'r Neuadd i Gyngor Gwynedd yw £161,764. Erbyn 2022 disgwylir i'r gost o ddarparu ostwng i £61,764.
- 3.7.** Hon yw'r unig ddarpariaeth theatr / sinema a redir bellach gan Gyngor Gwynedd yn dilyn trosglwyddo darpariaeth Neuadd Buddug, Y Bala i Ysgol Godre'r Berwyn ac felly hon ydi'r unig ddarpariaeth o'i bath i gael ei chyllido gan holl drethdalwyr y Sir. Mae rhedeg y ddwy Neuadd yma wedi bod yn fater hanesyddol a drosglwyddwyd o Gynghorau Meirionnydd a Dwyfor yn dilyn Adrefnu 1996.
- 3.8.** Wedi dweud hynny, mae gan y Cyngor gyllideb o £95,820 sy'n cynnig Grantiau Strategol i'r Celfyddydau er mwyn cefnogi gweithgareddau celfyddydol ar draws y Sir e.e. Galeri Caernarfon, Pontio, Neuadd Ogwen, Canolfan Gerdd William Mathias, Fran Wen, Theatr Bara Caws, Llenyddiaeth Cymru, Dawns i Bawb, Opera Cymru, Plas Glyn y Weddw, Theatr y Ddraig a darperir cefnogaeth i Gyfeillion Theatr Derek Williams, Y Bala.
- 3.9.** Mae'r Cyngor hefyd yn comisiynu gweithgareddau a sesiynau celfyddydol yn ogystal â grantiau bach ar draws y Sir trwy Celfyddydau Cymunedol Gwynedd sy'n hyrwyddo'r agendau iechyd a lles, addysg, unigrwydd, bwrlwm cymunedol, yr economi a bylchau mewn darpariaeth. Darperir sesiynau celfyddydol hefyd o fewn ein llyfrgelloedd.

### **4. Adolygiad Busnes Neuadd Dwyfor**

- 4.1.** Comisiynwyd Adolygiad Busnes o'r Neuadd yn ystod 2017-18 gyda nawdd gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Fe amlygodd yr ymgynghorydd feysydd i'w datblygu er mwyn gwella perfformiad y Neuadd, ei ymgysylltiad gyda'r gymuned leol ac er mwyn sicrhau cynaliadwyedd i'r dyfodol.

- 4.2.** Trwy gynnal arolygon, fforymau a grwpiau ffocws, rydym yn gweld bod nifer yn teimlo bod ansawdd y ddarpariaeth yn uchel, ond mae nifer o bwytiau negyddol yn cael eu gwneud, yn enwedig o ran seddau anghyfforddus, cyntedd oer, diffyg cyfleusterau bwyd a diod, diffyg gweithgareddau ymgysylltu, ffilmiau newydd yn cael eu dangos yn hwyrach, diffyg arwyddo yn y dref a'r angen i fuddsoddi mewn technoleg well.
- 4.3.** Wedi dweud hynny, mae nifer o bwytiau cadarnhaol hefyd yn cael eu gwneud e.e. effaith gadarnhaol y Neuadd ar fusnesau lleol, prisiau tocynnau, y rhaglen gelfyddydol Gymraeg a phwysigrwydd y Neuadd yng nghyd-destun is-adeiledd celfyddydol Gogledd Orllewin Cymru.
- 4.4.** Mae'r Adolygiad yn archwilio opsiynau ar gyfer y dyfodol gydag amcan y byddai'r opsiwn buddsoddi i arbed yn medru creu arbedion o rhwng £64,000 a £100,000 dros gyfnod o 3 mlynedd. Mae'r Adran yn wyladwrus ac yn amheus o'r ffigwr o £100,000 o arbedion oherwydd y ddibyniaeth ar wirfoddolwyr, grantiau allanol a chan nad oes sicrwydd o wireddu'r incwm a nodir o bob gwelliant. Rydym wedi craffu'r opsiynau ymhellach a gellir crynhoi'r costau a'r arbedion posib i'r Cyngor fel a ganlyn wrth ystyried costau rhedeg y Gwasanaeth Celfyddydau Perfformio'n unig. Mae manylion mwy manwl i'w gweld yn Atodiad A:

<b>Cau</b>	<b>£</b>
Costau Un tro	170,000
	+ ail leoli'r llyfrgell
Costau rhedeg presennol	161,760
Arbediad blynyddol yn sgil cau	(141,760)
Costau rhedeg hyd nes y byddem yn gwaredu'r adeilad	20,000
<b>Buddosddi yn yr adeilad</b>	
Costau buddsoddi	569,500
Costau Rhedeg Presennol	161,760
Arbediad blynyddol "sicr" o fuddsoddi	(50,000)
Costau rhedeg gweddilliol	111,760
Arbedion pellach posib o wireddu rhagdybiaethau'r Ymgynghorwyr yn llawn	(50,000)
Costau rhedeg gweddilliol	61,760

Awgryma'r Ymgynghorydd y gellid edrych ar allanoli'r Neuadd yn yr hir dymor i geisio lleihau'r gost rhedeg gweddilliol ymhellach – ond y byddai'n rhaid buddsoddi yn y cyfleuster cyn ymchwilio hyn ymhellach.

## **5. Ymateb: Gweledigaeth ac Amcanion newydd i fuddsoddi a gwella'r Neuadd**

- 5.1.** Hyd yn ddiweddar mae'r ddau wasanaeth sy'n gweithredu o'r Neuadd wedi gweithredu ar wahân gyda chyd-weithio'n digwydd yn achlysurol ac ad-hoc. Newidiwyd rheolaeth y ddau dîm staff yn y Neuadd fel eu bod yn adrodd i un rheolwr ar 1 Rhagfyr 2019.
- 5.2.** Bellach mae Tîm Staff, Tîm Defnyddwyr a Bwrdd Prosiect wedi eu sefydlu i symud ein gweledigaeth a'n hamcanion ymlaen.
- 5.3.** Ymwelwyd â Story House Caer ym mis Hydref 2019 ac mae'r model gweithredu yno wedi rhoi syniadau ac ysbrydoliaeth i ni symud ymlaen.

- 5.4. Mae Story House yn ganolfan ddiwylliannol newydd yng Nghaer. Roedd adfywio canol dinas Caer wrth graidd y prosiect gwerth £37m sy'n cynnig y llyfrgell gyda'r oriau agor hiraf ym Mhrydain a rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau diwylliannol.
- 5.5. Ein gwledigaeth ar gyfer prosiect trawsnewid Neuadd Dwyfor yw:  
***Creu gofod a gwasanaeth unedig sy'n ysbrydoli, cefnogi a gwasanaethu pobl Gwynedd trwy brofiadau diwylliannol, cymdeithasol ac addysgol.***
- 5.6. Mae amcanion ein prosiect i'w gweld yn Atodiad B.
- 5.7. Mae Neuadd Dwyfor yn cyd-fynd â nifer o strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac yn gwneud cyfraniad pwysig i agendau ieuchyd, lles, iaith, diwylliant, cydraddoldeb ac adfywio.

## 6. Buddsoddi i Arbed – yr angen

- 6.1. Wrth ystyried yr angen i fuddsoddi er mwyn arbed, mae'r Gwasanaeth wedi ystyried yr opsiynau a gynigir gan yr Ymgynghorydd, anghenion y gwasanaeth a phobl Gwynedd ac yn bwysicach oll - y gyllideb realistig allai fod ar gael.
- 6.2. O ystyried yr hinsawdd ariannol, rydym wedi canolbwyntio ar wneud gwelliannau elfennol ond hanfodol allai arwain at wireddu arbedion i'r Cyngor, ond hefyd greu sefyllfa mwy ffafriol allai hwyluso trosglwyddo'r adeilad i fudiad neu i'r gymuned yn y dyfodol.
- 6.3. Comisiynwyd Ymgynghoriaeth Gwynedd i weithio gyda ni ar gynlluniau i wireddu prif argymhellion yr adolygiad busnes. Mae cyfanswm y cost cyfalaf yma yn dod i **£779,314** ac mae manylion pellach ar gael ar gais.

## 7. CYLLIDO

Corff	Cyllid	Statws
Llywodraeth Cymru	£50,000 – llyfrgell £70,000 – llyfrgell a thoiled hygyrch	Wedi ei gadarnhau Cais wedi' gyflwyno
Derbyniadau Cyfalaf yr Adran Economi a Chymuned	£89,867	Wedi ei gadarnhau
<b>Bwlch i'w ariannu gan Gyngor Gwynedd</b>	<b>£569,447</b>	<b>Cais i'r Gronfa Trawsffurfio Cyngor Gwynedd</b>

- 8.1 Yn ogystal â'r symiau hyn, dylid nodi y bydd colled incwm i'r Adran tra bydd y Neuadd ar gau – ar sail patrymau'r gorffennol, amcangyfrifir bod hyn tua £25,000.
- 8.2 Er bod trafodaethau wedi bod gyda chyllidwyr posib eraill, nid oes grantiau priodol niferus ar gael ar hyn o bryd. Wedi dweud hynny, bydd trafodaethau'n parhau gyda: Cyngor Celfyddydau Cymru, Croeso Cymru a Chronfeydd y Loteri Genedlaethol i geisio sicrhau arian cyfatebol ychwanegol.

## 8. Buddsoddi i arbed – yr incwm posib a'r arbediad posib i Gyngor Gwynedd

- 8.1. Rhagwelir y proffil arbedion canlynol yn dilyn buddsoddiad yn y Neuadd:

	2021	2022	2023	2024	2025	CYFANSWM PARHAOL
Proffil arbedion gwreiddiol	£50,000	£50,000	£0	£0	£0	<b>£100,000</b>
Proffil diwygiedig er cymeradwyaeth y Cabinet	£25,000	£25,000	£20,000	£15,000	£15,000	<b>£100,000</b>

**8.2.** Yn dilyn craffu'r gwaith yn yr adolygiad busnes, mae'r Adran Economi a Chymuned yn hyderus bod modd cyrraedd ffigwr incwm o £50,000 trwy wireddu'r newidiadau a datblygu model gweithredu newydd yn y Neuadd. Gwireddir hyn drwy:

Wella'r cynnig bwyd a diod	Cynyddu defnyddwyr 5%
Adolygu'r seddau a chael seddau newydd	Datblygu rhaglen cymryd rhan
Adolygu'r rhaglen	Gynyddu marchnata digido
Incwm ystafelloedd cyfarfod / gweithgaredd	Gwella'r cynnig i 'Ffrindiau Neuadd Dwyfor'

**8.3.** O weithio gyda'r Tîm Defnyddwyr a sefydlu Grŵp Ffrindiau, teimlir y gellir rhoi her ar gymunedau a mudiadau lleol i gynorthwyo'r Cyngor i gyrraedd y targed arbedion o £100,000 erbyn 2025. Pe byddai'r her yma yn methu gyda'r gymuned leol, yna mae risg y byddai costau rhedeg yr adnodd yn parhau i fod dros £111,000 yn flynyddol i drethdalwyr Gwynedd.

## 9. Amserlen

**9.1.** O dderbyn cymeradwyaeth i symud ymlaen gyda'r prosiect, bwriedir gweithredu i amserlen adnewyddu o tua 5 mis. Golyga hyn y bydd y Neuadd wedi ei gweddnewid cyn ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â Dwyfor yn 2021.

Maw - Ebrill 2020	Caffael Adeiladwr
Ebrill 2020	Penodi Adeiladwr a chytuno amserlen waith
Mai – Hydref 2020	Gwaith adnewyddu ac atgyweirio – gall effeithio ar y rhaglen ac oriau agor y Neuadd. Gall hefyd fod ar gau am gyfnod.
Mai - Hydref 2020	Gwaith ymgysylltu efo'r gymuned a rhanddeiliaid allweddol
Yr Hydref 2020	Lansio'r Neuadd ar ei newydd wedd

## 10. Y Dyfodol

**10.1.** O ganlyniad i fuddsoddiad y Cyngor, ein gweledigaeth i'r dyfodol fyddai trosglwyddo'r neuadd i gorff perthnasol. Wedi dweud hynny, ar hyn o bryd, nid oes corff perthnasol na phriodol yn bodoli ac yn y gorffennol ni lwyddwyd i wneud hynny.

**10.2.** Yn y tymor byr, teimlir mai'r opsiwn gorau ar gyfer y neuadd yw trawsnewid y trefniadau rheolaethol a gweithredu er mwyn ymateb i'n gweledigaeth a'n hamcanion buddsoddi. Trwy wneud hyn, rydym yn hyderus bod modd ymateb i'r her o redeg y neuadd ar lai o gost i drethdalwyr Gwynedd, ond hefyd greu gwasanaeth llawer iawn gwell i bobl Gwynedd.

**10.3.** Mae gwaith yn mynd rhagddi i ddatblygu Grŵp Defnyddwyr a Chyfeillion i gefnogi'r Neuadd ac mae'n bosib y gallai'r grwpiau yma - neu esblygiad ohonynt, gyda chefnogaeth, ddatblygu i fod yn gorff y gellid trosglwyddo iddo yn y tymor hir neu yn gorff allai gefnogi'r Cyngor gydag ymgyrchoedd nawdd a chodi arian yn ogystal â datblygu cynllun gwirfoddolwyr.

## 11. Casgliad

**11.1.** O adolygu'r opsiynau, byddai peidio â buddsoddi i arbed yn creu sefyllfa lle byddai Neuadd Dwyfor yn adnodd a fyddai'n creu mwy o golled flynyddol i'r Cyngor ac yn gosod hyfywdra a dyfodol Neuadd Dwyfor yn y fantol.

**11.2.** Gan y byddai cau Neuadd Dwyfor **hefyd** yn golygu buddsoddiad unwaith ac am byth i fedru ei wireddu, y gwahaniaeth buddsoddiad unwaith ac am byth rhwng y ddau opsiwn (cau neu wella'r cyfleusterau) yw £399,500. Byddai cau yn arwain at fwy o arbedion wrth gwrs, ond yn golygu colli adnodd bwysig i'r ardal. O fedru gwireddu'r potensial ar gyfer yr holl arbedion byddai'r ddarpariaeth yn parhau i gostio £61,670 i holl drethdalwyr y sir.

- 11.3.** Byddai cau yn effeithio'n andwyol ar dref Pwllheli a'r ardal o safbwynt yr economi ac adfywio, yn ogystal ag o safbwynt celfyddydol, diwylliannol a ieithyddol. Byddai'n tynnu adnodd bwysig o'r gymuned na fyddai'n hawdd ei ail-sefydlu na'i drosglwyddo i drydedd parti.
- 11.4.** Byddai buddsoddi i arbed yn golygu buddsoddiad unwaith ac am byth a fyddai'n sicrhau fod Neuadd Dwyfor gyda siawns realistig i gynyddu incwm.
- 11.5.** Er y teimlir bod y targed £100,000 a roddwyd ymlaen fel arbediad potensial i'r Cyngor yn uchelgeisiol, credir bod modd i Neuadd Dwyfor gynyddu ar ei lefel incwm presennol, gan ddechrau dangos cynnydd ar lefelau'r incwm o 2021-22 ymlaen hyd at £50,000 yn flynyddol.
- 11.6.** Hyderir trwy ddatblygu perchnogaeth leol trwy Grwp Ffrindiau a Grŵp Prosiect penodol y bydd modd datblygu strwythurau cefnogol i leihau'r bwlch ariannu ar Gyngor Gwynedd yn y tymor canolig a cheisio cyrraedd y targed o £100,000 erbyn 2025.
- 11.7.** Hyd yn oed pe byddai'r Neuadd yn llwyddo i gyrraedd y nod o wireddu'r arbediad uchelgeisiol o £100,000, tra byddai modd anelu i'r hir dymor i geisio lleihau'r costau rhedeg gweddilliol ymhellach drwy edrych ar allanoli, yn y tymor canolig, o dderbyn y cynnig yma i fuddsoddi, byddai'n rhaid i'r Cyngor dderbyn trwy wneud hynny y byddai'n anorfod ei fod yn talu £61,760 am redeg y cyfleustra hyd nes y byddai unrhyw gynllun amgen yn dod i'r amlwg.

## **12. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

### **Barn Y Prif Swyddog Cyllid:**

*"Gwelir o'r adroddiad fod cais yma am fuddsoddiad o £570k. Gallaf gadarnhau fod adnoddau digonol yn y Gronfa Trawsnewid i ariannu'r buddsoddiad yma, ond wrth gwrs nid yw hwn yn ffynhonnell ddiderfyn o arian a fel gyda phob cais arall am arian o'r gronfa bydd angen i'r Cabinet bwysu a mesur os yw'r defnydd hwn o adnoddau yn bodloni ei flaenoriaethau.*

*Pe byddai'r Cabinet yn cytuno i fwrw ymlaen â'r cynllun mae posibilrwydd y gallai'r Adran ddarganfod yr holl arbedion disgwylidig erbyn 2025 ar sail y proffil addasedig, a rwyf yn derbyn fod gwireddu hyn yn hynod annhebygol heb fuddsoddiad cyfalaf. Mae ail-broffilio, o'i natur, yn golygu y gallai'r Cyngor orfod pontio'r gwahaniaeth rhwng y proffil gwreiddiol a'r un addasedig.*

*Yn ogystal â'r buddsoddiad cyfalaf y cyfeirir ato yn yr adroddiad, byddai'r sybsidi a roddir i'r celfyddydau perfformio yn Neuadd Dwyfor yn parhau dros £60k y flwyddyn (ar brisiau 2019/20) hyd yn oed petai'r holl arbedion yn cael eu gwireddu. Bydd hyn yn parhau'n sylweddol uwch na'r grantiau neu gymhorthdal a roddir i gyrff diwylliannol tebyg eraill sy'n gweithredu o fewn Gwynedd. Felly, wrth ddod i gasgliad ar y penderfyniad a geisir bydd angen i'r Cabinet ystyried os yw am i hyn barhau.*

### **Barn y Swyddog Monitro:**

*"Mae'r adroddiad yn nodi'r rhesymeg dros y buddsoddiad a'r buddion posib sydd yn deillio o hynny yn nhermau gwasanaeth i'r cyhoedd ac arbedion. Yn amlwg, gydag unrhyw fuddsoddiad o'r fath mae risgiau ynghlwm o ran cyflawni'r buddion hyn yn unol a'r rhagamcanion a bydd hyn yn fater i'r Cabinet ystyried wrth asesu'r mater. Fodd bynnag, oherwydd sefyllfa bresennol y Neuadd, mae'r ddadl dros fuddsoddi yn eglur, ac mi all hyn arwain at hwyluso'r weledigaeth o drosglwyddo'r Neuadd i gorff berthnasol yn y dyfodol. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb."*

### **Barn Aelod Lleol:**

Y Cyng. Dylan Bullard: *Rwy'n llwyr gefnogi cynigion yr Adran Economi a Chymuned ynghylch Neuadd Dwyfor. Mae'n lleoliad pwysig sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr yn Llyn ac Eifionydd. Yn anffodus oherwydd ei oedran mae'r adeilad angen rhywfaint o adferiad i'w wneud yn ddefnyddiadwy i bawb. Gofynnaf i'r cabinet gefnogi ac ategu'r holl gynigion hyn hefyd.*

Y Cyng. Hefin Underwood: *Yn cefnogi'r buddsoddiad pwysig yma'n Neuadd Dwyfor 100%.*



**Costau ac Arbedion i Gyngor Gwynedd yn deillio o opsiynau dyfodol Neuadd Dwyfor yn berthnasol i'r Gwasanaeth Celfyddydau Perfformio yn unig**

Opsiwn	Sylwadau	Costau / Arbedion Posib
<u>Cau</u>	<p>Ansicr os y byddai'n arwain at arbedion sylweddol i'r Cyngor na phwy fyddai eisiau prynu'r adeilad yn y dyfodol. Groes i egwyddorion Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru + agenda Adfywio'r Cyngor. Nododd 80% o gynulleidfa Neuadd Dwyfor eu bod yn gwario ar gyfartaledd £5 y pen yn y dref sy'n gyfraniad o dros £100,000 y flwyddyn i Bwllheli.</p> <p>Amddifadu ardal eang o ddarpariaeth gelfyddydol a diwylliannol sy'n ran bwysig o hunaniaeth yr ardal.</p> <p><u>Costau Un-tro:</u>            Angen ad-leoli'r Llyfrgell (un-tro) £60,000            Costau diswyddo staff (un-tro) £25,000            Ad-dalu grantiau (Llywodraeth Cymru + Cyngor Celfyddydau) £85,000  <b>Cyfanswm £170,000</b></p> <p><u>Costau Blynyddol:</u>            Cynnal a Chadw Adeilad Gwag hyd nes y gwaredir (blynyddol) £20,000  <b>Cyfanswm £20,000</b></p> <p><u>Arbedion blynyddol posib hyd nes y gwaredir yr adeilad:</u>            Costau Rhedeg (£61,764) – Costau Blynyddol £20,000) <b>£41,764</b>  <u>Arbedion blynyddol posib o gau a gwaredu:</u> <b>£61,764</b></p>	
<u>Buddsoddi yn yr adeilad</u>	<p>Byddai hyn yn arwain at fuddsoddi i arbed yn y tymor hir gan leihau'r costau rhedeg ar Gyngor Gwynedd. Yn dilyn gwaith cynllunio a rhagbaratoi mae costau buddsoddi i arbed wedi eu hamcangyfrif fel a ganlyn:</p> <p><u>Costau Un-tro Buddsoddi i'r CYNGOR</u>            Gwaith cyfalaf i wella'r adeilad a'r seddau £569,447            Digolledu refeniw incwm tra ar gau £25,000  <b>Cyfanswm 594,447</b></p> <p><u>Costau Blynyddol i'r Cyngor:</u> <b>£61,764</b></p> <p><u>Arbedion blynyddol posib trwy ddatblygu cynulleidfa ac incwm ac o ganlyniad i gydweithio efo mudiadau lleol:</u> <b>£50,000 - £100,000</b></p>	
<u>Allanoli</u>	Oherwydd cyflwr presennol yr adeilad, ni ragwelir opsiynau eang ar gyfer allanoli. Gallai agor trafodaeth efo trydydd parti fod yn opsiwn - ond byddai angen dysgu o brofiad	

	<p>trafodaethau'r gorffennol oedd wedi methu oherwydd costau trosglwyddo staff a gofynion pensiwn (TUPE), yr angen i fuddsoddi yn yr adnodd cyn trosglwyddo, costau gweinyddu a chost unrhyw gyfraniad cyllidol gan y Cyngor i drydydd parti.</p> <p><u>Cost un-tro tebygol os yn buddsoddi cyn trosglwyddo</u></p> <p>Gwaith cyfalaf i wella'r adeilad a'r seddau</p> <p>Digolledu refeniw incwm tra ar gau</p> <p><b>Cyfanswm</b></p> <p><u>Costau trosglwyddo i endid arall</u></p> <p>Ansicr beth fyddai'r costau hyn heb adnabod corff i drosglwyddo</p> <p><u>Arbedion blynyddol posib i'r Cyngor os yn trosglwyddo'n llwyddiannus heb grant / gefnogaeth ariannol (*er heriol gwneud hyn.)</u></p>	<p>£569,447</p> <p>£25,000</p> <p><b>£594,447</b></p> <p>?</p> <p><b>£61,764</b></p>
--	---	--

**Gweledigaeth ac Amcanion y prosiect Buddsoddi i Arbed.**

Ein gweledigaeth ar gyfer prosiect trawsnewid Neuadd Dwyfor yw:

***Creu gofod a gwasanaeth unedig sy'n ysbrydoli, cefnogi a gwasanaethu pobl Gwynedd trwy brofiadau diwylliannol, cymdeithasol ac addysgol.***

Ein hamcanion ar gyfer prosiect trawsnewid Neuadd Dwyfor yw:

1. Creu un tîm gyda dealltwriaeth glir o'u rolau a chyfrifoldebau i wasanaethu pobl Gwynedd gan wneud defnydd gwell o adnoddau a chyllidebau'r Cyngor
2. Creu gofod croesawgar a hawdd cael mynediad ato i bawb
3. Creu rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol rhagorol ar y cyd
4. Atgyfnerthu lle Neuadd Dwyfor fel canolfan ddiwylliannol a chymunedol hanfodol i ardal ac economi Pwllheli.
5. Gwella'r ddarpariaeth llyfrgell a chelfyddydol yn Nwyfor gan ddarparu'r oriau agor hiraf i unrhyw lyfrgell yng Ngwynedd
6. Datblygu strwythurau lleol a rhaglen o weithgareddau i ddatblygu cynulleidfa ac ymgysylltu.
7. Datblygu grŵp cyfeillion ar gyfer y Neuadd i gefnogi gweithgareddau a pherchnogaeth yn lleol – allai ddatblygu'n y dyfodol i hwyluso trosglwyddiad.
8. Buddsoddi yn yr adeilad er mwyn ymateb i anghenion pobl Gwynedd a'r weledigaeth newydd er mwyn creu incwm a lleihau'r gost ar drethdalwyr.

# Eitem 7

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	10 Mawrth 2020
<b>Aelod Cabinet:</b>	Y Cyng. Cemlyn Rees Williams
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	Garem Jackson, Pennaeth Addysg
<b>E-bost Cyswllt:</b>	<a href="mailto:GaremJackson@gwynedd.llyw.cymru">GaremJackson@gwynedd.llyw.cymru</a>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	Addysg Ôl-16

#### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Ceisir caniatâd i gynnal trafodaethau gyda rhan-ddeiliaid er mwyn ystyried y ddarpariaeth bresennol ac amlygu'r ystyriaethau allweddol er mwyn cyd-adnabod y cyfeiriad a chyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yn Arfon. Yn dilyn hynny, disgwylir i adroddiad pellach gael ei gyflwyno gerbron y Cabinet er mwyn adrodd yn ôl ar ganlyniad y trafodaethau.

#### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae'r Adran Addysg yn ceisio caniatâd i gynnal trafodaeth gyda rhan-ddeiliaid am y ddarpariaeth ôl-16 bresennol yn Arfon.

Mae tirlun addysg ôl-16 yn newid gyda bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddf newydd yn ystod 2020. Mae'n amserol felly fod yr Awdurdod yn ystyried os yw'r ddarpariaeth bresennol yn effeithiol ar gyfer anghenion pobl ifanc y sir nawr ac i'r dyfodol.

Yng Ngwynedd, mae seiliau ein cyfundrefn addysg ôl-16 yn dyddio'n ôl ddeugain mlynedd. Gan ystyried y newid cenedlaethol arfaethedig, mae cyfle euraidd i Wynedd fod yn arloesol a chreu cyfundrefn addysg ôl-16 addas i bwrpas, sydd yn cyfuno'r galwedigaethol, y technegol a'r academaidd gan sicrhau fod pob dysgwr yn gwireddu ei botensial.

Mi fyddai cynnal trafodaeth ar y ddarpariaeth bresennol yn rhoi cyfle i ran-ddeiliad fynegi eu barn ar y drefn bresennol yng nghyd-destun y weledigaeth, ac ystyried cyfleoedd i:

- gefnogi darparwyr i sicrhau addysg gyfoes, gynaliadwy o'r safon uchaf i ddysgwyr,
- sicrhau cysondeb yn y dewis a'r profiadau dysgu i bobl ifanc,
- baratoi dysgwyr i'r cyfleoedd fydd yn deillio o economi'r dyfodol.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## 3. CYFLWYNIAD

Yn Ionawr 2018, cyflwynwyd adroddiad gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi oedd yn nodi'r bwriad i gynnal asesiad o'r ddarpariaeth bresennol gan nodi'r posibilrwydd y byddai canfyddiadau'r asesiad yn sail i drafodaeth bellach ar lwybr y ddarpariaeth ôl-16 yn y sir i'r dyfodol.

Yn ogystal, cymeradwyodd y Cabinet yn eu cyfarfod ar 12 Mehefin 2018, yr egwyddor o ystyried sefyllfa bresennol ôl-16, gan sicrhau na fyddai'r Awdurdod yn colli'r cyfle i gryfhau'r ddarpariaeth yn Arfon, pe bai achos i wneud hynny. I'r perwyl hwn, mae ffigwr o £18m wedi ei adnabod o Fand B, Rhaglen Ysgolion 21<sup>ain</sup> Ganrif.

Fel rhan o'r gwaith o edrych ar y maes, comisiynwyd cwmni *laith Cyf* i gyflawni gwaith ymchwil ar ran yr Adran, gan gynnal cyfweiliadau gyda phenaethiaid, grwpiau ffocws gyda dysgwyr, a chasglu barn rhieni a dysgwyr drwy gyfrwng holiaduron, er mwyn cyfoethogi a dilysu'r sylfaen dystiolaeth a gasglwyd o ymchwil pen-desg.

Yn dilyn ystyried y dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd fel rhan o'r ymchwil, lluniwyd adroddiad "Trosolwg Addysg Ôl-16" (**Atodiad 1**). Er bod yr ymchwil cyffredinol wedi ei gynnal ar y ddarpariaeth ôl-16 yng Ngwynedd, rhoddir trosolwg manylach o'r ddarpariaeth yn Arfon yn yr adroddiad sydd ynghlwm. O ganlyniad, bydd darpariaeth ôl-16 ardal Y Bala yn derbyn sylw mewn maes gwaith ar wahân.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Yn yr atodiad i'r blaen adroddiad hwn cyflwynir ein gweledigaeth ar gyfer myfyrwyr ôl-16 yng Ngwynedd, sef:

- i. Sicrhau tegwch yn y dewis o gyrсияu a darparu profiadau dysgu hyblyg a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n eu harfogi fel dysgwyr annibynnol â'r wybodaeth a'r sgiliau cywir i symud ymlaen.
- ii. Darparu trosglwyddiad effeithiol i ddarpariaeth addysg ôl-16, gan ddatblygu a chynnal mynediad at ystod eang o lwybrau priodol ar gyfer y dysgwr unigol ac yn sicrhau bod darpariaeth ôl-16 yn esblygu wrth i ofynion y dysgwr a'r economi leol newid i'r dyfodol.

Er mwyn gwireddu hyn, mae gofyn ein bod ni, ein partneriaid a'n rhan-ddeiliaid yn paratoi'r tir gan gydnabod yr hyn rydan ni'n ei wneud yn dda, yr hyn gallwn ni ei wneud yn well, a datblygu cyfundrefn uchelgeisiol ac arloesol i sicrhau'r gorau i'r dysgwyr.

Manylir ymhellach ar y rhesymeg a'r cyfiawnhad dros argymell y penderfyniad yn yr adroddiad ynghlwm. Yn benodol, nodir yn yr adran achos dros newid yr angen i gyfarch newidiadau ym myd addysg, yn ogystal â'r angen i baratoi ar gyfer economi'r dyfodol.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Yn ddibynol ar dderbyn cefnogaeth y Cabinet i'r argymhelliad i gychwyn trafodaethau lleol, yn ystod tymor yr haf 2020 bydd cyfres o weithgorau yn cael eu cynnal gyda chynrychiolaeth o ran-ddeiliaid darpariaeth ôl-16 Arfon, megis llywodraethwyr, penaethiaid, athrawon a dysgwyr. Yn dilyn hynny, bydd cyfle i drigolion Gwynedd gyfrannu at y drafodaeth ar-lein neu mewn sesiynau wyneb yn wyneb. Bydd hyn oll yn sicrhau cyfraniad allweddol rhan-ddeiliad a thrigolion i ddatblygu ac adnabod datrysiadau posib fyddai'n cyd-fynd â'r weledigaeth ar gyfer darpariaeth ôl-16 Arfon.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu cymeradwyo'r argymhelliad, rhagwelir y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r trafodaethau lleol.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg dysgwyr y sir drwy ei weithgareddau a'i brosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyfrif cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddwn yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023". Bwriedir rhoddi ystyriaeth i ofynion y ddeddf llesiant a chynnal asesiad yng nghyd-destun 7 nod llesiant y Ddeddf yn sgil y trafodaethau lleol i ddatblygu a chyd-adnabod datrysiadau posib fyddai'n cyd-fynd â'r weledigaeth ar gyfer darpariaeth ôl-16 Arfon.

### Cydraddoldeb

Mae gan yr Adran Addysg gyfrifoldeb i hyrwyddo cydraddoldeb ynghyd â dyletswyddau cyffredinol er sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor i ystyried effaith unrhyw newid i bolisi neu weithdrefn o'r newydd ar bobl efo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig, sef hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran.

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb cychwynnol wedi ei lunio fel rhan o'r gwaith o ddarlunio trosolwg cyffredol o'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yng Ngwynedd, a bydd yr Asesiad yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd yn sgil y trafodaethau lleol i ddatblygu a chyd-adnabod datrysiadau posib fyddai'n cyd-fynd â'r weledigaeth ar gyfer darpariaeth ôl-16 Arfon. Gweler **Atodiad 2**.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Barn y Swyddogion Statudol

### Y Swyddog Monitro:

*“Mae’r argymhelliad yn caniatáu agor y drws ar drafodaethau gyda’r ystod eang o fudd ddeiliaid a phartneriaid sydd yn gysylltiedig â darpariaeth addysg ôl 16. Mae’r camau a argymhellir yn briodol a chymesur o ystyried hyn. Mae hefyd yn briodol fod canlyniadau’r gwaith yn cael eu hadrodd yn ôl am ystyriaeth y Cabinet ar ei derfyn. Rwy’n fodlon felly ynglŷn â phriodoldeb yr argymhelliad.”*

### Y Swyddog Cyllid Statudol:

*“Rwyf yn croesawu’r bwriad i adolygu’r ddarpariaeth addysg ôl-16 yn Arfon, ac mae trafodaethau cychwynnol gyda rhan-ddeiliad, ac yna gyda’r holl drigolion, yn ffordd briodol o weithredu. Wedi derbyn canlyniadau y trafodaethau bydd adroddiad pellach yn dod gerbron y Cabinet fydd yn ei alluogi i ystyried ac adnabod nodweddion y ddarpariaeth i’r dyfodol. Rwyf felly’n gefnogol i’r penderfyniad a geisir.”*

---

## Atodiadau:

Atodiad 1 - Trosolwg Addysg Ôl-16

Atodiad 2 - Asesiad Effaith Cydraddoldeb

## Papurau Cefndirol:

Adroddiad Iaith Cyf “Asesiad o’r ddarpariaeth addysg ôl-16 bresennol yng Ngwynedd” Ebrill 2019	<a href="http://www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg">www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg</a>
---	--



# Trosolwg ADDYSG ÔL-16



Tud. 24







## **Cyflwyniad**

Gair gan yr Aelod Cabinet dros Addysg

Gair gan y Pennaeth Addysg

Y Weledigaeth

## **Rhan 1: Yr achos dros newid**

Cyfarch newidiadau ym myd addysg

Paratoi ar gyfer economi'r dyfodol

Cyfarch anghenion gweithlu sectorau craidd Gogledd Cymru

## **Rhan 2: Y ddarpariaeth bresennol**

Y darlun cenedlaethol

Sefyllfa Gwynedd

Chweched dosbarth ysgolion Arfon

Y Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn

Dwyfor Meirionnydd a Grŵp Llandrillo Menai

## **Rhan 3: Addysg ôl-16 Arfon**

Niferoedd dysgwyr chweched dosbarth

Sicrhau dewis o bynciau

Maint dosbarthiadau

Canlyniadau

Sicrhau darpariaeth ddwyieithog gynhwysfawr

Sicrhau adnoddau priodol

Sefyllfa gyllidol lleol

Costau cludiant

## **Rhan 4: Symud ymlaen**

Cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth

# Rhagair

**“Fy ngweledigaeth yw cael cyfundrefn addysg ôl-16 sydd yn rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i’n darpariaeth.**

Ni ddylai eich cefndir, daearyddiaeth nac amgylchiadau bennu eich dewis na’ch llwybr i’r dyfodol. Hoffwn weld cyfundrefn sydd yn hyblyg, ac sydd yn darparu addysg a hyfforddiant o’r radd flaenaf, gan feithrin sgiliau y mae galw amdanynt yn yr economi leol, ranbarthol a chenedlaethol, er mwyn sicrhau llwybr cadarn tuag at ffyniant i bob person ifanc yng Ngwynedd.”




**Cyng. Cymlyn Rees Williams**  
**Aelod Cabinet Addysg**



**Garem Jackson**  
**Pennaeth, Adran Addysg**  
**Cyngor Gwynedd**

**“Mae’r tirlun ar gyfer addysg ôl-16 yng Nghymru’n newid.**

Er mwyn sicrhau rhagoriaeth yn y cyfleoedd, y dewisiadau a’r profiadau i bobl ifanc ôl-16, mae gofyn ein bod ni, ein partneriaid a’n rhan-ddeiliaid yn paratoi’r tir, gan gydnabod yr hyn rydan ni’n ei wneud yn dda, yr hyn y gallwn ni ei wneud yn well, a datblygu cyfundrefn uchelgeisiol newydd i sicrhau’r gorau i’r dysgwr. Mae seiliau ein cyfundrefn addysg ôl-16 yn dyddio’n ôl ddeugain mlynedd, felly, mae cyfle euraidd i Wynedd fod yn arloesol a chreu cyfundrefn addysg ôl-16 addas i bwrpas, sydd yn cyfuno’r galwedigaethol, y technegol a’r academiaidd gan sicrhau fod pob dysgwr yn gwireddu ei botensial.”



## *“Sicrhau tegwch a chefnogaeth gref i bob dysgwr ôl-16 yng Ngwynedd i lwyddo a gwireddu eu potensial”*

Ein gweledigaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 yng Ngwynedd yw:

- I. sicrhau tegwch yn y dewis o gyrsiau a darparu profiadau dysgu hyblyg a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n eu harfogi fel dysgwyr annibynnol â'r wybodaeth a'r sgiliau cywir i symud ymlaen.
- II. darparu trosglwyddiad effeithiol i ddarpariaeth addysg ôl-16, gan ddatblygu a chynnal mynediad at ystod eang o lwybrau priodol ar gyfer y dysgwr unigol ac yn sicrhau bod darpariaeth ôl-16 yn esblygu wrth i ofynion y dysgwr a'r economi leol newid i'r dyfodol.





## Rhan I: Yr achos dros newid

### Cyfarch newidiadau ym myd addysg

1. Mae tirlun addysg ôl-16 yng Nghymru yn newid gyda bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddf newydd yn ystod 2020. Mae'n amserol felly i adolygu a yw'r ddarpariaeth yng Ngwynedd yn effeithiol ar gyfer anghenion pobl ifanc y sir ac a yw'n cyfarch goblygiadau'r cynlluniau er mwyn sicrhau sgiliau newydd ar gyfer swyddi allweddol yn y dyfodol.
2. Yn Ionawr 2020, cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg, Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth am fframwaith newydd i addysg ôl-16 a fydd yn arwain at lefelau uwch o sgiliau sy'n ysgogi arloesi, hwyluso buddsoddiad a gwella arweinyddiaeth a rheolaeth. Disgwylir i ddysgwyr gael mynediad at gyfres o lwybrau eang a phriodol sy'n caniatáu mynediad at ddysgu ar bob lefel. Bydd angen pontio'n esmwyth rhwng llwybrau galwedigaethol, technegol ac academiaidd. Mae'r Gweinidog yn disgwyl i'r llwybrau fod yn glir, yn diwallu anghenion yr unigolyn, ac yn ystyried blaenoriaethau economaidd a chymdeithasol Cymru.
3. Mae'r fframwaith arfaethedig yn seiliedig ar Tud. 29 argymhellion adroddiad gan yr Athro
4. Byddai cynllun strategol y Comisiwn newydd yn seiliedig ar egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau. Yn 2015, gosododd Llywodraeth Cymru saith nod llesiant i Gymru, sef, Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth; Cymru fwy cyfartal, Cymru iachach, Cymru o gymunedau cydlynol, Cymru â diwylliant bywiog a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.
5. Mae angen i Wynedd baratoi ar gyfer tirlun a chyfeiriad newydd ar gyfer addysg ôl-16 yng Nghymru. Yn ogystal, bydd angen i'r gyfundrefn addysg i'r dyfodol gyfarch anghenion newydd yr economi yn lleol ac yn rhanbarthol gan feithrin sgiliau cyflogadwy.

Hazelkorn, 'Tuag at 2030' (2016) a oedd yn cynnwys cynnig i sefydlu un awdurdod newydd ar gyfer rheoleiddio, goruchwylio a chydgyssylltu'r sector ôl-orfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bwriad i sefydlu Comisiwn Addysg ac Ymchwil Trydyddol i Gymru (CTER) er mwyn darparu gwaith goruchwylio, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

6. Bydd yr angen i wella sgiliau cyflogadwy yn sail i bob darpariaeth ôl-16, gan godi uchelgeisiau cyflogaeth a chyflawni dyheadau dysgwyr yng Ngwynedd ac mae'n amcan allweddol wrth gynllunio'r ddarpariaeth. Disgwylir felly y dylai darpariaeth ôl-16 gael ei gynllunio a'i flaenoriaethu i adlewyrchu anghenion y farchnad lafur leol a chenedlaethol ynghyd â chwrdd â'r sgiliau y mae cyflogwyr lleol yn eu gwerthfawrogi. Ar gyfer dysgwyr sy'n dewis llwybr academaidd, mae'n rhaid hefyd sicrhau bod gan y dysgwyr hynny y sgiliau y byddent eu hangen ar gyfer cyflogaeth yn dilyn addysg ôl-16 ac addysg uwch. I gyflawni hyn, mae'n ofynnol i ddarparwyr gynnig ystod gydlynol a hyblyg o ddarpariaeth sy'n addas i bob dysgwr.
7. Er mwyn gweithredu hyn, dylid canolbwyntio'n benodol ar sicrhau bod unigolion yn cael eu cefnogi'n barhaus i ddatblygu, cynnal a gwella eu dysgu a'u sgiliau trwy gydol eu haddysg a'u gyrfaedd. Bydd yr anogaeth i ddysgwyr i barhau ag addysg a dysgu ar draws gwaith yn golygu mwy o debygolrwydd y bydd pobl ifanc yng Ngwynedd yn aros yn hirach yn y farchnad lafur, ac yn gallu addasu'n well i newidiadau wrth drosglwyddo o swyddi a gyrfaedd gydag amrywiol gyflogwyr a sectorau.
8. Mae cyfeiriad y darlun cenedlaethol wedi ei liwio gan *Ffyniant i Bawb*, strategaeth genedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017. Un o'r prif elfennau ydy 'Uchelgeisiol a Dysgu' ac mae 'Sgiliau a Chyflogadwyedd' wedi ei adnabod fel blaenoriaeth. Mae economi Cymru wedi newid yn sylweddol dros yr 20 mlynedd ddiwethaf. Mae dirywiad mewn swyddi gweithgynhyrchu o 18% i 10% o holl swyddi. Mae 98.5% yn fusnesau sy'n cyflogi llai na 50 o bobl gyda 76.6% yn fasnachwyr unigol. Amcangyfrir bod 46.4% o swyddi yng Nghymru â'r potensial i newid yn sgil awtomeiddio ac mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r Adolygiad o Arloesi Digidol i adrodd ar effaith bosibl awtomeiddio ar Gymru.
9. Mae sicrhau bod addysg ôl-16 yn cynnig hyfforddiant yn y sgiliau y gofynnir amdanynt gan gyflogwyr yn elfen allweddol o'r strategaeth. Mewn arolwg gan Lywodraeth Cymru yn 2017, nododd 66% o gyflogwyr â swyddi gwag bod prinder sgiliau arbenigol ar gyfer y rôl yn ffactor sylweddol i beidio â phenodi ymgeiswyr. Yn ogystal, roedd 45% yn poeni bod ymgeiswyr yn methu â dangos y gallu i ddatrys problemau cymhleth.
10. Mae Cyngor Gwynedd yn aelod o Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarth Gogledd Cymru (PSRh Gogledd Cymru) sydd wedi nodi dulliau gweithredu newydd o gefnogi busnesau i gymryd mantais ar rymoedd newydd. Yn ei gynllun 2019-2021, mae'r Bartneriaeth wedi nodi'r angen i fynd i'r afael â'r twf yn yr anghysondebau ar draws y rhanbarth yn ogystal â sicrhau rhaglen olyniaeth ar gyfer rhai sectorau. Mae ymchwil wedi amlygu'r tan-ddefnydd o sgiliau uwch, prinder a bylchau mewn sgiliau ar draws y rhan fwyaf o'n sectorau allweddol, ynghyd ag anawsterau recriwtio a diffyg sgiliau STEM (yn cynnwys dilyn pynciau STEM ar ôl TGAU).
11. Bydd yn bwysig felly i gynllun uchelgeisiol ar gyfer darpariaeth ôl-16 gydnabod fod gofynion sgiliau dal yn newid, megis sgiliau digidol a thechnoleg SMART a bydd angen datblygu gweithlu sydd yn hyblyg gyda chymwysterau addas i bwrpas fydd yn gyrru sgiliau arloesi a mentergarwch.
12. Mewn arolwg ar gyfer PSRh Gogledd Cymru yn 2018, nododd 29% o weithwyr nad oedd gweithwyr newydd yn 'barod ar gyfer gwaith'. Yn benodol, roedd diffyg sgiliau gwaith penodol, diffyg profiad gwaith, diffyg cymwysterau ac agweddau a chymhelliad gwael. Ychydig dros hanner o gyflogwyr sy'n cynnig profiad gwaith ar hyn o bryd i ddysgwyr ysgolion Addysg Bellach neu Brifysgol yn y gogledd.

**13. Bydd economi'r dyfodol angen sgiliau perthnasol ar gyfer diwydiannau newydd megis gwasanaethau digidol, y diwydiant awyrofod, datgarboneiddio, awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial. Bydd yn hanfodol i gynlluniau ar gyfer darpariaeth addysg ôl-16 gydnabod newidiadau yn natur yr economi yn genedlaethol ac yn lleol a pharatoi pobl ifanc ar gyfer y cyfleoedd sy'n deillio o'r swyddi newydd.**



**“Rhaid i ddysgwyr gael mynediad at gyfres o lwybrau eang a phriodol sy'n caniatáu mynediad at ddysgu ar bob lefel. Rhaid pontio'n esmwyth rhwng llwybrau galwedigaethol, technegol ac academiaidd. Rhaid i lwybrau fod yn glir, diwallu anghenion yr unigolyn, ac ystyried blaenoriaethau economaidd a chymdeithasol Cymru.”**

**Kirsty Williams AC - Y Gweinidog Addysg**




**Llywodraeth Cymru  
Welsh Government**

14. Disgwylir i'r cynllun addysg ôl-16 ymateb i anghenion y sectorau craidd i'r dyfodol trwy ddarparu addysg a hyfforddiant sgiliau perthnasol. Dengys arolwg PSRh Gogledd Cymru fod heriau sylweddol yn perthyn i'r holl sectorau craidd.




15. **Y Sector Ynni:** mae 50% o fusnesau'r sector ynni'n wynebu heriau sgiliau ar hyn o bryd, gyda chanran uchel yn y galwedigaethau proffesiynol, technegol a chrefftiau medrus. Mae prentisiaethau yn llwybr pwysig i'r economi ynni a charbon isel, sydd wedi'u teiwra'n benodol i anghenion cyflogwyr. Mae y rhan fwyaf o gyflogwyr yn y sector yn cyflogi prentisiaid ar lefel 3, gyda phrentisiaethau gradd yn cael eu cynnig mewn peirianeg ar lefel 4+.



16. **Y Sector Adeiladu:** mae 78% o fusnesau yn y sector adeiladu yn wynebu heriau sgiliau yn y sector ar hyn o bryd, gyda chanran uchel ohonynt mewn crefftiau medrus, swyddi proffesiynol, cysylltiol, technegol a phroffesiynol. Mae prentisiaethau yn llwybr mynediad pwysig i'r sector adeiladu gyda 66.7% o gyflogwyr yn y sector yn cyflogi prentisiaid, yn bennaf ar lefelau 2 a 3, ac un neu ddau o brentisiaethau lefel uwch.



17. **Y Sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol:** mae'r sector yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r rhanbarth, yn uniongyrchol fel ffynhonnell gyflogaeth allweddol sy'n berthnasol i gyflogaeth yn yr Economi Sylfaenol. Mae hefyd yn adnodd allweddol trwy ddarparu gwasanaethau arbenigol i fusnesau ar draws pob sector. Mae'n sector gweddol gytbwys o ran yr angen i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac mae nifer uchel yn y sector yn iau na 50 oed. Roedd 43% o gyflogwyr mewn arolwg diweddar yn rhagweld bydd sgiliau digidol cyfredol yn her i'w busnes yn y dyfodol.



18. **Y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol:** mae'r sector yma'n darparu bron i draean o'r holl brentisiaethau ledled Cymru. Mae'r buddsoddiad hwn mewn sgiliau yn hanfodol i gynaliadwyedd y sector iechyd a gofal cymdeithasol ac yn diwallu rhaglen y llywodraeth ar gyfer yr Economi Sylfaenol. Mae yna alw cyson gan gyflogwyr am staff gofal cartref wedi'u hyfforddi ar lefelau 2 a 3 yn unol â rheoliadau.





19. **Y Sector Twristiaeth a Lletygarwch:** mae'r sector hon yma'n cael ei chydabod fel cyfrannwr allweddol i economi gogledd Cymru. Mae twristiaeth a lletygarwch yn cyfrannu £2bn bob blwyddyn i economi'r rhanbarth gan gyflogi 40,000 o bobl. Yng ngogledd orllewin Cymru, mae cyrsiau Teithio a Thwristiaeth a Lletygarwch ac Arlwyyo ar hyn o bryd yn cael eu cyflwyno yn bennaf ym Mangor, Dolgellau a Llandrillo.



20. **Y Sector Bwyd ac Amaeth:** dengys arolwg PSRh gogledd Cymru fod 46% o fusnesau diwydiant bwyd ac amaeth yng ngogledd Cymru yn gofyn am sgiliau iaith Gymraeg yn y gwaith. Roedd 67% yn y diwydiant yn wynebu heriau gyda sgiliau fel galwedigaethau crefftau medrus, galwedigaethau proffesiynol, a gweithwyr prosesu, offer a pheiriannau. Adroddodd 58% o gyflogwyr yn y diwydiant bwyd ac amaeth eu bod wedi cael anawsterau wrth recriwtio rheolwyr sicrwydd ansawdd a thechnegol ynghyd â pheirianwyr awtomeiddio a swyddogion iechyd a diogelwch.


21. Mae data'r cyfrifiad yn dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn lleihau yn gyffredinol rhwng 16-25 oed. Rhwng 2001 a 2011, gwelwyd y gostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg ymysg y grŵp oedran 16-19, gan ostwng o 41.9% i 38.9% yn 2011. Yng Ngwynedd, gwelwyd y gostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran yma o 75.8% yn 2001 i 68.6% yn 2011.
22. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a gyhoeddwyd yn 2017, yn rhoi ffocws newydd ar yr iaith Gymraeg, ac mae'n nodi gweledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r weledigaeth yma'n golygu datblygu ymhellach y dulliau sydd fwyaf tebygol o arwain at y cynnydd a ddeisyfir, sef trosglwyddo'r Gymraeg o un genhedlaeth i'r llall, a datblygu a chynnal sgiliau Cymraeg drwy'r gyfundrefn addysg a hyfforddiant.
23. Un o brif amcanion *Cymraeg 2050*, yw sicrhau bod llai o bobl ifanc yn colli eu sgiliau Cymraeg wrth symud o addysg statudol i addysg ôl-16 ac addysg uwch, a bod rhagor ohonynt yn cyrraedd canol eu hugeiniau a thu hwnt wedi dal gafael ar yr iaith. Yn 2017, cyhoeddodd Estyn adroddiad ar ddysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach ar draws Cymru. Adnabu Estyn nad oedd nifer fawr o ddysgwyr yn parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog wrth symud o'r ysgol i'r coleg. Mae'r diffyg dilyniant hwn rhwng gwahanol gyfnodau addysg a'r byd gwaith yn golygu bod y rhai sydd wedi cael addysg cyfrwng Cymraeg neu sydd wedi dysgu'r Gymraeg yn yr ysgol yn colli eu sgiliau yn aml.
24. O ystyried bod dros hanner ein dysgwyr yn gadael yr ysgol yn 16 oed, a'r mwyafrif yn symud ymlaen i addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith neu swydd, mae gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ran allweddol i'w chwarae o ran cynnal sgiliau Cymraeg dysgwyr er mwy ateb y galw cynyddol am weithlu dwyieithog a chyfrannu at weledigaeth y Llywodraeth o filiwn o siaradwyr. Mae angen i ddysgwyr a phobl ifanc fod yn ymwybodol o fuddion parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a phwysigrwydd defnyddio'r iaith yn gyson er mwyn cynnal rhuglder a hyder wrth baratoi ar gyfer y gweithle, ac mae angen annog cyflogwyr i ddarparu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gweithle. Yn ogystal, mae prentisiaethau yn bwysig o ran sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg ar ôl i'w haddysg ddod i ben. Gall prentisiaethau Cymraeg helpu i ateb y galw am sgiliau Cymraeg yn y gweithle, yn ogystal â bod o fudd i'r economi.
25. Mae Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Ranbarthol Gogledd Cymru yn dangos yr angen am sgiliau iaith Cymraeg ymysg gweithlu'r rhanbarth nawr ac yn y dyfodol. Yng ngogledd Cymru, yn ogystal â'i bod yn iaith gyntaf mewn nifer o weithleoedd, mae'r galw am sgiliau iaith Gymraeg yn cynyddu mewn nifer o sectorau twf, yn rhanbarthol a chenedlaethol. Yn 2015, yng ngogledd orllewin Cymru yr oedd yr angen mwyaf am sgiliau iaith Cymraeg (57%), ac yng ngogledd orllewin Cymru yr oedd y nifer mwyaf o swyddi a nododd bod sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol neu'n fanteisiol.
26. O ganlyniad, mae gennym ddyletswydd i sicrhau y bydd yr holl ystod o ddarpariaeth addysg ôl-16 yng Ngwynedd i'r dyfodol yn ddarpariaeth ddwyieithog gynhwysfawr ar gyfer pobl ifanc fydd yn eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ymhellach, ac yn ymateb i ofynion cyflogwyr a'r economi yng Ngwynedd, yn rhanbarth gogledd Cymru a thu hwnt.

**“Yng Ngwynedd mae’r ganran  
uchaf o gyflogeion yn y  
rhanbarth a nododd bod y  
Gymraeg yn ‘hanfodol’.”**



## 27. Gweledigaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

*“Ym maes darpariaeth Safon Uwch mewn ysgolion a’r ddarpariaeth ôl-16 a gynhigir gan golegau addysg bellach, byddwn yn gweithio’n agos gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod yr ystod ehangaf posibl o ddarpariaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi darpariaeth Safon Uwch lle y mae’r niferoedd o ddysgwyr yn isel, lle bo hynny’n briodol.”*



### Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

28. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn creu un system ddeddfwriaethol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed sydd ag ADY. Bydd yn disodli’r ddwy system sydd ar waith ar hyn o bryd i gefnogi plant a phobl ifanc o oedran ysgol gorfodol sydd ag Addysg Anghenion Arbennig (AAA); a phobl ifanc mewn addysg bellach sydd ag Anawsterau neu Anabledau Dysgu (AAD).
29. Mae'r system newydd yn disodli'r cynlluniau cymorth presennol (gan gynnwys Datganiadau AAA, cynlluniau addysg unigol i ddysgwyr, a Chynlluniau Dysgu a Sgiliau ar gyfer dysgwyr ôl-16) â chynllun statudol newydd a elwir yn Gynllun Datblygu Unigol (CDU).
30. Os oes gan berson ifanc ADY a'i fod yn mynychu ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, bydd ganddo hawl i gael CDU. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn rhoi hawl i bobl ifanc ag ADY gael addysg barhaus hyd at 25 oed. Ei bwriad, yn hytrach, yw rhoi mynediad i addysg neu hyfforddiant pellach ar sail gyfartal â'r rheini sydd heb ADY.
31. Dylid nodi, nad yw'r Ddeddf yn ymestyn i addysg uwch, dysgu'n seiliedig ar waith na phrentisiaethau. Serch hynny, ein gweledigaeth yw sicrhau fod pobl ifanc gydag ADY hefyd yn gallu manteisio ar yr holl ystod o gyfleoedd a phrofiadau ym maes addysg a hyfforddiant ôl-16, gan allu trosglwyddo'n hwylus o addysg i ddysgu'n seiliedig ar waith, prentisiaethau neu fyd gwaith.



32. Yng Nghymru, darperir addysg ôl-16 gan sefydliadau trydyddol, canolfannau chweched dosbarth ac ysgolion 11-18 oed. Mewn rhai ardaloedd, colegau addysg bellach yw'r unig ddarparwyr addysg a hyfforddiant ffurfiol i bobl dros 16 oed ac y mae i'r sector rôl i alluogi pobl ifanc ac oedolion wireddu eu potensial, a darparu gweithlu medrus. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o ardaloedd, mae chweched dosbarth ysgolion uwchradd yn cyd-ddarparu addysg safon uwch a rhai cymwysterau galwedigaethol yn ogystal.
33. Yn 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r polisi "Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru". Rhai o amcanion y polisi oedd lleihau dyblygu yn y ddarpariaeth, a gwella'r dewis i ddysgwyr colegau addysg bellach a chweched dosbarth. Er mwyn cyfarch yr amcanion hyn, roedd y polisi yn nodi'r angen i ganfod datrysiadau lleol yn hytrach na phennu un model cenedlaethol.
34. Daeth y Ddeddf Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) i rym yn 2009, ac o ganlyniad, rhoddwyd trefniadau mewn lle ar draws Cymru er mwyn sicrhau gallu'r ysgolion uwchradd i weithredu yn unol â gofynion y Mesur, i gynnig profiadau dysgu ac ansawdd addysg o safon uchel. Roedd y Mesur hefyd yn nodi fod rhaid i bob sefydliad ôl-16 ddatblygu cynnig cwricwlwm lleol fyddai'n cynnwys o leiaf 30 o gyrsiau, gyda phump o'r cyrsiau hynny yn gyrsiau galwedigaethol, ac o leiaf bump yn rhai cyffredinol.

## Sefyllfa ôl-16 Gwynedd



35. Yn hanesyddol yng Ngwynedd roedd chweched dosbarth ymhob un o ysgolion uwchradd y sir yn darparu cyrsiau Safon Uwch i bobl ifanc. Roedd y pynciau craidd yn cael eu cynnig ym mhob ysgol ac roedd y cynnig ehangach yn ddibynnol ar arbenigeddau ac amserlen pob sefydliad unigol. Prin iawn oedd y teithio rhwng ysgolion.
36. Bu newid i'r ffordd yr oedd addysg ôl-16 yn cael ei ddarparu yn Nwyfor a Meirionnydd yn y 1990au. Diddymwyd dosbarthiadau chweched yr ysgolion uwchradd ar wahân i Ysgol y Berwyn a sefydlwyd coleg trydyddol lle'r oedd y disgyblion yn trosglwyddo iddo ar ddiwedd eu haddysg statudol yn 16 oed.
37. Mae'r ddarpariaeth ôl-16 sy'n weithredol yng Ngwynedd ar hyn o bryd yn cael ei ddarparu mewn chwe ysgol uwchradd yn Arfon, sef Ysgol Brynrefail, Ysgol Dyffryn Nantlle, Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol Friars, Ysgol Syr Hugh Owen ac Ysgol Tryfan, ac mewn dau goleg addysg bellach, sef Coleg Menai (Bangor) a Choleg Meirion Dwyfor (Glynlifon, Pwllheli a Dolgellau) sy'n rhan o Grŵp Llandrillo Menai. Mae chweched dosbarth hefyd yn Ysgol Godre'r Berwyn, Y Bala.
38. Ers 2013, mae ysgolion uwchradd Arfon mewn partneriaeth gydag Awdurdod Lleol Gwynedd, ysgolion uwchradd Môn, Awdurdod Lleol Môn a Grŵp Llandrillo Menai a elwir Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r Consortiwm yn gosod cwricwlwm ôl-16 yr ardal drwy drefniant partneriaethol. Mae hyn, ymysg pethau eraill, yn galluogi'r ysgolion i gyfarch Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 sy'n nodi bod yn rhaid i bob sefydliad ôl-16 gynnig 30 dewis o ran cyrsiau i ddysgwyr gyda phump o'r rheiny yn gyrsiau galwedigaethol. Ers sefydlu'r Consortiwm, mae sawl newid wedi digwydd ym maes addysg ac felly mae'n amserol i edrych a yw effeithlonrwydd y trefniadau presennol yn parhau i ddarparu'r weledigaeth strategol wreiddiol.

## Chweched dosbarth ysgolion Arfon



- Ysgol uwchradd 11-18 wedi ei lleoli ym Mangor.
- 1,367 o ddisgyblion: 219 o ddysgwyr yn y chweched dosbarth.
- Mae ysgolion cynradd Bangor yn nalgylch yr ysgol ac mae'r ysgol hefyd yn derbyn disgyblion o ardal eang yn cynnwys Ynys Môn.



- Ysgol uwchradd 11-18 wedi ei lleoli ym Mangor.
- 430 o ddisgyblion: 81 o ddysgwyr yn y chweched dosbarth.
- Yn debyg i Ysgol Friars, mae ysgolion cynradd Bangor yn nalgylch yr ysgol.



- Ysgol uwchradd 11-18 wedi ei lleoli yng Nghaernarfon.
- 864 o ddisgyblion: 118 o ddysgwyr yn y chweched dosbarth.
- Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys ysgolion cynradd Ysgol yr Hendre, Ysgol Maesincla, Ysgol Rhosgadfan, Ysgol Llandwrog, Ysgol Rhostryfan, Ysgol Bontnewydd, Ysgol y Gelli, Ysgol Santes Helen, Ysgol y Felinheli ag Ysgol Felinwnda.



- Ysgol uwchradd 11-18 wedi ei lleoli ym Methesda.
- 464 o ddisgyblion: 56 o ddysgwyr yn y chweched dosbarth.
- Mae ysgolion cynradd y dalgylch yn cynnwys Ysgol Abercaseg, Ysgol Penybryn, Ysgol Llanllechid, Ysgol Tregarth, Ysgol Bodfeurig, Ysgol Rhiwlas ag Ysgol Llandygai.



**YSGOL BRYNREFAIL**

- Ysgol uwchradd 11-18 wedi ei lleoli yn Llanrug.
- 773 o ddisgyblion: 117 yn y chweched dosbarth.
- Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys ysgolion cynradd wrth droed yr Wyddfa sef, Ysgol Bethel, Ysgol Waunfawr, Ysgol Gwaun Gynfi, Ysgol Dolbadarn, Ysgol Llanrug ac Ysgol Gymuned Penisarwaen.



- Ysgol uwchradd 11-18 wedi ei lleoli ym Mhenygroes.
- 419 o ddisgyblion: 58 o ddysgwyr yn y chweched dosbarth.
- Mae'r ysgolion cynradd y dalgylch yn cynnwys Ysgol Bro Llifon, Ysgol Brynaerau, Ysgol Llanllyfni, Ysgol Baladeulyn, Ysgol Nebo, Ysgol Bro Llew ag Ysgol Talysarn.

## Y Consortïwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn

39. Mae darpariaeth cwricwlwm ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn yn cael ei lunio drwy gytundeb a phenderfyniad y bartneriaeth yn hytrach na chan ysgolion a cholegau unigol. Er bod rhwydd hynt i fwrdd llywodraethol sefydliad unigol wneud cais i ddarparu cwrs ôl-16 yn ei sefydliad, bydd yn rhaid i'r cais gael ei ystyried gan y bartneriaeth fel rhan o'r cwricwlwm ardal.
40. Er bod y Consortïwm wedi llwyddo i resymoli'r cynnig Uwch Gyfrannol a Safon Uwch, nid yw'r drefn gyfredol yn cynnig yr un profiad i bob dysgwr. Mae amrywiaeth ar draws yr ysgolion yn Arfon yn y nifer o bynciau a ddarperir ar safleoedd ysgolion unigol heb orfod dilyn y drefn bartneriaethol,



a'r nifer o ddysgwyr sydd yn astudio eu pynciau dewisol mewn ysgolion neu golegau eraill ar draws y bartneriaeth. Arweinia hyn at ddysgwyr yn teithio yn ystod y dydd rhwng ysgolion a/neu golegau i dderbyn eu gwersi mewn bloc o o leiaf ddwy awr, gyda rhai o'r gwersi hynny yn rhedeg hyd 5:00 yh, ac yn cael eu cynnal ddwy waith yr wythnos.

## Dwyfor/Meirionnydd

### Ysgol Godre'r Berwyn

41. Agorwyd ysgol ddilydol 3-19, Ysgol Godre'r Berwyn, yn Y Bala ym Medi 2019 yn dilyn buddsoddiad gwerth £10.27miliwn. Mae'r ysgol yn cynnwys adnoddau modern ar gyfer dysgwyr yr ardal ynghyd â llyfrgell gyhoeddus ac adnoddau pwrpasol ar gyfer y celfyddydau megis neuadd ddawns a theatr.

Ysgol Godre'r Berwyn yw'r unig ysgol uwchradd ym Meirionnydd a Dwyfor sydd â chweched dosbarth. Mae ganddi 349 o ddysgwyr uwchradd, gan gynnwys 46 o ddysgwyr chweched dosbarth (gyda 182 cynradd). Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal wledig eang, sy'n cynnwys dalgylch ysgolion cynradd Ysgol Bro Tryweryn, Ysgol Ffridd y Llyn ac Ysgol OM Edwards.

42. Mae trefniadau strategol wedi eu sefydlu rhwng Ysgol Godre'r Berwyn a safle Coleg Meirion Dwyfor Dolgellau, gyda'r bwriad i gynnig dewis eang a pherthnasol o gyrsiau academiaidd a galwedigaethol ac i wella adnoddau addysgol a phrofiad y dysgwyr yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn cynnig 18 o gyrsiau ar gyfer blwyddyn 12 a 13 sy'n cael eu dysgu ar y safle ac nid oes unrhyw blant yn teithio i safleoedd eraill ar hyn o bryd.





43. Sefydlwyd Grŵp Llandrillo Menai (GLIM) yn 2012 yn dilyn uno Coleg Llandrillo, Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor. Fe'i adnabyddir fel y corff addysg bellach mwyaf yng Nghymru gyda lleoliadau dysgu yn siroedd Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Dinbych. Mae'n cyflogi 2,000 o staff ac yn darparu cyrsiau i oddeutu 27,000 o fyfyrwr. Cynigir dewis eang o gyrsiau academiaidd a galwedigaethol mewn mwy na 35 pwnc maes.
44. Mae GLIM yn cynnig y dewis mwyaf o gyrsiau Safon Uwch yng ngogledd Cymru. Gellir dewis o blith 40 pwnc SU/UG ac mae modd astudio yn llawn amser neu'n rhan-amser. Lleolir y campysau Safon Uwch ym Mangor, Dolgellau, Pwllheli, Llandrillo-yn-Rhos a Chweched Y Rhyl. Niferoedd myfyrwr addysg gyffredinol yn 2018/19 oedd 238 yng Ngholeg Meirion-Dwyfor (Pwllheli a Dolgellau) a 59 yng Ngholeg Menai (Bangor).
45. Mae dysgwyr ôl-16 Ysgol Botwnnog ym Mhen Llŷn, Ysgol Glan y Môr ym Mhwillheli ac Ysgol Eifionydd ym Mhorthmadog yn dueddol o ddewis astudio yng Ngholeg Meirion-Dwyfor Pwllheli ar gyfer cyrsiau Lefel 3 / galwedigaethol. Mae dysgwyr ôl-16 Ysgol Ardudwy, Ysgol y Moelwyn, Ysgol Bro Idris ac Ysgol Uwchradd Tywyn yn dueddol o ddewis astudio yng Ngholeg Meirion-Dwyfor Dolgellau ar gyfer cyrsiau Lefel 3 / galwedigaethol. Mae cyrsiau ym myd amaeth a choedwigaeth yn cael eu darparu yng Ngholeg Meirion Dwyfor Glynlifon ger Caernarfon.
46. Yng Ngholeg Meirion-Dwyfor cynigir 27 o gyrsiau Lefel A yn safleoedd Dolgellau a Phwllheli, ac ystod o gyrsiau galwedigaethol. Ceir darpariaeth fideo gynadleda rhwng campysau Pwllheli a Dolgellau. Yng Ngholeg Menai, ceir arlwy galwedigaethol a pheth darpariaeth Lefel A. Mae'r safle yn cynnig dewis o gyrsiau technolegol, er nid yw'r ddarpariaeth mor eang a Choleg Meirion-Dwyfor oherwydd darpariaeth ysgolion Arfon.




## Rhan 3: Addysg ôl-16 Arfon

47. Wrth ystyried y ffactorau allweddol, mae angen sicrhau bod y ddarpariaeth nid yn unig yn datrys heriau gweithredol sydd eisoes wedi eu hadnabod, ond hefyd yn adeiladu strwythur strategol ar gyfer ôl-16 i'r hir dymor. Mae'r prif ffactorau er mwyn sicrhau darpariaeth effeithlon a hyfyw ar gyfer y dyfodol wedi eu cynnwys yn yr adran hon, gan hefyd nodi barn rhan-ddeiliaid ynglŷn â'u profiadau o'r drefn bresennol.
48. Comisiynwyd Cwmni Iaith Cyf. gan yr Adran Addysg i gasglu tystiolaeth trwy gynnal cyfweiliadau â grwpiau ffocws gyda dysgwyr a myfyrwyr, rhieni, ac arweinwyr ysgolion uwchradd a cholegau. Gosodwyd trywyddau'r ymchwil a phenderfynwyd ar y cwestiynau i'w gofyn yn y cyfweiliadau ac yn yr holiaduron yn dilyn mewnbwn gan swyddogion yr Adran Addysg. Cyflawnwyd y gwaith rhwng Rhagfyr 2018 ac Ebrill 2019.

## Niferoedd disgyblion chweched dosbarth

49. Mae'r niferoedd 16 i 18 mlwydd oed yng Nghymru wedi gostwng yn gyson ers 2014, gydag 11.6% o ostyngiad yn y niferoedd erbyn 2020. Mae hyn wedi golygu bod lleihad ar gyfer y boblogaeth 16 -18 wedi arwain at ostyngiad yn y nifer sydd wedi bwydo'r drefn ôl-16 dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, disgwylir i'r niferoedd gyrraedd yn ôl i lefel 2014 yn 2026, gyda'r sefyllfa yng Ngwynedd yn agos i'r cyfartaledd cenedlaethol.




50. Yn bresennol, mae 647 o ddysgwyr yn y chweched dosbarth (Blynyddoedd 12 ac 13) yn ysgolion uwchradd Arfon (*Medi 2019*), gyda dros ddau draean o'r dysgwyr yn astudio unai yn Ysgol Friars (229 disgybl), Ysgol Syr Hugh Owen (118 disgybl) neu yn Ysgol Brynrefail (117 disgybl).

### Niferoedd Disgyblion Chweched Dosbarth Ysgolion Arfon (Medi 2019):

Ysgol	Bl. 12	Bl. 13	Cyfanswm
Friars	119	100	219
Syr Hugh Owen	71	47	118
Brynrefail	66	51	117
Dyffryn Nantlle	31	27	58
Tryfan	52	27	79
Dyffryn Ogwen	27	29	56
Cyfanswm	366	281	647

Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2019

51. Mae gostyngiad wedi bod yn y niferoedd sydd yn mynychu addysg chweched dosbarth yn ysgolion Arfon, gydag oddeutu cant yn llai o ddysgwyr ar hyn o bryd o gymharu â niferoedd 2015. Serch hynny, mae rhagamcanion ar gyfer cyfanswm dysgwyr dros y tair blynedd nesaf yn dangos cynnydd yn y niferoedd o ddysgwyr, lle rhagwelir y bydd 844 o ddysgwyr chweched dosbarth yn ysgolion Arfon erbyn Medi 2022.



52. Yn seiliedig ar dystiolaeth hanesyddol, mae'r Llywodraeth wedi adnabod bod angen o leiaf 150 o ddysgwyr (ar draws Blynnyddoedd 12 a 13) fel lleiafswm er sicrhau chweched dosbarth hyfyw. Wrth ystyried sefyllfa ysgolion Arfon, dim ond Ysgol Friars sy'n cyrraedd y trothwy hwn, gydag Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol Dyffryn Nantlle ac Ysgol Tryfan ymhell o dan 150 o ddysgwyr.



53. Mae Gwynedd yn sir wledig gyda demograffeg o boblogaeth sy'n byw mewn pentrefi neu drefi bychan. Mae'n her barhaus i sicrhau dewis eang mewn ysgolion unigol lle mae niferoedd dysgwyr ar gyfer rhai pynciau yn isel. Mae'r trefniant ers sefydlu'r Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn wedi cynorthwyo gyda'r nod o geisio cynyddu'r nifer o bynciau sydd ar gael i ddysgwyr mewn ysgolion unigol yn Arfon.
54. Mae'r colegau a'r ysgolion uwchradd yn Arfon trwy drefniadau'r Consortiwm yn llwyddo i gyfarch y gofyn i gynnig 30 o bynciau yn unol â'r Mesur. Mae'r drefn bartneriaethol wedi golygu bod pob ysgol beth bynnag yw maint eu darpariaeth chweched dosbarth yn gallu cynnig y 25 pwnc Safon Uwch a 5 pwnc BTEC Lefel 3 sy'n cyrraedd y 30 pwnc sy'n ofynnol i bob ysgol ei chyfarch. Yn ogystal, mae trefniadau presennol yn golygu fod gan ysgolion uwchradd Arfon yr hawl i gynnig y pynciau craidd, sef Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Mathemateg, Cymraeg a Saesneg eu hunain.
55. Serch hynny, ceir amrywiaeth sylweddol yn y dewis o un coleg ac ysgol i'r llall:
- Mae Grŵp Llandrillo Menai yn symud i gyfeiriad sefydlu canolfannau arbenigol yn Arfon/Môn, gyda darpariaeth Coleg Meirion Dwyfor yn cynnig arlwy mwy cyffredinol
  - Mae rhai ysgolion uwchradd yn Arfon yn gallu cynnig pynciau heb gymorth gan drefniadau'r Consortiwm tra bod ysgolion uwchradd eraill yn fwy dibynnol ar y cyrsiau partneriaeth er mwyn gallu cynnig 30 pwnc
  - Mae Ysgol Godre'r Berwyn â dewis cyfyngedig o gyrsiau ôl-16, ac yn methu cynnig 30 pwnc heb bartneriaeth gyda Choleg Meirion Dwyfor.
56. Nid yw maint y chweched o reidrwydd yn cyfateb i'r nifer o bynciau a gynhigir ymhob sefydliad.

Ysgol	Niferoedd	Nifer y pynciau a gynigiwyd yn fewnol 2018/19
<b>Brynrefail</b>	117	13
<b>Dyffryn Nantlle</b>	58	10
<b>Dyffryn Ogwen</b>	55	11
<b>Friars</b>	219	23
<b>Tryfan</b>	81	11
<b>Syr Hugh Owen</b>	118	16

57. Er hyn, mae'r nifer o ddysgwyr sydd yn mynychu cyrsiau allanol wedi eu ffrwyno gan ffactorau megis:
- canllawiau ysgolion unigol ar ganiatáu un pwnc allanol yn unig y disgybl,
  - ymarferoldeb teithio o'r fam ysgol i rai o'r cyrsiau allanol,
  - cyfrwng iaith y cyrsiau allanol,
  - nifer llai o gyrsiau mewnol ar gael mewn rhai ysgolion.

Mae hynny wedi arwain at dri chwarter dysgwyr B12/13 Arfon yn dewis cyfuniad o bynciau mewnol yn unig – yn ymarferol, mae hyn yn golygu gall bod eu gwir ddewis o gyrsiau yn llai na'r cyfanswm o dros 30 cwrs sydd yn cael eu darparu drwy'r trefniadau cydweithio.



## Barn rhieni, dysgwyr ac arweinwyr am y dewis cwricwlwm ôl-I 6

58. Yn yr ysgolion lle ceir colofnau dewis pynciau ar gyfer dewis cyrsiau Safon Uwch, sonia rhai dysgwyr am wrthdaro gan fod eu pynciau dewisiol yn yr un golofn. Roedd y mwafrif llethol o ddysgwyr yn y grŵp ffocws wedi gallu dewis y pynciau yr oeddynt yn ei ddymuno er bod rhai rhwystrau yn bennaf oherwydd yr angen i deithio i leoliad arall neu oherwydd y niferoedd a ddymunai ddilyn y cwrs.

**“Buaswn wedi dewis un pync mewn ysgol wahanol ond roedd mynd i ysgol wahanol yn ormod.”**

**“Wedi peidio gwneud pync am nad oeddwn yn gallu ei wneud yn yr ysgol.”**

Dywedodd y dysgwyr bod digon o ddewis o gyrsiau gydag ambell eithrad,

**“No state school in the area offered Economics.”**

**“Rydym am weld mwy o amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgwyr, ac am iddynt fedru symud yn ddirwystr rhwng gwahanol rannau o'r sector.”**


**Kirsty Williams AC - Y Gweinidog Addysg**




Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

59. Yn genedlaethol ar gyfartaledd ceir 11 neu 12 o ddysgwyr mewn dosbarth Safon Uwch mewn chweched dosbarth, ond mewn rhai chweched dosbarth mae'r nifer yn sylweddol is. Mewn cymhariaeth, ar gyfartaledd ceir deunaw neu fwy o ddysgwyr mewn dosbarth Safon Uwch yng ngholegau Addysg Bellach a cholegau chweched dosbarth.
60. Yn gyllidol, ystyrir bod angen lleiafswm o 9 o ddysgwyr i sicrhau y bydd pwnc ôl-16 yn hyfyw. Felly, bydd yn her i bob chweched dosbarth sydd â nifer o ddsbarthiadau gyda llai na 9 o ddysgwyr i redeg cyrsiau effeithlon o fewn y gyllideb sydd ar gael iddynt i ddarparu addysg ôl-16. Gall hyn olygu pwysau ar gyllidebau blyneddod 7-11 i gynnal niferoedd bychan mewn dosbarthiadau yn y chweched dosbarth.
61. Yn sgil y ffaith bod holl ysgolion uwchradd Arfon â'r hawl i gynnig isafswm o 6 phwnc craidd Safon Uwch, golyga hyn bod rhai pynciau yn cael eu cynnal gyda llai na 9 o ddysgwyr ynddynt ar hyn o bryd.
62. Yn 2017/18 roedd 51% o ddsbarthiadau pynciau craidd Safon Uwch yn Arfon gyda 9 neu lai o ddysgwyr ynddynt. O fewn blwyddyn, gwelir bod canran y dosbarthiadau sydd â 9 neu lai o ddysgwyr wedi cynyddu'n sylweddol. Yn 2018-19, roedd 68% o'r holl gyrsiau craidd gyda 9 neu lai o ddysgwyr, mae hyn yn gynydd o 17% ers 2017-18.

2017-18



2018-19



## Barn rhieni, dysgwyr ac arweinwyr am y gefnogaeth dewis ôl-16

63. Wrth drafod y trefniadau pontio o addysg cyn-16 i addysg ôl-16 a chyngor ynglŷn â dewis cyrsiau, roedd profiadau'r dysgwyr yn debyg yn y mwyafrif o'r ysgolion.

*“Cyngor cryf gan athrawon a theulu i ddewis pynciau roeddwn yn eu mwynhau yn ogystal â rhai roeddwn yn dda ynddynt.”*

*“Wedi cael rhywfaint o gyngor gan yr ysgol - athrawon ac ati ond dim digon yn fy marn i. Roeddwn yn dibynnu lot ar brofiadau blaenorol pobl oedd wedi astudio pynciau yn y gorffennol yn hytrach na ysgol.”*

*“Fy uchelgais yw datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol i Gymru sy'n hawdd i'n dysgwyr ei thramwyo ac sy'n cefnogi ein gallu i gystadlu yn y dyfodol ar lwyfan y byd.”*

*Kirsty Williams AC - Y Gweinidog Addysg*



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government





- 64 Mae Cyngor Gwynedd wedi gosod y nod o welliant parhaus, cysondeb mewn safonau addysg a mynediad at arbenigwyr pwnc fel rhan o'r ddarpariaeth ôl-16 yn y sir.
65. **Yn genedlaethol, mewn ysgolion 11-18, adroddir am fesurau cyrhaeddiad addysgol a deilliannau chweched dosbarth o ran:**
- **Lefel 3:** Faint o ddysgwyr sy'n cyflawni trothwy lefel 3 (2 gymhwyster Safon Uwch neu gyfwerth ar raddau A\*-E)
  - **3 A\*-C:** Faint sy'n ennill 3 gradd A\*-C ar lefel Safon Uwch (neu gymhwyster cyfatebol) ar ôl cofrestru ar gyfer o leiaf 2 Safon Uwch (neu gymhwyster cyfatebol).
  - **3 A\*-A:** Faint sy'n ennill 3 gradd A\*-A ar lefel Safon Uwch (neu gymhwyster cyfatebol) ar ôl cofrestru ar gyfer o leiaf 2 Safon Uwch (neu gymhwyster cyfatebol).


		2016/17	2017/18	2018/19
% a gofrestrodd ar gyfer o leiaf 2 Safon Uwch ac a gyflawnodd 3 gradd A*- A	Ysgolion Uwchradd Arfon	12.5	14.3	13.8
	Cymru	10.5	13.4	13.2
% a gofrestrodd ar gyfer o leiaf 2 Safon Uwch ac a gyflawnodd 3 gradd A*- C	Ysgolion Uwchradd Arfon	62.2	60.6	61.7
	Cymru	54.7	57.9	58.4
% a gyrhaeddodd trothwy Lefel 3	Ysgolion Uwchradd Arfon	97.9	97.5	97.5
	Cymru	97.1	97.3	97.9

66. Mae'r gyfundrefn sy'n bodoli wedi arwain at amrywiaeth ym mherfformiad pynciau unigol mewn rhai ysgolion. Un ffactor allanol ychwanegol a all gael effaith ar ganlyniadau yw'r nifer o ddysgwyr sy'n derbyn gwersi preifat yn ychwanegol i'r ddarpariaeth a geir iddynt yn yr ysgolion. Wrth edrych ar gyfartaledd canlyniadau'r holl ysgolion dros gyfnod o dair blynedd mae'n bosibl gweld amrywiaeth ar draws ysgolion.

	Niferoedd 16-19	A*-A	A*-C	D-E	A*-E
Mathemateg	233	105 (45%)	190 (82%)	37 (15%)	227 (97%)
Bioleg	187	46 (25%)	132 (72%)	53 (27%)	185 (99%)
Cemeg	191	69 (36%)	152 (80%)	34 (17%)	187 (97%)
Saesneg	144	24 (17%)	106 (71%)	38 (29%)	144 (100%)
Ffiseg	131	43 (33%)	99 (77%)	27 (21%)	128 (98%)
Cymraeg	158	37 (23%)	123 (78%)	35 (22%)	158 (100%)

67. Fel y dangosir yn y graff sydd ar y dudalen nesaf, ceir gwahaniaethau amlwg yn y nifer o ddysgwyr ar draws yr ysgolion yn Arfon sydd yn derbyn graddau A\*-C yn y pynciau craidd.

## Canlyniadau ôl-16 A\*-C pynciau craidd ysgolion Arfon 2016-19



**Mathemateg:** Dros gyfnod treigl o 3 blynedd, mewn pedwar allan o'r chwe ysgol yn Arfon llwyddodd 40% o'r holl ddysgwyr i dderbyn graddau A\*-A. Ymhob ysgol yn Arfon namyn un llwyddodd dros 70% o'r dysgwyr dderbyn graddau A\*-C. Ar gyfartaledd dros Arfon llwyddodd 97% o'r holl ddysgwyr dderbyn graddau A\*-E.

**Bioleg:** Dros gyfnod treigl o 3 blynedd, mewn pedwar allan o'r chwe ysgol yn Arfon llwyddodd yr holl ddysgwyr i ennill graddau A\*-E. Ar gyfartaledd llwyddodd 25% o'r holl ddysgwyr dderbyn graddau A\*-A, gyda 99% o'r holl ddysgwyr yn derbyn graddau A\*-E. Dros gyfnod treigl o 3 blynedd gwelir amrywiaeth yn y nifer ddaru sefyll y pwnc o un ysgol i'r llall, gydag 81 wedi sefyll arholiadau yn y pwnc mewn un ysgol, a dim ond 8 wedi sefyll arholiad yn y pwnc mewn ysgol arall.

**Cemeg:** Dros gyfnod treigl o 3 blynedd, gwelir amrywiaeth yng nghanlyniadau Cemeg ar draws yr ysgolion yn Arfon, gydag amrywiaeth o 14% i 55% o ddysgwyr yn derbyn graddau A\*-A yn yr ysgolion. Llwyddodd yr holl ddysgwyr mewn pum allan o'r chwe ysgol yn Arfon i gael graddau A\*-E dros gyfnod treigl o 3 blynedd.

**Saesneg:** Dros gyfnod treigl o 3 blynedd, bu i 144 o ddysgwyr yn Arfon sefyll arholiadau Saesneg, gyda 17% o'r rheiny yn derbyn graddau A\*-A. Mewn dwy ysgol bu i lai na 4% o'r dysgwyr dderbyn graddau A\*-A. Er bod holl ddysgwyr yn ysgolion Arfon wedi llwyddo i dderbyn graddau A\*-E, roedd 29% wedi derbyn graddau D-E.

**Ffiseg:** Dros gyfnod treigl ar gyfartaledd, llwyddodd 33% o'r holl ddysgwyr yn Arfon gael graddau A\*-A, a 77% o'r holl ddysgwyr gael graddau A\*-C. Er y llwyddiannau hyn, mae amrywiaeth yng nghanlyniadau'r pwnc yma ar draws ysgolion Arfon.

**Cymraeg:** Dros gyfnod treigl o 3 blynedd, llwyddodd 40% o ddysgwyr mewn un ysgol yn Arfon i dderbyn graddau A\*-A, tra bod 33% o ddysgwyr mewn ysgol arall yn Arfon wedi derbyn graddau D-E. Yn gyffredinol llwyddodd 100% o'r holl ddysgwyr yn ysgolion Arfon dderbyn graddau A\*-E, gyda 78% yn derbyn graddau A\*-C a 22% yn derbyn graddau D-E.



Nid yw tynnu cwrs sy'n tanberfformio neu gwrs nad ydyw yn hyfyw o gynnig yr ysgol honno o reidrwydd yn galluogi'r ysgol i wneud arbedion gan fod staff o bosibl yn gyflogedig ar draws yr ysgol ac yn dysgu mwy nag un pwnc. Yn ogystal, os na fyddai'r ysgol yn cynnig y pwnc ar gyfer dysgwyr byddai rhaid talu ysgol arall i ddarparu'r cwrs ar eu cyfer.

## Sicrhau darpariaeth dwyieithog cynhwysfawr

68. Yn unol â Pholisi Iaith Addysg Gwynedd, ym mwyafrif ysgolion uwchradd Arfon mae'r cyrsiau ôl-16 ar gael yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, ar wahân i Ysgol Friars, lle Saesneg yw cyfrwng iaith y ddarpariaeth ôl-16. Yng ngweddill yr ysgolion uwchradd, o'r dystiolaeth sydd wedi dod i law hyd yma, awgrymir y rhoddir dewis agored i'r dysgwyr ym mha iaith y dymument astudio eu cyrsiau Safon Uwch, gyda nifer yn dewis astudio'r Gwyddorau a Mathemateg drwy gyfrwng y Saesneg, ond gyda pheth defnydd o'r Gymraeg yn y gwersi.
69. O ran darpariaeth Coleg Meirion Dwyfor, safleoedd Pwllheli a Dolgellau, nodwyd bod yr holl bynciau Safon Uwch ar gael yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, gyda chapasiti'r staff yn caniatáu bod 90% o'r cyrsiau ar gael yn ddwyieithog. Nid oes darpariaeth Safon Uwch cyfrwng Cymraeg yng Ngholeg Menai (Bangor) fodd bynnag, gan fod y ddarpariaeth Safon Uwch yno yn gyfyngedig, a rhag tanseilio darpariaeth Gymraeg ysgolion uwchradd Arfon (a Môn).
70. Cydnabyddir bod diffyg adnoddau Cymraeg ar gyfer cyrsiau ôl-16 yn gyffredinol a bod hynny'n rwystr i gyfrwng y ddarpariaeth ac i'r dysgwyr ddewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd hefyd bod rhai cyrff dyfarnu yn Lloegr ac felly nad oes modd astudio rhai cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Barn rhieni, dysgwyr ac arweinwyr am gyfrwng iaith y dysgu

71. Barn y dysgwyr am y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg:

*“Ni chefais gyngor i’w wneud drwy’r Gymraeg ond rwyf yn gwneud fy nghyrsiau drwy’r Gymraeg.”*

*“Dydy’r athrawon ddim yn annog naill ffordd na’r llall heblaw am bynciau mathemategol a gwyddonol ble maen nhw’n ffafrio Saesneg.”*

72. Ymysg y rhesymau dros ddewis dilyn cyrsiau yn Gymraeg mae:

*“Wedi aros yn Gymraeg drwy gydol yr ysgol, ddim yn mynd i newid ffordd o fyw gyda tasgau.”*

*“Drwy’r Gymraeg dwi’n llwyddo orau ond mae diffyg adnoddau Cymraeg.”*

73. Ymysgu y rhesymau dros astudio drwy’r Saesneg mae:

*“Dewisais ddilyn y rhan fwyaf o fy mhynciau yn Saesneg oherwydd mae mwy o adnoddau ar gael ac mae angen gwybod y termau gwyddonol yn Saesneg er mwyn mynd i’r brifysgol. Trafod yn Gymraeg oherwydd dyna sy’n naturiol.”*



## Sicrhau adnoddau priodol

### Sefyllfa ariannol cenedlaethol

74. Mae'r sefydliadau addysg bellach a chweched dosbarth mewn ysgolion yn cael eu cyllido mewn ffyrdd gwahanol. Mae'r colegau yn derbyn eu dyraniad cyllidol yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, gyda dyraniad ar gyfer chweched dosbarth mewn ysgolion yn cael ei ddsbarthu gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yn flynyddol, sydd yna'n trosglwyddo'r cyllid i ysgolion unigol. Ers 2015-16, mae dyraniadau cyllidol ar gyfer colegau addysg bellach a chweched dosbarth wedi eu pennu o dan y Fframwaith Cynllunio ac Ariannu ôl-16 newydd, a ddisodlodd yr hen System Gynllunio ac Ariannu Cenedlaethol (NPFS) blaenorol.

### Sefyllfa cyllidol lleol

75. Mae maint y grant ôl-16 yng Ngwynedd yn amrywio'n sylweddol ar draws yr ysgolion unigol, yn bennaf yn unol â niferoedd dysgwyr Blwyddyn 12/13 a nifer y pynciau y mae pob dysgwr yn eu hastudio – o £294,990 i £848,216. Fel canlyniad, mae'r cyllid yn cael effaith sylweddol ar allu rhai ysgolion i gynnal darpariaeth briodol ac i gynladwyedd cyllidol y chweched dosbarth.
76. Gall yr amrywiaeth yng nghyfanswm niferoedd B12 a B13 ar draws yr ysgolion unigol (rhwng 50 a 206) amharu'n sylweddol ar gynladwyedd cyllidol darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion unigol.

77. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r ganran mae'r gwersi dysgu ôl-16 yn eu cynrychioli fel canran/nifer o'r cyfanswm gwersi ar draws BI7- BI13 (2018/19) ym mhob ysgol uwchradd yn Arfon.

Nifer Dysgwyr a Cwricwlwm a Staffio	YDO	YB	YDN	YF	YT	YSHO
% dysgwyr blwyddyn 12 ac 13 allan o gyfanswm yr ysgol	12%	16%	17%	16%	16%	14%
Nifer dysgwyr BI12 ac 13	55	115	71	206	67	121
Nifer gwersi BI12 ac 13	88	131	99	321	103	176
Nifer cyfanswm gwersi	635	917	610	1,679	535	1,146
% Cwricwlwm a Staffio gwersi ôl-16	<b>13.9%</b>	<b>14.3%</b>	<b>16.2%</b>	<b>19.1%</b>	<b>19.3%</b>	<b>15.4%</b>

78. Roedd cyfartaledd cyfraniad at gwricwlwm a staffio ôl-16 ysgolion uwchradd Arfon yn 16.6%, gydag amrywiaeth o 13.9% i 19.3%. Gallai unrhyw newid yn y nifer pynciau mewnol a/neu yn nifer y gwersi wythnosol gan ysgol arwain at newid arwyddocaol yn y ganran staffio hon ac felly yng nghynnaladwyedd cyllidol y chweched dosbarth.

## Costau cludiant


79. Cyfanswm costau cludiant dysgwyr i gyrsiau allanol yw £92,458 sydd yn cynrychioli 2.9% allan o wariant ysgolion ar gyfer eu chweched dosbarth. Mae hyn yn swm eithaf sylweddol o gofio bod y ganran sydd yn mynychu cyrsiau allanol wedi ei gyfyngu ar raddfa amrywiol gan yr ysgolion unigol.

Nifer / % Disgyblion Sydd yn Mynychu Cyrsiau Allanol	ARFON	
	Nifer	%
Mynychu 0 Cwrs Allanol	471	74.2%
Mynychu 1 Cwrs Allanol	146	23.0%
Mynychu 2 Cwrs Allanol	18	2.8%
Mynychu 3 Cwrs Allanol	0	0.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>635</b>	<b>100.0%</b>


80. Mae nifer y dysgwyr sydd yn mynychu cyrsiau allanol wedi ei ffrwyno gan ffactorau megis canllawiau ysgolion unigol ar ganiatáu un pwnc allanol yn unig y disgybl, ymarferoldeb teithio yn gymharol bell o ambell ysgol i rai o'r cyrsiau allanol, cyfrwng y cyrsiau allanol, nifer llai o gyrsiau mewnol ar gael mewn rhai ysgolion, ayyb. Mae hynny wedi arwain at dri chwarter disgyblion B12/13 Arfon ddim ond yn dewis cyfuniad o bynciau mewnol – mae hynny'n golygu yn ymarferol bod eu gwir ddewis o gyrsiau yn llawer llai na'r cyfanswm o dros 30 cwrs sydd yn cael eu darparu drwy gydweithio.

**Tabl costau cludiant blynyddol 2015-19**

Blwyddyn	£	Nifer y dysgwyr
2016-17	£77,836.98	258
2017-18	£62,950.95	248
2018-19	£87,284.34	196
<b>Cyfanswm</b>	<b>£228, 072.27</b>	<b>702</b>



81. Mae'r trefniadau cludiant ar hyn o bryd yn caniatáu i'r bartneriaeth addysg ôl-16 ymdopi ag amserlenni trawstoriad o bynciau mewn sawl canolfan addysg. Mae hyn felly'n golygu bod trefniadau cludiant eithaf 'penodedig' yn gallu cael eu llunio ar gyfer teithiau ac anghenion pob dysgwr.
82. Er y llwyddiant i gasglu a chludo tua 234 o ddysgwyr o nifer o wahanol sefydliadau addysg mewn blwyddyn, mae dros 20 o siwrneau yn cael eu canslo yn fisol oherwydd absenoldebau dysgwyr a gwersi yn cael eu canslo am wahanol resymau. Mae hyn yn ei dro yn cael effaith ar awydd cwmnïau tacsis lleol i ymgymryd â'r gwaith, sydd yn cyfyngu'r farchnad ac yn cynyddu costau. Ffactor arall sy'n effeithio ar y broses dendro am y gwaith yw'r cwmp yn angen y dysgwyr i gael eu cludo i wersi yn ystod tymor yr haf bob blwyddyn.
83. Mae unrhyw newid i gynnig darpariaeth addysg sefydliadau addysg unigol yn dueddol o gael effaith ar gostau cludiant ysgol arall. Er enghraifft, os yw ysgol yn cynnig pwnc yn fewnol yn hytrach na danfon eu dysgwyr i ysgol arall, byddai hyn yn golygu costau uwch i'r ysgolion sydd dal angen cludiant i'w dysgwyr fynychu cwrs mewn sefydliad arall.



## Barn rhieni, dysgwyr ac arweinwyr am y teithio i sefydliadau addysg arall

84. Dywedodd nifer helaeth o aelodau'r grwpiau ffocws bod digon o ddewis o gyrsiau ar gael iddynt er bod rhai sylwadau nad oes digon o ddewis o fewn yr ysgolion. Mae mwyafrif y sylwadau yn ymwneud ag amser teithio, lleoliadau a materion ymarferol ynghlwm â hynny.

***“Un gwendid o ganlyniad i'r teithio yw bod amser gweithio yn cael ei lyncu gan deithio mewn tacsï - does dim cyfle i fwrw ati yn syth wedi gwera a dim cyfle i feithrin perthynas gyda'r athro a chael mynediad i gefnogaeth y tu allan i wersi. e.e. cwrs Dylunio a Thechnoleg yn Nyffryn Nantlle - byddai'n dda medru gwario mwy o amser yn yr ysgol i weithio ar agweddau ymarferol a defnyddio'r adnoddau yno, ond rhaid dal tacsï!”***

Ar y llaw arall mae rhai dysgwyr yn dweud –

***“Roedd yr amser teithio i gyd yn rhesymol ac yn ddim mwy na 30 munud bob ffordd.”***

85. Mae arweinwyr, dysgwyr a rhai rhieni yn teimlo yn gyffredinol bod digon o ddewis o gyrsiau ar gael o fewn pellter teithio rhesymol. Mae rhai dysgwyr wedi peidio dewis pwnc penodol oherwydd yr angen i deithio i leoliad arall. Mae ambell ddisgybl wedi symud ysgol ar gyfer cyrsiau ôl-16 er mwyn osgoi teithio a gallu dilyn eu holl bynciau mewn un lleoliad.
86. Caiff teithio i leoliad arall ei weld fel gwastraff amser a cholli amser dysgu gan benaethiaid a dysgwyr.





87. Y nod ar gyfer ein huchelgais i ddatblygu cyfundrefn addysg ôl-16 newydd yn y sir yw sicrhau tegwch a chefnogaeth gref i bob dysgwr yng Ngwynedd i lwyddo a gwireddu eu potensial. Y weledigaeth sydd wedi ei leisio yn y ddogfen hon yw sicrhau tegwch yn y dewis o gyrsiau gan ddarparu profiadau dysgu hyblyg a chynaliadwy o ansawdd uchel. Fel canlyniad, bydd ein plant yn datblygu fel dysgwyr annibynnol gyda'r wybodaeth a'r sgiliau cywir i symud ymlaen. Bydd darparu ar gyfer trosglwyddiad effeithiol i addysg ôl-16, gan ddatblygu a chynnal mynediad at ystod eang o lwybrau priodol ar gyfer y dysgwr unigol yn rhan bwysig o'r dasg i sicrhau bod y ddarpariaeth yn esblygu ac yn cyfarch anghenion newydd economi'r dyfodol.
88. Mae'r trosolwg hwn yn ceisio crynhoi sefyllfa bresennol darpariaeth addysg ôl-16 ysgolion uwchradd y sir trwy drefn gynllunio'r Consortiwm, gan amlygu rhinweddau'r drefn honno ac adnabod yr ystyriaethau angenrheidiol er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig y ddarpariaeth a'r safonau gorau posibl i'n dysgwyr.
89. Felly, ar sail yr holl ffactorau hyn, dengys ei fod yn amserol i edrych o'r newydd ar y cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth, yn arbennig er mwyn cyfarch:
- canlyniadau ac ansawdd y ddarpariaeth sy'n amrywio gan arwain at ddiffyg cysondeb yn y cyfleoedd a'r profiadau a roddir i'r dysgwyr ar draws y sir;
  - grwpiau dysgu bychain mewn nifer o bynciau a diffyg cyfoedion i gyfoethogi'r profiad dysgu, i ba raddau y sicrheir gwir gynnig o 30 o gyrsiau yn sgil cyfyngiadau ymarferol a'r ffrwyno a wneir i'r cynnig gan ysgolion unigol;
  - heriau yn ymwneud â theithio yn cynnwys costau a'r amser addysgol sydd yn cael ei golli; yr angen i sicrhau cyfleoedd i ddysgwyr fanteisio ar y ddarpariaeth o gyrsiau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.
90. I ddechrau ar y gwaith o gynllunio ar gyfer y datblygiadau cenedlaethol yn ymwneud â'r gyfundrefn addysg ôl-16, bwriedir trefnu trafodaethau lleol gyda chynrychiolaeth o ran-ddeiliaid darpariaethau ôl-16 Arfon yn ystod 2020. Bydd cyfle i drafod darpariaeth ardal Meirionnydd o dan brosiect sydd eisoes wedi'i adnabod. Disgwylir i'r trafodaethau gynnwys sut y byddwn yn:
- cefnogi darparwyr i sicrhau addysg gyfoes, gynaliadwy o'r safon uchaf i ddysgwyr,
  - sicrhau cysondeb yn y dewis a'r profiadau dysgu i bobl ifanc,
  - paratoi dysgwyr ar gyfer y cyfleoedd fydd yn deillio o economi'r dyfodol.
  - paratoi cynllun busnes ar gyfer gwella darpariaeth addysg ôl-16 trwy gais at Fand B – Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif hyd at £18m gyda 65% o'r gost wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru
91. Bydd cyfarfodydd a gweithgareddau yn ceisio canfod y farn yn lleol a datblygu ac adnabod datrysiadau posibl fyddai'n ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ddarpariaeth ôl-16 yn Arfon. Bwriedir trefnu trafodaethau gyda chynrychiolaeth o ran-ddeiliaid berthnasol rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020.
- Disgwylir wedyn i adroddiad gael ei baratoi ar gyfer Cabinet Cyngor Gwynedd yn nhymer yr Hydref 2020 yn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r trafodaethau.

Mae pob llun neu graffeg a ddefnyddir yn ran o gasgliadau gwefanau *'Freepik.com'*, *'pexels.com,'* ac *'unsplash.com'*.

Maent i gyd yn luniau categori 'hawl rhydd' i'w defnyddio.  
Tud. 58

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

## I Manylion

### I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Addysg Ôl-16

### I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Ein gweledigaeth yw "Sicrhau tegwch a chefnogaeth gref i bob dysgwr ôl-16 yng Ngwynedd i lwyddo a gwireddu eu potensial"

### I.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Garem Jackson, Pennaeth Addysg

### I.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Fersiwn 2 – 26 Chwefror 2020

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Wrth i'r gwaith ddatblygu, rhagwelir y bydd angen gweithio gyda'r partneriaid a chynrychiolaeth o ran-ddeiliaid darpariaeth ôl-16 Arfon, megis llywodraethwyr, penaethiaid, athrawon a dysgwyr.

## 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig?

Comisiynwyd cwmni *laith Cyf* i gyflawni gwaith ymchwil ar ran yr Adran, gan gynnal cyfweiliadau gyda phenaethiaid, grwpiau ffocws gyda dysgwyr, a chasglu barn rhieni a dysgwyr drwy gyfrwng holiaduron, er mwyn cyfoethogi a dilysu'r sylfaen dystiolaeth a gasglwyd o ymchwil pen-desg. Cyflawnwyd y gwaith rhwng Rhagfyr 2018 ac Ebrill 2019.

Mae copi o'r adroddiad *laith Cyf* ar gael ar wefan Moderneiddio Addysg  
[www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](http://www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Lluniwyd adroddiad er mwyn cyflwyno'r ymchwil a gasglwyd fel rhan o waith maes laith Cyf - mae'r adroddiad hon i'w chael ar wefan Moderneiddio Addysg.  
[www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](http://www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Yn Ionawr 2018, cyflwynwyd adroddiad gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi oedd yn nodi'r bwriad i gynnal asesiad o'r ddarpariaeth bresennol gan nodi'r posibilrwydd y byddai canfyddiadau'r asesiad yn sail i drafodaeth bellach ar lwybr y ddarpariaeth ôl-16 yn y sir i'r dyfodol.

Comisiynwyd cwmni *laith Cyf* i gyflawni gwaith ymchwil ar ran yr Adran, gan gynnal cyfweiliadau gyda phenaethiaid, grwpiau ffocws gyda dysgwyr, a chasglu barn rhieni a dysgwyr drwy gyfrwng holiaduron, er mwyn cyfoethogi a dilysu'r sylfaen dystiolaeth a gasglwyd o ymchwil pen-desg.

Yn ogystal, lluniwyd adroddiad "Trosolwg Addysg Ôl-16" ymhle cyflwynir a manylir ar:

- Y weledigaeth ar gyfer myfyrwyr ôl-16 yng Ngwynedd
- Yr achos dros newid
- Y ddarpariaeth bresennol yng Ngwynedd
- Addysg ôl-16 yn Arfon
- Cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth

Gweler isod linc ar gyfer yr adroddiad Trosolwg Addysg Ôl-16 (Atodiad 1):  
[www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg](http://www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Dim ar y pwynt yma, ond efallai y daw bylchau'n amlwg wrth i gyfeiriad y gwaith ddod yn fwy amlwg.

### 3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	-	Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma.
Yr iaith Gymraeg	-	Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma.
Anabledd	-	Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma.
Rhyw	-	Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma.
Oedran	Positif	Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar ddarpariaeth ar gyfer yr oedran ôl-16 – o ganlyniad, beth bynnag fydd cyfeiriad y gwaith, mae'n debygol o gael effaith ar oeddrannau 16-18.
Cyfeiriadedd rhywiol	-	Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma.
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	-	Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma.
Ailbennu rhywedd	-	Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma.
Beichiogrwydd a mamolaeth	-	Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma.
Priodas a phartneriaeth sifil	-	Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma.

\* I'w ddileu yn ôl yr angen

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma.

<b>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</b>	Nac ydi	Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. Ond mi fyddwn yn sicrhau beth bynnag fydd cyfeiriad y gwaith ein bod yn hybu a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal.
<b>Meithrin perthnasau da</b>	Nac ydi	Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. Ond mi fyddwn yn sicrhau beth bynnag fydd cyfeiriad y gwaith ein bod yn hyrwyddo meithrin perthnasau da.

\* I'w ddileu yn ôl yr angen

#### 4) Dadansoddi'r canlyniadau

##### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Cynamserol i asesu unrhyw effaith ar gydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol.

##### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Cynamserol i asesu unrhyw effaith ar gydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol.

##### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	-
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	-
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	-
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	-

##### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Amherthnasol.

##### 4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Amherthnasol.

#### 5) Monitro

##### 5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd wrth i'r gwaith ddatblygu.

# Eitem 8

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>10 Mawrth 2020</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cynghorydd Nia Jeffreys</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Delyth G Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb</b>
<b>Rhif Ffôn Cyswllt:</b>	<b>01286 679708</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24</b>

#### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r ddogfen

#### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Pwrpas y Cynllun ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a phobl sydd heb y nodweddion hynny yn unol â'r ddyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a dymuniad y Cabinet.

#### 3 CYFLWYNIAD

Dyma drydydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor. Cyhoeddwyd y cyntaf yn 2012 a'r un canlynol ym mis Mawrth 2016. Mae Cynllun 2020-24 yn adeiladu ar y cynlluniau blaenorol hyn gan adnabod fod dal gwaith craidd i'w wneud i sicrhau cydraddoldeb i bobl gyda'r 9 nodwedd a ddiogelir dan y Ddeddf.

Rhwng Tachwedd 2019 a dechrau Chwefror 2020, yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet, ymgysylltwyd ar gynnwys arfaethedig y Cynllun. Derbyniwyd 190 ymateb a'r rhan helaethaf ohonynt yn gefnogol i'r amcanion. Hefyd bu cyfarfodydd gyda'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb a dau grŵp hunan-advocaciaeth ar gyfer pobl hefo amhariad dysgu. Mae mwy o wybodaeth am yr ymatebion i'w weld yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb.

Ar sail y sylwadau a dderbyniwyd rydym wedi addasu'r Cynllun, geiriad dau Amcan a'r Cynllun Gweithredu. Credwn fod y newidiadau hyn yn gwella a chryfhau'r Cynllun fel ein bod yn wir yn gallu symud tuag at sicrhau tegwch i bawb a gwreiddio'r syniad o gydraddoldeb o fewn gwaith y Cyngor.

Mae gwella'r wybodaeth sydd gennym gan ac am bobl gyda nodweddion gwarchoddedig yn bwysig i ni fel Cyngor gyda phrosiect "Sicrhau Tegwch i Bawb" wedi ei gynnwys yn y fersiwn newydd o Gynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 (fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei fabwysiadu ar y 5ed o



Fawrth). Bydd y deilliannau a chanfyddiadau'r prosiect hyn yn sylfaen i'r holl waith sydd i ddod yn y maes i'r dyfodol.

#### 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae'r Cynllun yma wedi ei baratoi yn unol â'r ddyletswydd i gynhyrchu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Rydym wedi cynnwys cynrychiolwyr pobl hefo nodweddion cydraddoldeb penodol o'r cychwyn. Rydym hefyd wedi ymgysylltu gyda'r cyhoedd a gwella'r Cynllun ar sail eu sylwadau gan weld fod y rhan helaethaf o'r ymatebwyr yn cefnogi trywydd y Cynllun. Credir felly fod hwn yn gynllun cryf fydd yn arwain at wella tegwch tuag at bob un o bobl Gwynedd.

#### 5 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Rydym wedi cynnwys y Grŵp Craidd Cydraddoldeb o gychwyn y broses. Byddwn yn ymgysylltu yn eang os fydd y Cynllun drafft yn cael ei gymeradwyo.

Mae Aseiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei atodi. Mae ei ganfyddiadau yn cefnogi y cyfeiriad ac nid yw wedi adnabod unrhyw effeithiau negyddol o arwyddocâd.

### **Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

#### **i) Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir i fabwysiadu'r Cynllun Cydraddoldeb ar gyfer 2020-2024.

Rwyf yn gyfforddus mai cymharol isel fydd cost y cynlluniau gweithredu. Disgwyliaf y bydd modd cwrdd â'r costau hyn o fewn cyllidebau refeniw cyfredol ond os ddim, bydd angen gwneud cais am gyllid ychwanegol trwy'r trefniadau arferol.




#### **ii) Swyddog Priodoldeb**

Yn unol â dyletswyddau statudol y Cyngor dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb mae angen i'r Cyngor adolygu ei Amcanion Cydraddoldeb o leiaf pob blynedd. Mae cynnal proses ymgysylltu yn cyfarch gofynion ac egwyddorion statudol ynglŷn a chynnal adolygiad . Mae'n bwysig fod y Cabinet yn bodloni ei hyn fod yr hyn a argymhellir yn cynrychioli ymateb priodol i'r ymgynghoriad Nid oes gennyf unrhyw beth pellach i'w ychwanegu o ran priodoldeb.



# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2020-24



-  @CyngorGwyneddCouncil
-  @CyngorGwynedd
-  01766 771000
-  [www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)



# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2020-24

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd ar gyfer y pedair blynedd nesaf.

Ein nod ydi sicrhau fod pob gwasanaeth rydym yn ei ddarparu ar gael i holl bobl Gwynedd - a hynny mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw ac sy'n sicrhau chwarae teg i holl bobl y sir. Mae gwireddu hyn yn gwbl greiddiol i weledigaeth y deg ohonom sydd yn Aelodau o Gabinet y Cyngor.

Ein bwriad ydi gwireddu hyn trwy weithredu ar bum prif amcan fydd yn sicrhau fod cydraddoldeb wrth wraidd holl waith y Cyngor, a bod pob un o'n staff yn deall pwysigrwydd y maes.

Roedd mewnbyn Grŵp Craidd Cydraddoldeb Gwynedd yn greiddiol i'r gwaith o baratoi'r cynllun hwn yn ogystal â'r aelodau o'r cyhoedd gymerodd ran yn yr ymgynghoriad ar y cynllun drafft. Mae barn a sylwadau pobl wedi eu defnyddio i wella a chryfhau'r cynllun ac mae ein dyled yn fawr i bawb sydd wedi cyfrannu i'r broses hon, diolch i bob un ohonoch.

Mae hwn yn gynllun uchelgeisiol ac ymarferol a fydd yn rhoi pob un o bobl Gwynedd yn ganolog i'r hyn mae'r Cyngor yn gweithio i'w gyflawni.



Y Cynghorydd Nia Jeffreys,  
Aelod Cabinet Cefnogaeth Corfforaethol  
Cyngor Gwynedd

---

Os ydych chi angen y ddogfen yma mewn fformat neu iaith gwahanol cysylltwch hefo'r Swyddog Cydraddoldeb ar [cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru](mailto:cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru) neu 01286 679708.

---





## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus iawn i sicrhau fod cydraddoldeb yn cael ei wreiddio'n ddwfn o fewn gwaith y Cyngor er mwyn gwella ein gwasanaethau ar gyfer pawb o bobl Gwynedd.
- 1.2 Oherwydd bod gan bob un person o leiaf 5 nodwedd mae'r holl o waith y Cyngor yn ymwneud â phobl gyda nodweddion gwarchoddedig. Ond mae rhai ohonynt yn delio'n arbennig hefo nodweddion gwarchoddedig penodol, er enghraifft yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant (nodweddion oedran ac anabledd), yr Adran Plant a Theuluoedd (oedran, beichiogrwydd a mamolaeth) a'r Adran Addysg (oedran). Wedi dweud hynny, mae'n bwysig nodi fod gennym ni i gyd nodweddion sy'n cael eu gwarchod dan y ddeddf ac felly mae angen gwaith pellach i sicrhau fod pob aelod o staff a phob aelod etholedig yn llwyr ymwybodol o sut i sicrhau tegwch i bawb drwy leihau anghydraddoldeb.
- 1.3 Un o'r ffyrdd mae Cyngor Gwynedd yn gwneud hynny ydi creu Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n bodloni dyletswyddau'r sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf).
- 1.4 Mae'r Ddeddf wedi ei chynllunio i leihau anghydraddoldeb rhwng grwpiau penodol drwy ofyn i gyrrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:
  - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
  - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.

- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.

Dyma'r nodweddion sydd wedi eu gwarchod o dan y Ddeddf (nodweddion gwarchoddedig):

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Priodas a phartneriaeth sifil

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd. Bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2020-24, gwaith dydd i ddydd y Cyngor a'r blaenoriaethau gwella sydd wedi eu hadnabod yng Nghynllun y Cyngor 2018-23 yn cyfrannu tuag at ein hamcanion llesiant ([Datganiad Llesiant Cyngor Gwynedd 2019-20](#)). Wrth gyflawni ein gwaith fe fyddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu gynaliadwy sydd wedi eu mabwysiadu'n genedlaethol sef hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys. Bydd y 2 egwyddor ychwanegol a fabwysiadwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, sef y Gymraeg a Chydraddoldeb, hefyd yn ganolog i'n gwaith.





## 2. Sut mae'r nodweddion hyn yn berthnasol i Wynedd?

- 2.1** Petaem ni'n ystyried Gwynedd fel pentref o 100 o bobl yn unig, byddai eu hanner yn ferched, gyda 23 o'r 100 o bobl mewn oed pensiwn (ar sail 65 oed a throsodd), 17 o bobl ifanc dan 16 oed a 4 o bobl o gefndir du neu leiafrif ethnig. Byddai gan 21 o unigolion salwch neu amhariad hirdymor sy'n eu cyfyngu, a 12 aelwyd yn ennill llai na £10,000 y flwyddyn gyda 9 o'r 60 sydd mewn oed gweithio'n hawlio budd-daliadau allan-o-waith. Byddai 59 o bobl yn Gristnogion, 30 o bobl heb unrhyw grefydd a 2 o bobl yn dilyn crefydd arall.
- 2.2** Nid yw iaith (o unrhyw fath) yn nodwedd sydd wedi ei gwarchod dan y Ddeddf Cydraddoldeb, ond credwn bod iaith yn ystyriaeth bwysig ac yn fater o bwys yn nhermau Hawliau Dynol. Gan bod 65% o boblogaeth Gwynedd yn siaradwyr Cymraeg, mae'r Gymraeg wedi cael ei hadnabod fel blaenoriaeth yn nhermau llesiant trigolion y sir. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg a hefyd yn gofyn i ni weithredu mewn ffordd sydd yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

Wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, byddwn yn sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu gwarchod a'u hystyried ochr yn ochr â nodweddion gwarchoddedig y Ddeddf Cydraddoldeb, a hynny er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth yn ateb angen y boblogaeth leol o safbwynt ieithyddol.



### 3. Creu Cynllun Cydraddoldeb 2020-24

- 3.1** Mae Cynllun Cydraddoldeb 2020-2024 yn adeiladu ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 ac yn ymdrechu i warchod pob un o'r nodweddion uchod drwy hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth er budd ein staff a phobl Gwynedd. Mae'n nodi'r meysydd allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnynt dros y pedair blynedd nesaf er mwyn gwella ein gwasanaethau i drigolion Gwynedd ac yn sicrhau fod ein trefniadau mewnol ni'n hunain yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ymysg ein gweithlu.
- 3.2** Mae'r Cyngor yn credu fod y Cynllun yma'n un uchelgeisiol. Wedi dweud hynny dylid cofio fod hi'n parhau'n gyfnod anodd yn ariannol i'r Cyngor ac nid ydym eisiau cynnwys unrhyw gam gweithredu na allwn wneud cynnydd arno. Hefyd mae'r Cynllun yma'n cael ei lunio ar adeg o ansicrwydd mawr ac mae'n bwysig sicrhau fod y pethau sylfaenol yn cael eu gwneud yn iawn. Er mwyn gwneud hynny rydym wedi cymryd cam yn ôl i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y peth iawn.
- 3.3** Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr na fyddai unrhyw newidiadau y gall y Cyngor ei wneud i wasanaethau effeithio ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn fwy na gweddill y gymdeithas. Gall hyn olygu trin pobl hefo un nodwedd yn wahanol i bobl sydd heb y nodwedd hynny e.e. darparu dogfennau awdio at gyfer pobl ddall. Wrth wneud unrhyw newid, mae'n angenrheidiol i ni gynnwys llais y bobl hynny wrth wneud penderfyniadau trwy ymgynghori a chasglu barn.



- 3.4 Er mwyn gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig, datblygwyd Grŵp Craidd Cydraddoldeb yn 2018. Mae'r Grŵp yma yn cynnwys aelodau o grwpiau eraill sy'n cynrychioli pobl gyda nodweddion gwarchoddedig, ac mae'r Grŵp wedi bod yn rhan o'r gwaith o greu'r Cynllun newydd hwn o'r dechrau. Ceir hefyd fforymau a phartneriaethau eraill sy'n gwneud gwaith ehangach megis y Cyngor Pobl Hŷn, ac mae fforymau o'r fath yn hollbwysig er mwyn rhoi mewnbwn a chyngor ar faterion cydraddoldeb ac i ddadansoddi effaith penderfyniadau ar grwpiau penodol o bobl. Rydym hefyd wedi cynnal ymarferiad ymgysylltu â Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru ar y meysydd rydym yn cydweithio arnynt gyfer gogledd Cymru. Codwyd nifer o faterion gweithredol a oedd yn berthnasol i Wynedd a byddwn yn rhoi sylw addas i'r rhain dros gyfnod y Cynllun hwn.
- 3.5 Yn ogystal ag ymgysylltu, rydym wedi rhoi ystyriaeth lawn i ddata perthnasol wrth lunio'r Cynllun, er enghraifft y data gwerthfawr ar gydraddoldeb yng Nghymru a gyflwynir yn adroddiad cyflwr-y-genedl diweddaraf y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ['A yw Cymru'n Decach? 2018'](#) ac adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ymateb Awdurdodau Cymru i'r Ddyletswydd Gyffredinol. Rydym hefyd wedi casglu dogfen o wybodaeth ranbarthol sy'n cynnwys gwybodaeth ar Wynedd.





## 4. Cyfnod y Cynllun blaenorol (2016-2020)

- 4.1 Roedd [Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2016-20](#) wedi adnabod amcanion hirdymor er mwyn gwella ein gwasanaeth i drigolion Gwynedd sy'n rhannu'r nodweddion gwarchoddedig, ac i wella cyfranogiad a chyfleoedd i'n staff. Rydym yn falch o ddweud ein bod wedi cyflawni sawl pwynt gweithredu yn ystod y 4 blynedd.
- 4.2 Credwn fod sefydlu'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb, a'r ffaith fod llais pobl gyda'r nodweddion gwarchoddedig gwahanol yn cael ei glywed am wella ein gwasanaethau. Felly hefyd gyda threfniadau asesu effaith cydraddoldeb - gwelir enghraifft o hyn gyda threfniadau casglu gwastraff ac ailgylchu ble adnabuwyd fod biniau'n cael eu gadael ar y strydoedd yn achosi problemau i bobl anabl.
- 4.3 Yn ychwanegol cwblhawyd rhaglen o waith i greu'r amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn Aelod Etholedig. Un o'r pethau a adnabuwyd oedd nad oedd gan bobl ddigon o wybodaeth am y gefnogaeth oedd ar gael i ferched fel Aelodau Etholedig, ac felly darparwyd yr wybodaeth.
- 4.4 Paratowyd holiadur hefyd er mwyn monitro nodweddion gwarchoddedig ein staff fydd, unwaith fydd digon o bobl wedi ei gwblhau, yn ein galluogi i adnabod beth yw gwneuthuriad ein staff. Wedyn gallwn weld os oes unrhyw beth yn nadu pobl hefo nodweddion penodol rhag ymgeisio am swyddi.

- 4.5 Bydd dadansoddiad llawn o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y 4 blynedd, yn cael ei gyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol 2019-20.
- 4.6 Fel y dywedwyd eisoes, roedd yr amcanion yn rai hirdymor ac felly mae llawer o waith at ôl i'w wneud. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y gwaith fod nifer o bynciau o'r Cynllun diwethaf yn cael ei hadlewyrchu yn yr amcanion newydd.
- 4.7 Rhaid cofio fod llawer o waith y Cyngor yn arbennig ar gyfer pobl â nodweddion gwarchoddedig penodol yn arbennig yn yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant, yr Adran Plant a Theuluoedd, a'r Adran Addysg fel y nodwyd uchod. Mae'r Cyngor wedi gwarchod yr Adrannau hyn mewn amser o gynni, gan gymryd i ystyriaeth ymgyngoriad gyda'r cyhoedd. Mae Adrannau eraill o fewn y Cyngor hefyd wedi gwneud pethau mewn ymateb i anghenion nodweddion gwarchoddedig penodol fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd e.e. sefydlu adrannau LHDT (Lesbiaid, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol) yn llyfrgelloedd Bangor a Chaernarfon er mwyn ei gwneud yn haws i'w canfod a chodi eu proffil. Hefyd, rydym wedi cadw hyd at 63 o doiledau cyhoeddus ar agor gyda chymorth Cyngorau Tref a Chymuned a phartneriaid eraill – bydd hyn yn bwysig iawn i alluogi i bobl hŷn â'r rhai â chyflyrau arbennig i fod yn rhan o'u cymuned. Gellir gweld yr holl waith mae'r Cyngor yn ei wneud drwy edrych ar Gynllun y Cyngor 2018-23.






## 5. Dyletswyddau Ychwanegol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

- 5.1 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswyddau arbennig ar fudiadau sector cyhoeddus.
- 5.2 Mae yna ddyletswyddau cyffredinol sy'n gofyn i ni:
- a) Ddiogelu rhag unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth.
  - b) Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a rhai sydd ddim yn ei rannu.
  - c) Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r Cyngor eisoes yn edrych i gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn drwy e.e. yr Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb rydym yn eu gwneud ar ein polisiau a'n gweithdrefnau, dathlu diwrnodau/misoedd amrywiaeth fel Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl a Mis Hanes LHDT (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol) a thrwy waith ein Swyddogion Cydlyniant Cymunedol sy'n trefnu digwyddiadau o fewn y cymunedau.

Credwn mai'r ffordd gorau i ni wella ein cydymffurfiaeth yn ystod y pedair blynedd nesaf yw drwy gasglu gwybodaeth, mynd yn ôl at y pethau sylfaenol ac edrych ar ddiwylliant y cyngor. Ar ôl gwneud hynny bydd yn bosib i ni symud ymlaen

- 5.3** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi dyletswyddau penodol ychwanegol ar fudiadau sector cyhoeddus gan gynnwys y materion isod.
- 5.4** Mae gennym ddyletswydd i baratoi Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb, sy'n broses o asesu sut y mae'n gwasanaethau a'n polisiâu yn cael effaith ar wahanol bobl, yn enwedig wrth eu newid neu greu rhai o'r newydd. Mae'r Cabinet yn ystyried Aseidiadau Effaith ar bob mater perthnasol er mwyn eu helpu gyda'r broses benderfynu, gan gynnwys penderfyniadau ariannol. Mae hyn yn rhoi gwell gwybodaeth iddynt o sut fydd eu penderfyniad yn effeithio ar bobl â nodweddion gwarchoddedig - a fydd yn arwain at well penderfyniadau.
- 5.5** Mae'n bwysig gwneud Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar faterion sydd ddim yn mynd i'r Cabinet hefyd. Mae'n deg dweud bod cynnydd wedi'i wneud yn y nifer sydd wedi'u cwblhau ers dechrau'r Cynllun yn 2016. Fodd bynnag, mae angen gwella'r broses yma ymhellach, ac mae gennym Amcan yn y Cynllun Gweithredu isod i sicrhau hynny.
- 5.6** Mae dyletswydd arnom wrth gaffael i roi sylw dyledus i gynnwys ystyriaethau cydraddoldeb. Yn ychwanegol dylid ystyried a fyddai'n briodol i nodi amodau cydraddoldeb yn ymwneud â pherfformiad y contract. Mae'r Cyngor wrthi'n sefydlu system i roi sylw i hyn a bydd y gwaith yma yn mynd rhagddo yn ystod y cyfnod i ddod.
- 5.7** Er mwyn diwallu ein hanghenion monitro byddwn yn adolygu datblygiad elfennau'r Cynllun yn gyson dros y pedair blynedd drwy ein trefniadau herio perfformiad mewnol a bydd y prosiectau uchod yn derbyn sylw gan yr Aelod Cabinet perthnasol.
- 5.8** Hefyd, yn fuan ym mhob blwyddyn ariannol byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol fydd yn pwysu a mesur y cynnydd a wnaed ar y Cynllun yn ei gyfarwydd yn ystod y flwyddyn flaenorol, yn arbennig y Cynllun Gweithredu. Ar gychwyn y Cynllun yma byddwn yn cymryd cam yn ôl gan fod pwynt gweithredu ym mhob amcan sy'n sôn am gasglu tystiolaeth, yn arbennig drwy ymgysylltiad. Bydd gennym wedyn well ddealltwriaeth o beth ddylem wneud i wella bywydau pobl Gwynedd sydd â nodweddion gwarchoddedig penodol. Mae disgwyl felly y byddwn yn gallu ychwanegu mwy o fanylder i'r Cynllun Gweithredu yn ystod y blynyddoedd i ddod.
- 5.9** Byddwn yn ogystal yn cyhoeddi Cynllun o'r newydd bob pedair blynedd. Mae'r cynlluniau a'r adroddiadau blynyddol ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â'r Swyddog Polisi a Chydraddoldeb.



## 6. Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24

- 6.1** Er bod Cynllun 2020-24 yn adeiladu ar yr un blaenorol, rydym wedi gweld cyfle yma hefyd i newid ein ffordd o feddwl. Ein bwriad yw sicrhau fod cydraddoldeb yn gwreiddio'n llawn yn y Cyngor i sicrhau ei fod yn rhan naturiol o'n gwaith ar draws y sefydliad ac nad yw'n eistedd fel prosiect ar wahân.
- 6.2** Mae'r Cynllun Gweithredu isod yn amlinellu **sut** y byddwn am fwrw ati i wireddu ein hamcan o greu Gwynedd sy'n fwy cyfartal. Ein bwriad wrth gyflwyno'r Amcanion â'r Cynllun Gweithredu yw canolbwyntio ar sicrhau fod y trefniadau i ystyried nodweddion gwarchoddedig wedi eu gwreiddio, gyda'r bwriad o arwain at welliant yn y ffordd yr ydym yn gwneud pethau. Mae'r Cynllun Gweithredu felly'n canolbwyntio ar newid diwylliant mewnol y Cyngor er mwyn arwain at welliant mewn gwasanaethau, yn hytrach nag edrych ar faterion gweithredol yn unigol, er mwyn wedyn gwella gwasanaethau i bobl Gwynedd. Mae disgwyl i bob amcan gyfarch anghenion pob nodwedd.

Rydym wedi adnabod dau brif faes gwaith, gweler 6.3 a 6.4 isod.

### **6.3 Gwella ein systemau mewnol er mwyn i bawb o bobl Gwynedd dderbyn gwasanaethau priodol sy'n ateb eu gofynion**

Yn yr ymgysylltiad cychwynnol roedd y Grŵp Craidd Cydraddoldeb wedi tynnu sylw at nifer o faterion gweithredol, ac mae rhai wedi eu codi yn ystod yr ymgynghoriad hefyd. Credwn mai'r ffordd orau o roi sylw dyledus i'r rhain, ynghyd â'r materion a godwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn adroddiad ar ymateb Awdurdodau Cymru i Ddyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 yw edrych ar ein systemau craidd yn eu cyfanrwydd.

Yn Amcanion 1, 2 a 3 byddwn felly'n gwella ein hyfforddiant, asesu effaith yn fwy effeithiol a chasglu barn er mwyn deall yn iawn y rhwystrau sy'n wynebu pobl Gwynedd. Bydd yr wybodaeth yma'n caniatáu i ni greu cynlluniau gweithredu pellach, mwy manwl ar y 4 amcan arall yn ystod y 4 blynedd.

## 6.4 Gwella sefyllfa economaidd pobl gyda nodweddion gwarchoddedig yng Ngwynedd

Mae'r Cyngor yn croesawu fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cynnwys y ddyletswydd gymdeithasol economaidd fel rhan weithredol o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel mae'n cael ei weithredu yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth o "[A yw Cymrun Decach?](#)" yn dangos yn glir fod rhai pobl gyda nodweddion gwarchoddedig yn ystadegol yn fwy tueddol o fod yn dlotach na gweddill cymdeithas.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, yn dilyn cyhoeddiad eu Hasesiadau Llesiant, wedi adnabod tlodi fel blaenoriaeth. Nid yw'r data ar amddifadedd materol yn ôl nodwedd warchoddedig ar gael yn lleol yn anffodus. Wedi dweud hynny mae tystiolaeth arall ar gael sy'n rhoi syniad i ni o'r sefyllfa.

Mae'r nifer o bobl sydd allan o waith yn uchel yng Ngwynedd (5.5%) ond yn ddiddorol mae'r nifer o ddynion sydd allan o waith yn sylweddol is (4.7%) na merched (6.4%), sy'n groes i weddill y rhanbarth. Mae'r ffaith fod 12.2% o bobl anabl allan o waith, i'w gymharu â 4.7% o bobl sydd ddim yn anabl yng Ngwynedd yn drawiadol. Yn anffodus nid yw'r ystadegau am bobl o leiafrif ethnig ar gael ar lefel yr awdurdod oherwydd niferoedd isel.


Ffactor arall allai ddangos amddifadedd yw diffyg mynediad at gar neu fan. Mae aelwydydd gradd DE (galwedigaethau llaw led-fedrus, di-greffft a ddi-waith) yn llawer llai tebygol o fod â mynediad at gerbyd nag aelwydydd AB (galwedigaethau uwch a chanolradd). Dim ond 15% o bobl o gefndir gwyn yng Ngwynedd sydd heb fynediad i'r math yma o gerbyd i'w gymharu â thua 35% o bobl o gefndir Asiaidd (gyda'r grwpiau ethnig eraill rhwng y ddau begwn). Mae pobl anabl hefyd yn fwy tebygol o fod heb fynediad - mae 32% o bobl sy'n dweud eu bod yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan amhariad neu gyflwr hirdymor heb fynediad at gerbyd o'i gymharu â 12.6% o bobl sydd ddim yn cael eu heffeithio gan amhariad neu gyflwr.

Fel un o brif gyflogwyr Gwynedd mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau fod ein systemau mewnol ni yn ddigon effeithiol fel man cychwyn ac mae Amcan 4 a 5 yn adlewyrchu hynny.

Mae un rhwystr wedi amlygu ei hun yn yr ymgynghoriad, sef bod pobl yn teimlo nad yw polisi recriwtio'r Cyngor yn ddigon cynhwysol, ac yn benodol felly o safbwynt galluogi trigolion di-Gymraeg i gael swyddi. Bydd angen ystyried sut y gallwn newid y rhagdybiaeth yma ac amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael o fewn y Cyngor i gefnogi dysgwyr.

## 7. Cynllun Gweithredu

Gweler yr amcanion a'r pwyntiau gweithredu ar y tudalennau nesaf...



# Amcan 1:

Cryfhau a dyfnhau  
capasiti ac ymrwymiad  
staff ac Aelodau  
Etholedig Cyngor  
Gwynedd ym maes  
Cydraddoldeb, trwy  
sicrhau eu bod yn derbyn  
yr hyfforddiant cywir.



## Pam?

Mae wedi dod i'r amlwg, trwy waith dydd i ddydd yn y maes, nad ydi pob aelod o staff yn llawn deall yr angen i flaenoriaethu ystyriaethau cydraddoldeb neu'n ansicr sut i wneud hynny'n iawn. Mae'r materion gweithredol o'r ymgynghoriad, a'r argymhellion gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynghyd â'r diffyg dealltwriaeth o werth Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb addas ymhob achos yn dangos hynny.

Mae deunydd hyfforddiant yn dyddio ac rydym wedi adnabod yr angen i ail-edrych ar yr adnoddau hyfforddiant sydd ar gael er mwyn eu gwneud yn fwy pwrpasol, creu hyfforddiant newydd a sicrhau fod pobl yn fwy parod i'w cwblhau. Nid oes gennym ddigon o wybodaeth am yr hyn sy'n nadu pobl rhag gwneud yr hyfforddiant chwaith felly bydd angen gwaith ymchwil i sicrhau hyfforddiant addas, deniadol ac effeithiol.

Rydym wedi adnabod heriau ychwanegol megis cyrraedd rhai staff rheng flaen. Yn ogystal, yr angen i blethu egwyddorion cydraddoldeb i mewn i hyfforddiant perthnasol arall hefyd, er mwyn gwreiddio cydraddoldeb yn ddyfnach o fewn gwaith y Cyngor.

## Sut?

1. Byddwn yn creu rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb fel maes craidd fydd yn amrywiol, blaengar, penodol ac o'r ansawdd uchaf. Bydd wedi ei deilwra'n briodol ar gyfer pob aelod o staff ar bob lefel, ynghyd ag Aelodau Etholedig, er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'u dyletswydd tuag at gydraddoldeb. Er mwyn gwneud hyn byddwn yn:
  - ystyried effeithiolrwydd ein hyfforddiant presennol a darganfod beth fyddai'n helpu staff i ddeall mwy am y maes;
  - cydweithio gyda Rheolwyr y Cyngor er mwyn darganfod pa ddulliau cyflwyno fyddai fwyaf addas ar gyfer anghenion staff amrywiol, e.e. staff rheng flaen, rheolwyr;
  - comisiynu darparwyr hyfforddiant gyda phrofiad bywyd o'r maes i ddarparu hyfforddiant arbenigol wyneb yn wyneb i'n staff yn ôl yr angen;
  - parhau â'r gwaith o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff o'r maes cydraddoldeb;

Gwaith paratoi yn ystod 2020-21 ac yn weithredol o Ebrill 2021 ymlaen

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• monitro ymwybyddiaeth staff o'r Ddeddf drwy ffurflenni adborth yr hyfforddiant.</li> </ul> <p>2. Mae gan Aelodau Etholedig fynediad i Borth Aelodau, sef mewnrwyd electroneg, sy'n cynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a digwyddiadau sy'n berthnasol iddynt. Dros gyfnod y Cynllun byddwn yn diweddarau'r Porth gyda chanllawiau hyfforddi a gwybodaeth sy'n berthnasol i'r maes cydraddoldeb. Byddwn hefyd yn cynnal ymgyrch hyrwyddo gan ddefnyddio e-newyddlen yr Aelodau, "Rhaeadr", i godi ymwybyddiaeth o'r wybodaeth sydd ar gael ar y Porth.</p> <p>3. "Ffordd Gwynedd" yw'r enw a roddwyd ar y "ffordd" y byddwn ni yng Nghyngor Gwynedd yn sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Yn y pen draw, llwyddiant Ffordd Gwynedd fydd sefyllfa lle bydd profiadau unigolion wrth iddynt ddod i gyswllt â'r Cyngor yn rai positif ac yn cwrdd â'u hanghenion. Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i weithio ar gryfhau'r elfen cydraddoldeb fel rhan o hyfforddiant "Ffordd Gwynedd". Felly hefyd gyda'r drefn Croesawu i'r Cyngor ar gyfer aelodau o staff newydd.</p>	<p>Medi 2020 ac yna yn ôl y galw</p> <p>Medi 2020</p>
--	--	---

<p><b>Deilliant:</b></p>	<p>Fod gan y gweithlu, beth bynnag eu swyddi, ddealltwriaeth trylwyr o'r maes ac yn hyderus i weithredu ar eu dyletswydd tuag at unigolion a grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig. Bydd yr Aelodau Etholedig hefyd yn deall ac yn fwy hyderus yn eu dyletswydd i herio a gwneud penderfyniadau.</p>
--------------------------	--

<p><b>Mesur:</b></p>	<p>Er mwyn mesur llwyddiant byddwn yn cynnal arolwg i asesu dealltwriaeth, gan sefydlu gwaelodlin yn 2020 ac ail wneud yn 2024.</p>
----------------------	---

## Amcan 2:

Gwella'r wybodaeth sydd gennym gan ac am bobl gyda nodweddion gwarchoddedig.

## Pam?

Mae rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud yn gonglfaen i'r ffordd mae'r Cyngor yn gweithio, ac mae hynny wrth gwrs yn cynnwys pobl gyda nodweddion gwarchoddedig gwahanol. Nid yw'n bosib gwneud hynny heb dderbyn a gweithredu ar farn arbenigol y bobl dan sylw. Mae'n ofynnol i ni wneud hynny hefyd yn unol â chanllawiau Asesu Effaith Cydraddoldeb Deddf Cydraddoldeb 2010 fel mae'n cael ei weithredu yng Nghymru.

Mae gwybodaeth wedi ei gasglu am bobl Gwynedd e.e. Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, ymatebion i arolygon Cyngor Gwynedd fel Her Gwynedd a "Pa Wasanaethau sy'n Bwysig i Chi?" ac wrth gwrs gwybodaeth gan ein hadrannau. Eto rydym wedi adnabod nad ydym fel Cyngor yn gwneud digon i sicrhau fod llais y bobl gyda nodweddion gwarchoddedig yn cael ei gynnwys yn naturiol o ddydd i ddydd wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â newid gwasanaethau (yn arbennig y penderfyniadau hynny sydd ddim yn derbyn sylw'r Cabinet).

## Sut?

1. Er mwyn deall unrhyw rwystrau sy'n wynebu pobl Gwynedd sydd â gwahanol nodweddion gwarchoddedig wrth ymwneud â'r Cyngor, byddwn yn cynnal arolwg cyhoeddus trylwyr er mwyn adnabod beth yw'r rhwystrau hynny a'r hyn y gallwn ei wneud er mwyn ymateb. Bydd y gwaith yma'n cynnwys amrywiaeth o wahanol ddulliau er mwyn cyrraedd croes-doriad o bobl, yn enwedig y rhai sydd ddim fel arfer yn cymryd rhan. Byddwn yn sicrhau cyfrinachedd y rhai sy'n cymryd rhan.
2. Byddwn yn gweithio i ddatblygu mwy o gyswllt gyda grwpiau neu unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig drwy barhau i weithio efo'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb a'i ehangu a gwneud cyswllt gyda grwpiau ychwanegol o bobl gyda nodweddion gwarchoddedig penodol er mwyn parhau i dderbyn barn amrywiol. Byddwn hefyd yn sicrhau fod ein Panel Trigolion yn cynnwys amrywiaeth o bobl gyda nodweddion gwarchoddedig, drwy dargedu yn ôl yr angen.

Erbyn  
Mawrth  
2021

Parhaol

	<p>3. Drwy weithio gyda rheolwyr a phenaethiaid byddwn yn sicrhau fod pawb yn deall anghenion pobl gyda'r nodweddion gwarchoddedig gwahanol drwy'r Cyngor. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i wella ein gwasanaethau a chreu Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. Bydd angen adolygu ein Polisi Mynediad/Cydraddoldeb gan ystyried hefyd argymhellion gweithredol y Grŵp Craidd Cydraddoldeb.</p>	<p>Parhaol ond gyda'r polisi'n cael ei ddiweddarau erbyn Ionawr 2022</p>
--	---	--

<p><b>Deilliant:</b></p>	<p>Bydd gan Gyngor Gwynedd well dealltwriaeth o'r anghenion a'r rhwystrau sy'n wynebu pobl sy'n derbyn ein gwasanaethau oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig, a gallwn ddefnyddio hynny i wella ein gweithdrefnau. Gallwn ddefnyddio ein grwpiau rhwydweithio presennol er mwyn manteisio ar gyfarfodydd a digwyddiadau sydd eisoes wedi eu rhaglennu.</p>
--------------------------	--

<p><b>Mesur:</b></p>	<p>Bwriedir ymgysylltu'n ehangach er mwyn cyrraedd pobl sydd ddim fel arfer yn cyfrannu at ymarferion ymgysylltu / ymgynghori o'r fath a bydd angen sicrhau ein bod wedi cyflawni hynny. Un ffordd o wneud hynny fyddai drwy ddarganfod, wrth ymgysylltu, a yw'r unigolion sy'n cymryd rhan wedi cyfrannu o'r blaen ac a fydden nhw wedi gwneud ar eu liwt eu hunain neu beidio.</p> <p>Byddwn wedi creu cyswllt agos hefo grwpiau er mwyn cael gwell cynrychiolaeth ar y Grŵp Craidd Cydraddoldeb</p> <p>Bydd gennym drefn effeithiol o rannu gwybodaeth yn weithredol.</p>
----------------------	--

## Amcan 3:

Adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud yn barod i wreiddio Aseuadau Effaith Cydraddoldeb fel arf i sicrhau gwell penderfyniadau.

## Pam?

Roedd gwella ein trefniadau Asesu Effaith Cydraddoldeb yn rhan bwysig o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20. Mae'r Cabinet, yn eu trafodaeth gychwynnol am y Cynllun newydd, wedi nodi er bod nifer ac ansawdd ein hasesiadau wedi gwella fod lle eto i wella ymhellach. O gyflawni'r asesiadau i'w llawn botensial gallwn sicrhau ein bod yn rhoi pob un o bobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud fel Cyngor, drwy roi sylw dyledus i faterion cydraddoldeb. Bydd yn caniatáu i ni gyfarch y materion gweithredol, gan gynnwys y rhai a godwyd gan y Grŵp Craidd Cydraddoldeb ac yn yr ymgynghoriad, mewn ffordd fydd yn cydymffurfio hefo gofynion cydraddoldeb.

Mae Asesu Effaith Cydraddoldeb wrth gwrs yn ofyn statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel mae'n cael ei weithredu yng Nghymru.

Mae'r Amcan yma'n clymu'n agos i Amcan 2 gan y bydd angen defnyddio'r gwaith ymgysylltu i wneud yr Asesiadau Effaith Cydraddoldeb.

## Sut?

1. Byddwn yn creu hyfforddiant ychwanegol penodol ar gyfer staff perthnasol ac Aelodau Etholedig yn canolbwyntio ar fanteision Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac yn darparu arweiniad a chynngor ar eu cynnal er mwyn ystyried yn drylwyr unrhyw effeithiau posib ar bobl Gwynedd. Bydd cynnwys yr hyfforddiant yn cael ei adolygu yn gyson er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol.

2. Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn hefyd yn cryfhau trefniadau drwy sicrhau fod Aelodau Etholedig yn gynyddol hyderus i herio ansawdd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb fel rhan naturiol o'u gwaith wrth dderbyn adroddiadau/gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn Cabinet, Pwyllgorau Craffu a chyfarfodydd Herio Perfformiad. Bydd yr hyfforddiant uchod yn allweddol i sicrhau llwyddiant y drefn hon a byddwn yn darparu canllawiau ar gyfer y cyfarfodydd gwahanol.

Erbyn Ebrill  
2021

Parhaol gyda  
chanllawiau  
mewn lle  
erbyn Medi  
2020

	<p>3. Byddwn yn parhau i gydweithio ag Adrannau'r Cyngor i sicrhau y caiff sylw dyledus ei roi i anghenion cydraddoldeb mewn unrhyw gyfundrefn i adnabod arbedion neu doriadau. Yn ystod cyfnod y Cynllun hwn, byddwn yn sicrhau fod Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb amserol ac o ansawdd yn cael eu cynnal ac yn cyfrannu at y broses o adnabod unrhyw gynlluniau. Gobeithiwn y byddwn drwy hynny'n ymwybodol o unrhyw oblygiadau negyddol fyddai penderfyniad am doriad mewn cyllideb yn ei gael ar grwpiau lleiafrifol penodol yng Ngwynedd, a'u lleihau lle'n bosib.</p>	Parhaol
--	--	---------

<p><b>Deilliant:</b></p>	<p>Penderfyniadau wedi eu gwneud ar sail gadarn ar bob lefel o'r Cyngor gan fod staff ac Aelodau Etholedig yn llawn deall a gweithredu ar eu dyletswydd.</p>
--------------------------	--

<p><b>Mesur:</b></p>	<p>Craffu ansawdd Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb, gan edrych yn arbennig ar weld cynnydd yn y rhai sy'n cael eu cyflwyno yn amserol.</p>
----------------------	---



## Amcan 4:

Gweithredu i leihau'r  
bwlch tâl rhwng y  
rhywiau ac adnabod  
unrhyw fwlch tâl ar sail  
unrhyw nodwedd arall.

## Pam?

Er bod y ddau awdit diwethaf wedi dangos fod y cyngor yn rhoi tâl cyfartal i ferched a dynion fel ei gilydd, mae'r bwlch tâl ar gyfartaledd yn parhau, fel ymhob awdurdod lleol arall. Mae hyn, ar y cyfan, oherwydd bod merched yn llai tebygol o ymgeisio ac felly i gael cynnig swyddi ar raddfeydd cyflog uwch o fewn y Cyngor. Rydym eisoes wedi adnabod hyn fel mater o flaenoriaeth sydd angen sylw, a dyna pam fod y prosiect 'Merched mewn Arweinyddiaeth' yng [Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023](#). Mae hefyd yn fater y mae Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn awyddus i'n gweld yn cyfarch.

Er bod tystiolaeth genedlaethol yn dangos fod bylchau cyflog eraill yn bodoli, megis y gwahaniaeth rhwng pobl anabl a gweddill unrhyw weithlu, mae'n profi'n anodd casglu digon o wybodaeth o fewn y Cyngor gan ein bod yn ddibynnol ar aelodau staff i wirfoddoli'r wybodaeth. Fel ymhob mudiad cyhoeddus arall, mae'r niferoedd sy'n gwneud hynny'n isel. Yn ystod Cynllun 2016-20, rydym wedi addasu ein holiadur ar gyfer staff ac wedi'i lwytho ar system hunanwasanaeth y Cyngor er mwyn ei wneud mor rhwydd a hygyrch a phosib.

## Sut?

1. Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar annog mwy o staff i gwblhau'r holiadur data cydraddoldeb dewisol er mwyn cynyddu faint o wybodaeth sydd gennym. Bydd hyn yn ein galluogi i sefydlu gwaelodlin, adnabod bylchau yn ein gweithlu ac i gynnal archwiliadau ar sail nodweddion gwarchoddedig eraill. Byddwn yn gwneud hyn drwy amrywiol ddulliau yn ystod cyfnod y Cynllun, gan gynnwys cynnal ymgyrch hysbysebu a chodi ymwybyddiaeth yr aelodau staff sy'n newydd i'r system hunanwasanaeth.
2. Byddwn yn parhau i gynnal archwiliad blynyddol ar y bwlch cyflog rhwng dynion a merched, a thrwy gasglu'r data a nodwyd uchod, gweithio i ddatblygu'n gallu i gynnal archwiliad o'r fath mewn perthynas â nodweddion eraill sydd wedi'u gwarchod. Yn ogystal, byddwn yn cynnal awdit tâl bob tair blynedd er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i dalu cyflog cyfartal. Byddwn hefyd yn gweithio tuag at gael cynlluniau mewn lle i leihau unrhyw fylchau sy'n dod i'r amlwg yn sgil yr awdit.

Parhaol

Archwiliad yn flynyddol. Awdit tâl nesaf erbyn Ebrill 2021

	<p>3. Mae gwaith hefyd wedi bod yn digwydd fel rhan o brosiect Merched mewn Arweinyddiaeth (sy'n un o brosiectau <a href="#">Cynllun y Cyngor 2018-23</a>) sydd wedi adnabod bod y nifer o ferched sy'n cyflawni swyddogaeth reolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur o isel o ystyried mai merched sy'n ffurfio 70% o'r gweithlu cyfan. Prif amcan y prosiect yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi arweiniol fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith i ddenu mwy o ferched i ymgymryd â'r gwaith i'r dyfodol.</p>	<p>Yn unol ag amserlen y Cynllun</p>
--	---	--------------------------------------

<p><b>Deilliant:</b></p>	<p>Mwy o ferched yn ymgeisio am swyddi arweiniol, bwlch tâl yn ôl rhyw wedi'i leihau, bylchau eraill wedi eu hadnabod a gwaith i'w lleihau wedi cychwyn.</p>
--------------------------	--

<p><b>Mesur:</b></p>	<p>Byddwn yn cydweithio er mwyn ymglyfarwyddo â deilliannau mesuradwy'r prosiect Gweithredu Merched mewn Arweinyddiaeth. Bydd eu cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar newid diwylliant ac annog ac ysbrydoli merched i ystyried rôl arweiniol a rheolaethol.</p> <p>Bydd angen gweld deilliant yr awdit tâl nesaf er mwyn creu mesurau pellach.</p>
----------------------	--

## Amcan 5:

Gweithredu i ddenu amrediad o ymgeiswyr am swyddi er mwyn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu.

## Pam?

Mae'r Cyngor yn un o brif gyflogwyr y sir gan gyflogi bron i 7,000 o bobl. Mae'n bwysig felly ein bod yn gweithio tuag at sicrhau fod ein gweithlu'n adlewyrchu poblogaeth oed gweithiol Gwynedd cymaint ag y mae'n bosib. Mae'r Cabinet wedi nodi hyn fel un o'u prif flaenoriaethau ar gyfer y Cynllun yn eu trafodaeth gychwynnol.

Rydym eisoes wedi nodi bod diffyg data ar gael i ni mewn perthynas â'r nodweddion gwarchoddedig sydd o fewn ein gweithlu, ac yn anffodus mae'r diffyg yma'n creu problemau wrth i ni geisio gweithredu'n addas yn y maes yma. Er mwyn cyflawni Amcan 5 felly, bydd llwyddiant y gwaith sydd wedi'i amlinellu uchod o dan Amcan 4 yn greiddiol ac yn hollbwysig.

Dylid nodi nad oes gennym unrhyw fwrriad i wneud y gwaith mewn ffordd artiffisial. Yn hytrach byddwn yn mynd ati i amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl o wahanol gefndiroedd, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu denu'r dewis mwyaf posib o ymgeiswyr. Bydd hyn yn ein galluogi i fod yn sicr ein bod yn canfod y person gorau ar gyfer pob swydd er mwyn ein galluogi i gynnig y gwasanaeth gorau a chyson ar draws y sir ac ateb anghenion y boblogaeth.

## Sut?

1. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i gasglu o'r holiadur cydraddoldeb (gweler Amcan 4) ac yn cynnal ymchwil ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd a'n staff er mwyn canfod unrhyw ffactorau sy'n rhwystro carfannau penodol o bobl â nodweddion gwarchoddedig rhag ymgeisio am swyddi. Byddwn hefyd yn gweithio er mwyn darganfod ffyrdd o'u hannog i wneud hynny e.e. drwy hysbysebu swyddi'n ehangach nag ar wefan y Cyngor yn unig er mwyn denu ystod ehangach o geisiadau.
2. Gweithio ar y cyd gyda chyrff cyhoeddus eraill o fewn ein rhanbarth megis Heddlu Gogledd Cymru neu Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn cyfarch unrhyw rwystrau a amlygir. Gallai hyn ddarparu mynediad at amrywiaeth ehangach o bobl hefyd, o gofio nad yw proffil cydraddoldeb bob gweithlu'n debygol o fod yr un fath.
3. Blaenoriaethu gweithio tuag at gyrraedd Lefel 2 y Cynllun 'Hyderus o ran Anabledd' er mwyn bod yn 'Gyflogwr Hyderus' ac edrych ar ddod yn Bencampwr Stonewall.

Parhaol

Parhaol

Medi 2022

<b>Deilliant:</b>	Gwell amrywiaeth ymysg yr ymgeiswyr am swyddi fydd yn arwain at well amrywiaeth yn ein gweithlu.
-------------------	--

<b>Mesur:</b>	Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth ar nodweddion cydraddoldeb ein gweithlu sy'n cael ei gyhoeddi'n flynyddol i adnabod unrhyw gynnydd.
---------------	---

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl gyda nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl gyda nodwedd warchoddedig).

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Pwrpas y Cynllun ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a phobl sydd heb y nodweddion hynny yn unol â'r ddyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a dymuniad y Cabinet.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Delyth G Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Wedi ei gychwyn 27 Chwefror 2019  
Fersiwn 2 wedi ei gychwyn 26 Medi 2019  
Fersiwn 3 wedi ei gychwyn 11 Chwefror 2020

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio gyda nhw i wneud yr asesiad yma?

- Grŵp Craidd Cydraddoldeb,
- Y Cyhoedd, yn arbennig pobl gyda nodweddion gwarchoddedig penodol
- Cabinet ac Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd.

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda phobl gyda nodweddion gwarchoddedig?

Cynhaliwyd dau sesiwn cychwynnol gyda'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb. Y Cynllun drafft oedd ymateb y Cyngor i'w sylwadau. Cynhaliwyd trafodaeth bellach gyda'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb ar 16 Ionawr 2020.

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r cyhoedd yn gyffredinol rhwng 16 Rhagfyr a 7 Chwefror trwy holiadur ar bapur (gan gynnwys hawdd i'w ddarllen) ac ar-lein. Hysbyswyd tua 150 o fudiadau am yr ymgynghoriad. Cynhaliwyd cyfarfod gyda dau grŵp Hunan-Adfocatiaeth Amhariad Dysgu lle'r oedd pawb yn gefnogol i'r Amcanion a lle rhannwyd yr holiaduron hawdd-eu-darllen. Anfonwyd copi papur i aelodau'r Cyngor Pobl Hŷn. Ceisiwyd trefnu cyfarfod gyda Clwb Ieuenctid LHDT+ (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol) ond ni fu'n bosib gwneud hynny. Derbyniwyd 190 o ymatebion.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Yn y cyfarfodydd cychwynnol cododd y Grŵp Craidd Cydraddoldeb nifer o faterion oedd angen sylw yn y meysydd canlynol:

Addysg  
Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd  
Cyfiawnder a Diogelwch Cymdeithasol  
Cyfranogiad  
Safonau byw  
Cyflogaeth

Mae'r materion yma'n cael sylw gan y gwasanaethau perthnasol.

Yng nghyfarfod mis Ionawr oeddynt yn gefnogol i gyfeiriad y cynllun ac yn cytuno gyda'r Amcanion ond roedd ganddynt sylwadau am bob un ohonynt. Roedd rhai sylwadau ynglŷn â geiriad a diwyg y Cynllun ac rydym wedi ceisio ymateb i'r rheini. Roedd rhai pethau'n weithredol, sy'n cael eu pasio ymlaen i'r gwasanaeth perthnasol. Yn ogystal:

#### **Amcan 1**

- Pwysig sicrhau bod y bobl iawn yn hyfforddi
- Angen rhywbeth bod 2-3 mlynedd ond fod o ddim yn ymarferiad 'ticio bocs'.
- Angen codi ymwybyddiaeth o anabledd 'anweladwy'
- Angen derbyn y 'model cymdeithasol'
- Eisiau cyhoeddi rhestr mynychu hyfforddiant Aelodau Etholedig gael ei wneud (fel



- presenoldeb mewn Cyngor llawn / cyfarfodydd)
- Gwella dealltwriaeth fod pawb â nodweddion
- Dealltwriaeth nid ymwybyddiaeth o gydraddoldeb
- Rhaid teilwra'r hyfforddiant
- Hyfforddi pobl fel eu bod yn gallu dysgu eraill am fynediad ayb
- Sicrhau adnoddau
- Sicrhau adborth e.e. siopwr dirgel

#### **Amcan 2**

- Angen gwella dealltwriaeth o wir anghenion pobl - dim 'ticio blychau'
- Dysgu gan eraill e.e. BIPBC

#### **Amcan 3**

- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd asesiad effaith - ei godi i'r un statws ag Asesiadau Diogelwch.
- Oes modd cael person dynodedig sy'n gyfrifol am hyn yn bob adran?

#### **Amcan 4**

- Angen edrych pa rwystrau sy'n achosi bwlch cyflog e.e. oes angen system 'fflecsi' fwy hyblyg?
- Efallai na fydd pobl anabl yn gallu gweithio llawn amser

#### **Amcan 5**

- Pam fod y Cynllun 'Hyderus o ran Anabledd' ddim yn digwydd tan Fedi 2022?
- Gwella mynediad yn gyffredinol
- Cofio am Gynllun Mynediad i Waith

O'r 190 o ymatebion a dderbyniwyd i'r holiadur, roedd y rhan fwyaf yn gefnogol o'r 5 Amcan. Mae'r manylion fel a ganlyn:

#### **Yda chi'n cytuno hefo Amcan 1? Ydw 179, Nac ydw 11**

Roedd rhesymau a roddwyd am ddweud "nac ydw" oedd: costau'r hyfforddiant, dylai pawb fod yn gweithredu fel hyn yn barod, y gallai ystyried y Gymraeg fel rhan o Gydraddoldeb fod yn annheg i rai nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg. Roedd dau berson yn dweud fod cydraddoldeb yn ormod o waith / yn amherthnasol.

#### **Yda chi'n cytuno hefo Amcan 2? Ydw 182, Nac ydw 8**

Y rhesymau a roddwyd am ddweud "nac ydw" oedd: pryder am breifatrwydd a sensitifrwydd y nodweddion a'r dylai'r wybodaeth fod gennym yn barod. Un yn dweud mai dim ond rhai pobl mewn swyddi o bŵer oedd yn cael eu diogelu.

#### **Yda chi'n cytuno hefo Amcan 3? Ydw 179, Nac ydw 11**

Y prif reswm am ddweud "nac ydw" yma oedd bod o'n wastraff amser ac arian (ymarferiad ticio bocsys yn hytrach na gwaith iawn). Roedd rhai yn nodi nad oedd digon o wybodaeth er mwyn ateb y cwestiwn ac un person yn meddwl na fyddai'r canlyniad yn cyflawni gweledigaeth Deddf Cydraddoldeb 2010.

#### **Yda chi'n cytuno hefo Amcan 4? Ydw 175, Nac ydw 15**

Y prif reswm yma oedd y gost gyda rhai yn poeni y byddai'n arwain at golli swyddi fyddai'n effeithio ar wasanaeth neu'n cyfyngu dewisiadau'r cyflogwr. Roedd rhai pobl yn sôn am dâl cyfartal am yr un swyddi ac yn credu y dylai fod yn digwydd yn barod. Roedd 2 berson yn dweud nad oedd bwlch tal yn bodoli ac un yn dweud fod eisiau cael gwared ar y bwlch, nid ei leihau.

## Yda chi'n cytuno hefo Amcan 5? Ydw 171, Nac ydw 19

Roedd pryder y byddai'r amcan yma'n arwain at wahaniaethu positif. Tri pherson eisiau sicrhau swyddi i bobl leol a dau yn teimlo fod angen nodi sut y byddem yn cyflawni'r amcan.

Roedd siawns i'r rhai oedd yn llenwi'r holiadur ateb 2 gwestiwn ychwanegol hefyd:

### Oes unrhyw beth arall y dylai'r Cyngor ystyried ei gynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb 2020-2024?

Derbyniwyd 60 ymateb i'r cwestiwn yma. Y prif negeseuon oedd:

- Yr angen i feddwl am bobl anabl - materion mynediad ffisegol i adeiladau er mwyn caniatáu i bobl anabl fyw'n annibynnol. Cynnwys pobl anabl wrth wneud y gwaith er mwyn cael dealltwriaeth o anghenion. Cofio fod anabled ddim yn golygu defnyddiwr cadair olwyn yn unig. Angen ystyried anghenion pobl gyda amhariadau ffisegol gwahanol. Adnabod amhariadau cudd yn enwedig wrth ystyried toiledau hygrych, defnyddio'r ffôn. Talu pobl anabl.
- Sylwadau am y Cynllun a'r holiadur yn gyffredinol - Wedi cynnwys pawb. Anhapusrwydd gyda ffurf yr holiadur. Sicrhau ei fod yn cadarnhau'r hyn ddisgwylir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Dechrau da o ystyried y cyfyngiadau ariannol ond mwy i'w wneud Angen ail-ymweld gyda'r cynllun ar ôl derbyn canlyniadau cyfrifiad 2022 er mwyn addasu yn ôl yr angen. Gormod o ffocws ar staff y Cyngor yn lle pobl Gwynedd - lle mae cydraddoldeb i bobl ifanc a phobl hŷn ynddo? Angen sicrhau fod hi dal yn bosib cyflawni'r cynllun beth bynnag fo'r sefyllfa wleidyddol a chymdeithasol
- Iaith - rhai o'r ymatebwyr yn teimlo bod cynnwys y Gymraeg fel nodwedd yn gwahaniaethu yn erbyn rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg/dysgwyr a lleiafrifoedd ethnig. Teimlad bod rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael eu heithrio o gyfleoedd gwaith o fewn y Cyngor. Eisiau gweld cyfleoedd addysg cyfrwng Saesneg.
- Bod yn fwy ymwybodol o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a trawsrywiol.
- Hyfforddiant - cyrsiau rheoli i weithwyr benywaidd, cyrsiau arbenigol i reolwyr i gefnogi'r amcanion, helpu gweithwyr i ledaenu cydraddoldeb drwy boblogaeth Gwynedd, dysgu cydraddoldeb mewn ysgolion.
- Y cynllun yn rhy amwys – angen gallu mesur ac adnabod beth yw llwyddiant yr Amcanion. Hefyd beth yw'r gost?
- Dim angen Cynllun o'r fath, gwneud gwaith iawn yn ei le. Gwastraff arian sydd ddim am helpu pobl Gwynedd.
- Bwlch tâl - angen i adnabod y rhesymau tu ôl i'r bwlch, adnabod y posibilrwydd y gallai gael ei leihau'n 'artiffisial' gan hunan-adnabyddiaeth rhyw
- Materion gwledig – anghydraddoldeb gwasanaethau a chyfle rhwng y wlad a'r dref, cyflwr lonydd

Hefyd nodwyd y canlynol

- Gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig
- Edrych ar wneuthuriad grwpiau a phwyllgorau o safbwynt nodweddion cydraddoldeb
- Siawns i bobl hŷn rannu profiad gyda gweithwyr ifanc
- Yr angen i gyfarch tlodi ymysg pobl hŷn
- Pobl sydd eisiau dychwelyd i Wynedd yn gorfod talu mwy o dreth Cyngor
- Cydraddoldeb rhwng ardaloedd yng Ngwynedd
- Sut i sicrhau fod pobl Gwynedd yn deall materion cydraddoldeb?
- Cadw materion, e.e. cynllunio, yn breifat os oes peryg i bobl ddod i wybod am nodweddion cydraddoldeb y person a darparu ffordd hygrych o gysylltu

- Ystyried pobl leol gyntaf
- Mwy o hyblygrwydd o fewn y gweithlu
- Anghenion pobl sydd ddim yn defnyddio'r we i gael fersiynau papur – anfon rhai i bob tŷ
- Mesur y defnydd o wasanaethau cyhoeddus gan grwpiau lleiafrifol
- Pwysigrwydd trafndiaeth gyhoeddus ar gyfer pawb er mwyn apwyntiadau iechyd, siopio, cymdeithasu, gwirfoddoli ayb
- Cofio fod ecwiti'r un mor bwysig â chydaddoldeb a bod 9 nodwedd.
- Ystyried effaith penderfyniad ar ferched a dynion
- Cwestiwn am Gyngor Cymuned

### **Nodwch unrhyw sylw pellach os gwelwch yn dda:**

Derbyniwyd 39 sylw yma

- Sylwadau cyffredinol ar y cynllun - Angen cynllun gweithredu manwl gyda targedau mesuradwy. Gobeithio fod gwaith wedi ei wneud yn barod yn enwedig ar Amcanion 1 a 2. Croesawu rhoi pwyslais ar gasglu data a gwybodaeth er mwyn cael sylfaen cryf, ticio bocs sy'n costio gormod. Mae angen cydbwysedd i sicrhau na chaiff ei wneud yn ormodol. Croesawu'r cynllun - maes pwysig. Mae'n gyraeddadwy. Y Cyngor yn datblygu. Peidio hybu rhai nodweddion yn fwy na'i gilydd.
- Iaith - Pryder bod ansawdd Saesneg yn cael ei gyfaddawdu o ganlyniad i addysg cyfrwng Cymraeg ac yn atal pobl ifanc rhag cael gwaith ystyrion. Cred na ddylai'r Gymraeg fod yn nodwedd, a bod angen sicrhau nad oes rhwystrau i bobl gael gafael ar wasanaethau llawn drwy gyfrwng y Saesneg
- Aelodau Etholedig - Dylai'r Cabinet fod yn 50:50 merched a dynion, ac mae angen newid trefniadau'n hollol i sicrhau fod merched yn cael tegwch yn y gweithlu. Cyngorwyr i gofio geiriau Martin Luther King "It's not the colour of their skin, but the content of their character" fel metaffor am ddelio gyda pobl yn gyffredinol. Edrych ar daliadau Cyngorwyr
- Angen sicrhau fod pobl yn gallu rhoi sylwadau, cwynion ayb pan mae nhw eisiau, trwy ddarparu ffordd hygyrch o wneud hynny. Sicrhau fod sylw teilwng ac atebion yn cael eu darparu.
- Cefnogaeth well i bobl ifanc LHDT+ e.e. ariannu grŵp GISDA a herio homoffobia yn gyffredinol
- Angen mwy o wybodaeth am yr ymarferoldeb cyflawni e.e. hyfforddiant
- Cwestiwn am Gyngor Cymuned
- Angen Swyddog Cydraddoldeb Anabledd
- Sut mae Brexit am effeithio cydraddoldeb

## **2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

O edrych ar y materion adnabuwyd gan y Grŵp Craidd Cydraddoldeb yn y cyfarfodydd cychwynnol mae'r rhan fwyaf ohonynt yn faterion gweithredol yn perthyn i'r Adrannau. Penderfynwyd mai'r ffordd orau o'u cyfarch byddai cymryd cam yn ôl ac edrych ar systemau mewnol y Cyngor er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud gwahaniaeth ar draws waith y Cyngor, nid y pethau a adnabuwyd yn unig. Bydd unrhyw fater gweithredol o'r ymgynghoriad, e.e. trafndiaeth, yn cael ei drin yr un ffordd.

Y prif ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd ydi:

['A yw Cymru'n Decach? 2018'](#) (adroddiad cyflwr-y-genedl diweddaraf y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol)

Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ymateb Awdurdodau Cymru i'r Ddyletswydd Gyffredinol

Dogfen Data Rhanbarthol

Gwybodaeth a gasglwyd o arolygon blaenorol

[Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn](#)

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Mae yna fylchau yn y data sydd ar gael yn lleol, mae'n debyg oherwydd niferoedd isel. Bydd angen gweld os yw'n bosib cael mynediad at, neu gasglu' y wybodaeth yma.

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl gyda nodweddion gwarchoddedig isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl gyda'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.**

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
<b>Cyffredinol</b>	Positif	<p>Bwriad y Cynllun yw sicrhau fod ymwybyddiaeth o anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu gwreiddio'n ddwfn o fewn gwaith y Cyngor. Gan fod pawb gyda nodweddion megis hil, oedran a rhyw bydd hyn yn sicrhau fod gwasanaethau'n cael eu gwella ar gyfer pawb o bobl Gwynedd. Wedi dweud hynny, bydd angen rhoi mwy o sylw i rai carfannau na'i gilydd, ac felly byddent yn elwa mwy.</p> <p>Rydym yn gwneud Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y gwahanol brosiectau o fewn y Cynllun a bydd y gwaith o ymgysylltu a chasglu gwybodaeth sydd wedi ei nodi yn y Cynllun yn greiddiol.</p>
<b>Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)</b>	Positif	<p>Mae rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi adnabod rhai materion hil yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Teimlir fod polisi iaith y Cyngor yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ddi-Gymraeg sydd o dras leiafrifol (h.y. y rhan fwyaf ohonynt yn ymfudwyr un ai o Loegr neu o wledydd eraill).</p> <p>Rydym yn cydnabod bod hyn yn bryder iddynt, ond hefyd yn nodi ein ddyletswydd statudol i roi statws cyfartal ac i warchod y Gymraeg fel iaith leiafrifol yng Nghymru.</p>
<b>Yr iaith</b>	Positif	Cafwyd rhywfaint o wrthwynebiad i'r penderfyniad i ystyried

<b>Gymraeg</b>		<p>laith fel rhan o Gydraddoldeb.</p> <p>Rydym yn cydnabod fod hyn yn bryder ond, ar y llaw arall, gan fod 65% o boblogaeth Gwynedd yn siaradwyr Cymraeg mae'r Cyngor yn gweithredu Polisi Iaith sydd yn sicrhau "Bod posib i holl drigolion y sir ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac y cymerir camau pendant i sicrhau bod dewis iaith y defnyddiwr yn cael ei nodi a'i barchu bob amser." Mae gallu gweithredu'r polisi hwn yn gyson ar draws y sir gyfan, a sicrhau bod unigolyn yn gallu cael gwasanaeth Cymraeg os ydynt yn dymuno hynny (yn unol â'r gofyn o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) yn golygu bod rhaid ysgytied y Gymraeg wrth recriwtio ac wrth ddatblygu gwasanaethau.</p> <p>Dylid cofio bod unrhyw siaradwr Cymraeg sydd yn cael ei benodi i swydd o reidrwydd yn gallu darparu'r gwasanaeth hwnnw yn Saesneg hefyd.</p> <p>Bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried gyda'r ffactorau eraill. Hefyd gweler Hil, uchod</p>
<b>Anabledd</b>	Positif	<p>Mae materion ynglŷn ag anabledd wedi eu hadnabod (gan y Grŵp Craidd Cydraddoldeb a'r ymatebwyr i'r holiadur). Byddwn yn rhoi sylw iddynt o fewn y Gwasanaethau ac fel rhan o'r gwaith ar y Cynllun Gweithredu.</p> <p>Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).</p> <p>Nodwyd fod y lluniau yn y ddogfen yn rhy lachar felly byddwn yn darparu fersiwn du a gwyn yn ogystal â fformatau eraill.</p> <p>Mae'r Cyngor yn derbyn y model cymdeithasol o anabledd.</p>
<b>Rhyw</b>	Positif	<p>Mae cyfraniad merched ym myd gwaith ac fel cynrychiolwyr wedi cael ei godi gan y Grŵp Craidd Cydraddoldeb a'r ymatebwyr i'r holiadur. Bydd hyn yn cael sylw pellach yn cael ei wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu. Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).</p>
<b>Oedran</b>	Positif	<p>Mae materion ynglŷn ag oedran wedi eu hadnabod a byddwn yn rhoi sylw iddynt o fewn y gwasanaethau ac wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu.. Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).</p>
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	Positif	<p>Mae materion ynglŷn â chyfeiriadedd rhywiol wedi eu hadnabod gan y Grŵp Craidd Cydraddoldeb a'r ymatebwyr i'r holiadur a byddwn yn rhoi sylw iddynt o fewn y gwasanaethau ac wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu. Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).</p>
<b>Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)</b>	Positif	<p>Mae un ymatebwr i'r ymgynghoriad wedi adnabod rhai mater crefydd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Teimlai fod polisi iaith y Cyngor yn atal pobl ddi-Gymraeg a gallai hyn gynnwys pobl o rai crefyddau. Byddem yn dadlau mai mater hil yw hyn, ac nid crefydd. Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).</p>
<b>Ailbennu</b>	Positif	<p>Mae materion ynglŷn ag ailbennu rhywedd wedi eu</p>

<b>rhywedd</b>		hadnabod gan y Grŵp Craidd a'r ymatebwyr i'r holiadur. Bydd hyn yn cael sylw pellach yn cael ei wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu. Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).
<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	Positif	Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>	Positif	Bydd y Cynllun yn bositif i bobl gyda'r nodwedd yma fel sydd wedi ei amlygu yn Cyffredinol (uchod).

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

<b>Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb</b>	<b>A yw'n cael effaith?*</b>	<b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>
<b>Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth</b>	Ydi	Mae tystiolaeth y Grŵp Craidd Cydraddoldeb wedi dangos fod pryder gan yr aelodaeth am rai o'n gwasanaethau, ac mae rhai sylwadau am faterion gweithredol wedi cael eu derbyn yn y ymateb i'r holiadur. O'i weithredu'n iawn, bydd y Cynllun Gweithredu'n ymdrin â hyn gan y bydd yn gwella'r ffordd rydym ni'n gweithredu. Byddwn yn casglu gwybodaeth a bydd yn rhoi gwybod i ni os oes camwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth yn digwydd er mwyn gweithredu arno.
<b>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</b>	Ydi	Bwriad y Cynllun yw gweithio tuag at sicrhau tegwch i bawb. Mae tystiolaeth y Grŵp Craidd Cydraddoldeb a'r ymatebwyr yn dangos fod gennym waith i'w wneud i'r perwyl yma. Byddwn felly'n casglu tystiolaeth bellach, yn unol â Phwyntiau Gweithredu'r Cynllun, ac yn gweithredu ar y canlyniad. Mae gennym hefyd Bwyntiau Gweithredu sy'n cychwyn ar y gwaith.
<b>Meithrin perthnasau da</b>	Ydi	Mae perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rannu yn dod o sicrhau tegwch i bawb. Trwy gwblhau'r Cynllun Gweithredu, a gweithredu'n bositif tuag at rhai nodweddion, byddwn yn sicrhau y bydd ein gwasanaethau'n deg.

#### **4) Dadansoddi'r canlyniadau**

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Bwriad Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd yw gwneud effaith sylweddol, bositif ar fywydau pobl Gwynedd sy'n defnyddio ein gwasanaethau a hefyd ein staff. Rydym wedi defnyddio'r sylwadau perthnasol sydd wedi eu derbyn o'r ymgysylltiad i wella'r Cynllun. Bydd y materion gweithredol yn cael eu pasio ymlaen i'r gwasanaethau

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Ni adnabuwyd unrhyw effeithiau sylweddol negyddol.

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	X
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

**4.4 Os yn parhau gyda'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r ymateb i'r Amcanion gan y Grŵp Craidd ac o'r holiadur wedi bod yn bositif iawn. Mae'r sylwadau sydd wedi eu rhoi gan rai wedi dangos i ni nad oedd geiriad rhai Amcanion a gweithgareddau yn ddigon clir, yn arbennig amcan 5, ac rydym wedi newid hynny. Byddwn yn pasio sylwadau gweithredol eu natur i'r gwasanaethau cywir ac yn eu cynnwys fel rhan o'r ymgysylltiad (Amcan 2)

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Dim yn berthnasol

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ar gyfer ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2020.

Byddwn yn monitro yn gyson, yn enwedig fel mae canlyniadau unrhyw waith casglu tystiolaeth yn dod i mewn. Byddwn hefyd yn gwneud Adroddiad Blynyddol yn fuan ym mhob blwyddyn ariannol i adrodd ar unrhyw gynnydd o'r flwyddyn flaenorol. Bydd angen canlyniadau cyfrifiad 2021 yn ddefnyddiol.

Byddwn yn gwneud Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd.



## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

**Dyddiad y cyfarfod:** 10 Mawrth 2020

**Aelod Cabinet:** Y Cyngorydd Dilwyn Morgan  
Y Cyngorydd Craig ab Iago

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd Gibbard, Pennaeth Tai ac Eiddo  
Catrin Thomas, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd

**Rhif Ffôn Cyswllt:** 01286 679913

**Teitl yr Eitem:** Canolfan Integredig Maesgeirchen, Bangor.

#### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Gofynnir am gymeradwyaeth y Cabinet i symud i gydweithio gyda chymuned Maesgeirchen, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Adra i ddatblygu cynllun posib ar gyfer Canolfan Integredig ar y stad ar gyfer gwasanaethau a darpariaethau cefnogi teulu ac adrodd yn ôl gyda argymhellion ar gyfer y ffordd ymlaen.

#### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Mabwysiadodd y Cyngor y "Cynllun Asedau 2019-2029" ar Fawrth 7fed, 2019. Mae'r cynllun yn cynnwys clustnodi cyfraniad o £500,000 tuag at ddatblygu Canolfan Integredig Cefnogi Teulu ym Maesgeirchen. Mae'r gwariant wedi ei raglennu ar gyfer 2021/22 ymlaen.

2.2 Rhagwelir y bydd angen defnyddio peth o arian y Cynllun Asedau yn ystod 2020/21 ar gyfer gwaith paratoi.

2.3 Bydd y Pennaeth Tai ac Eiddo yn cydlynu'r prosiect ar draws Gwasanaethau'r Cyngor, gyda chefnogaeth y Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teulu a'r Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned er mwyn sicrhau llywodraethiant addas i'r Bwrdd Adfywio a'r Bwrdd Cefnogi Llesiant Pobl.

#### 3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

3.1 Daeth Rhaglen Genedlaethol Trechu Tlodi **Cymunedau'n Gyntaf** i ben yn 2018. Mae Maesgeirchen yn parhau i fod yn y 10% o gymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

3.2 Buddsoddwyd £5m i godi adeilad newydd i Ysgol Glan Cegin yn 2017. Oherwydd cyfyngiadau ar y safle a'r gyllideb nid yw'r ysgol yn gallu lletya gwasanaethau y tu hwnt i addysg.

3.3 Mae'r ardal yn parhau i fod yn un o 6 ardal **Dechrau'n Deg** yng Ngwynedd. Mae'r rhaglen yn rhoi mwy o gymorth a chyfleoedd i deuluoedd sydd â phlant dan 4 oed, sef gwasanaeth iechyd y Blynyddoedd Cynnar; Gofal plant; Cymorth Rhiantu; a Chymorth Cynnar gyda datblygiad iaith.

3.4 Mae'r ardal hefyd wedi ei phennu fel un o 13 cymuned drwy Gymru y mae'r Loteri Fawr wedi ei hadnabod ar gyfer y **Rhaglen Buddsoddi'n Lleol**. Rheolir y rhaglen gan Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau ac mae'n rhaglen 10 mlynedd sy'n defnyddio cryfderau, sgiliau a thalentau pobl, grwpiau a chymdeithasau'r cymunedau i newid pethau er gwell. Mae gan bob ardal £1m i wario ar flaenoriaethau lleol. Pobl y gymuned ei hun sy'n penderfynu sut i ddatblygu'r gymuned, sut i ddefnyddio'r arian, pa gyrff maen nhw'n cydweithio â nhw, a sut mae gwneud y penderfyniadau hynny. Mae Partneriaeth Maesgeirchen Partnership a Grŵp Maes-Ni wedi bod yn ymgysylltu'n helaeth gyda'r gymuned yn lleol er mwyn datblygu'r rhaglen hon ers bron i 2 flynedd.

3.5 Mae'r gwaith hwn wedi adnabod mai blaenoriaethau'r gymuned dros y cyfnod nesaf yw datblygu hwb/canolfan gymunedol, cynnal balchder cymuned, a datblygu gweithgareddau yn y gymuned.

3.6 Yn 2017, lanswyd **Rhaglen Targeddu Buddsoddiad mewn Adfywio** (TRI) gan Lywodraeth Cymru sy'n hyrwyddo adfywiad economaidd, gyda gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar unigolion ac ardaloedd sydd â'r angen mwyaf. Fel rhan o drefniadau'r rhaglen, cafodd strategaeth ranbarthol ei pharatoi ar gyfer Gogledd Cymru, sydd yn adnabod dinas Bangor fel ardal blaenoriaeth. Mae'n bosib y bydd y Rhaglen yn cael ei ymestyn tu hwnt i'r cyfnod 3 blynedd cychwynol (2018-21), ac os felly, cyfle posib i dargedu adnoddau ychwanegol o'r Rhaglen hon.

3.7 Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi bod yn rhan o **Raglen Plant yn Gyntaf**, Llywodraeth Cymru. Nod y Rhaglen oedd tynnu partneriaid ynghyd i dreialu ffyrdd gwahanol o weithio, ac o ddefnyddio eu hadnoddau, er gwella canlyniadau bywyd i blant a'u teuluoedd. Mae'r Bwrdd Plant yn Gyntaf wedi cwblhau asesiad anghenion, ymgysylltu gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd ar y stad, a llunio Cynllun Gweithredu sy'n adnabod yr hyn yr ydym yn dymuno ei newid, a sut. Mae sawl asiantaeth yn arwain ar elfennau gwahanol o'r cynllun gweithredu a nifer o brosiectau a datrysiadau lleol ar waith ar y stad erbyn hyn.

3.8 O'r gwaith hwn mae'r Cyngor yn arwain ar Gynllun i **Drawsffurfio Gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar** ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, darpariaethau Gofal Plant ac addysg yn yr ardal. Mae'r prosiect yn edrych ar y system gyfan ar gyfer cefnogi plant a'u teuluoedd. Mae'r gweithlu ar draws y sefydliadau wedi cychwyn ar ymyrraeth Ffordd Gwynedd.

3.9 Mae'r gwaith ymgysylltu gyda theuluoedd a gweithwyr ar y stad wedi dangos mai'r hyn sy'n bwysig yw :

- "Cael help pan dwi ei angen o, gan rywun dwi'n ei drystio." (hefo ysgol, magu plant, troseddu, cael gwaith, bod yn iach, gofal plant)
- "Bod digon o bethau i wneud yn ein cymuned tu allan i ysgol ac amser ysgol, i bob oed, ac mewn lle cyfforddus",
- "Eisiau i'n cymuned ni edrych yn daclus ac yn brydferth",
- "Cael teimlo yn falch o'n cymuned leol",
- "Cael teimlo'n saff a'n plant ni'n saff yn ein cymuned".

3.10 Mae teuluoedd a thrigolion hefyd wedi dweud eu bod nhw eisiau cefnogaeth ac adnoddau yn y gymuned i'w caniatáu nhw i wneud mwy dros eu hunain a'u cymuned.

3.11 Er bod gan y Cyngor bresenoldeb ar y stad ar hyn o bryd, mae gweithwyr a defnyddwyr y gwasanaethau wedi adrodd nad yw'n hawdd cael at y gwasanaethau sydd ar gael, ac nid oes lle addas, cyfeillgar, cyfforddus a llai ffurfiol ar y stad y gall gwasanaethau a'r gymuned ddod ynghyd i gydweithio. Er y rhwystrau mae trigolion a gweithwyr yn adrodd fod perthynas dda rhwng gweithwyr a theuluoedd ar y stad, gyda thystiolaeth yn dangos fod teuluoedd yn troi at weithwyr dro ar ôl tro yn ôl yr angen.

3.12 Mae'r gwasanaethau hynny sydd wedi eu lleoli yno yn dymuno gweithio mewn ffordd wahanol, yn fwy cysylltiedig gyda'i gilydd a gyda'r gymuned ei hun.

#### **4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

- 4.1. Mae cyfle wedi codi i'r Cyngor gynllunio a datblygu ei ddarpariaethau ar y stad mewn cydweithrediad gyda Grŵp Maes-Ni er mwyn sefydlu Canolfan Integredig.
- 4.2. Dros y flwyddyn nesaf dymunwn gydweithio gyda phartneriaid yn lleol er mwyn sgopio ac asesu dichonoldeb sefydlu canolfan integredig ar y cyd.
- 4.3. Dymunwn sgopio modelau rheoli a llywodraethu newydd ar y cyd gyda'r gymuned yn unol â gweledigaeth y Bwrdd Adfywio.
- 4.4. Y nod yw datblygu cynllun hyfyw ar gyfer Canolfan Integredig aml bwrpas ar y stad a fyddai'n cwrdd ag anghenion y trigolion ac yn rhoi'r cyfle i'r Cyngor oresgyn y rhwystrau presennol wrth geisio cynnig gwasanaethau cefnogol yn unol a gweledigaeth y Bwrdd Cefnogi Llesiant Pobl.
- 4.5. Pan luniwyd Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor roeddem yn ymwybodol fod angen datblygiad newydd at y stad er mwyn ceisio gwireddu'r uchod a cheisio disodli'r adeiladau anaddas sydd yno ar hyn o bryd. Nid oeddem yn gwybod beth fyddai hyd a lled yr anghenion ar y pryd a cham cyntaf y prosiect hwn fydd ceisio sefydlu'r gwir gost os am gyrraedd y nod. Dylid cadw mewn cof felly na wyddom ar y pwynt yma os fydd y cyfraniad cyfalaf gan y Cyngor yn ddigonol i wireddu'r gofyn.
- 4.6. Yn dilyn cwblhau gwaith dichonoldeb ar yr anghenion, costau a modelau darparu gwasanaethau a rheoli'r safle, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno cyn symud ymlaen i'r cam nesaf.

#### **5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

##### **5.1. Barn yr aelodau lleol:**

Cynghorydd Nigel Pickavance:

"Fel aelod lleol ar ran ward Marchog hoffwn roi fy marn i am y ganolfan gymunedol integredig arfaethedig. Alla i ddim mynegi digon am yr angen am ganolfan o'r fath ym Maesgeirchen.

Ar hyn o bryd mae gennym rai gwasanaethau gwych ym Maesgeirchen a phartneriaid, fodd bynnag mae'n achos pryder, er bod gwaith yn cael ei wneud yn aml mewn partneriaeth, bod cyfathrebu yn aml yn torri i lawr gyda thrigolion yn gorfod symud o adeilad i adeilad, gan adael yr ystâd i deithio ar gyfer rhai o'r gwasanaethau hyn sy'n aml yn methu'n logistaidd.

Rydym hefyd wedi nodi'r angen am gydlyniant cymunedol ers colli clwb cymdeithasol Maesgeirchen. Teimlodd y gymuned ergyd fawr gyda'r golled hon a gall yr elfen hon ei chynnwys yn yr adeilad aml-bwrpas hwn.

O ystyried poblogaeth Maesgeirchen a'r statws ' Cymunedau yn Gyntaf ', mae'n mynd heb ddweud bod angen mawr am ganolbwynt o'r fath yn ein cymuned. Ni allaf ond gweld bod hyn o fudd mawr i'n cymuned ac rwy'n cefnogi'r syniad ac yn gobeithio y bydd yn datblygu'n realiti."

Cynghorydd Dylan Fernley:

“Fel Aelod lleol ar ran ward Marchog, hoffwn nodi fy nghefnogaeth i'r prosiect arfaethedig. Mae ein cymuned wedi gwneud llawer o waith i ddod â phobl ynghyd i fynd i'r afael â'r cyfleusterau cyfyngedig sydd gennym yn ein cymuned. Byddai datblygu canolbwynt cymunedol a allai gynnwys lle i asiantaethau weithio oddi wrtho, ac agwedd hamdden a lles o fudd mawr i'n preswylwyr. Rydym yn gymuned fawr, gydag amrywiaeth o anghenion a dyheadau, ac mae'r prosiect hwn yn gyfle i ni weithio gyda'n gilydd i wella ein cymuned ”.

## **5.2. Barn y Swyddogion Statudol:**

### **i. Y Swyddog Monitro:**

Fe nodi'r yn yr adroddiad fod y prosiect wedi ei adnabod yn y Cynllun Asedau. Mae'r argymhelliad ar gyfer geisio datrysiad ar cyd gyda partneriaid a'r gymuned yn cynnig ffordd ymlaen sydd yn hefyd yn cydnabod egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### **ii. Y Pennaeth Cyllid:**

“Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir. Mae cynnal gwaith ymchwil manwl, gan gynnwys cydweithio ag eraill ac ymgysylltu â'r gymuned, yn hanfodol os yw datblygiad Canolfan Integredig Cefnogi Teulu ym Maesgeirchen am fod yn llwyddiant. Bydd gwaith ymchwil o'r fath nid yn unig yn sicrhau fod y ddarpariaeth arfaethedig yn addas, ond bydd hefyd yn rhan o'r gwaith angenrheidiol i sefydlu costau manwl ar gyfer y prosiect. Gallaf gadarnhau fod £500k wedi ei glustnodi yn y Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer datblygu canolfan o'r fath.”